Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru):
## Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru):

## Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

---

## Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Rhun ap Iorwerth AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **9**

Dull gweithredu'r Pwyllgor .......... 9

Pwyllgorau eraill sydd wedi ystyried y Bil .......... 11

**2. Datblygu'r Bil** .......... **12**

Y broses ar gyfer Bil Aelod o'r meinciau cefn .......... 12

Datblygu'r Bil .......... 12

Y Bil drafft .......... 14

**3. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud** .......... **15**

Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil .......... 16

Adran 1 – Darparu addysg awyr agored breswyl .......... 16

Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl .......... 17

Adran 3 – Dim caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl .......... 18

Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol .......... 18

Adran 5 – Dod i rym .......... 18

Adran 6 – Enw byr .......... 18

**4. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth** .......... **19**

Amcanion polisi .......... 19

Manteision addysg awyr agored breswyl .......... 22

Mynediad cyfartal .......... 28

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru .......... 31

Y ddarpariaeth bresennol .......... 35

Rhwystrau i fanteisio ar ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl .......... 37

Rhwystrau diwylliannol .......... 51

Yr angen am ddeddfwriaeth ..... 52

Ein barn ar yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth ..... 54

**5. Gweithredu'r Bil a materion ymarferol ..... 55**

Y pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd ..... 55

Capasiti yn y sector ..... 56

Capasiti cyfrwng Cymraeg ..... 59

Darpariaeth gynhwysol ..... 61

Diffinio addysg awyr agored breswyl ..... 64

Cymhwystra ar gyfer hawl i'r ddarpariaeth ..... 67

Hyd profiad addysg awyr agored breswyl ..... 70

Y canllawiau ..... 73

Oedran neu flwyddyn ysgol ..... 75

Natur orfodol y ddarpariaeth ..... 79

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ..... 83

Trwyddedu darparwyr ..... 86

Olrhain y ddarpariaeth a monitro'r canlyniadau ..... 90

Olrhain y ddarpariaeth ..... 90

Monitro'r canlyniadau ..... 92

Ein barn ar weithrediad y Bil a materion ymarferol ..... 93

Ein barn ni: Y pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd ..... 94

Ein barn ni: Capasiti yn y sector ..... 94

Ein barn ni: Diffinio addysg awyr agored breswyl ..... 95

Ein barn ni: Cymhwystra ar gyfer hawl i'r ddarpariaeth ..... 96

Ein barn ni: Hyd profiad addysg awyr agored breswyl ..... 97

Ein barn ni: Y canllawiau ..... 97

Ein barn ni: Oedran neu flwyddyn ysgol ..... 98

Ein barn ni: Natur orfodol y ddarpariaeth ..... 98

Ein barn ni: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ..... 99

Ein barn ni: Trwyddedu darparwyr ..... 100

Ein barn ni: Olrhain y ddarpariaeth a monitro'r canlyniadau ..... 100

**6. Goblygiadau ariannol y Bil ..... 101**

Ariannu'r Bil ..... 101

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..... 101

Buddsoddi mewn addysg awyr agored breswyl ..... 102

Pwysau ar gyllidebau ..... 103

Darpariaeth arbenigol ..... 105

Ariannu'r Bil ..... 106

Costau ychwanegol i ysgolion gan gynnwys costau staffio ..... 109

Ein barn ynghylch goblygiadau ariannol y Bil ..... 111

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 113**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 115**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 116

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Os caiff y Bil ei basio, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o gapasiti o fewn y sector addysg awyr agored breswyl, y bydd rhaid iddo gynnwys asesiad o gapasiti ar gyfer darpariaeth hygyrch a chynhwysol; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyhoedi'r adolygiad hwn, a dylid sicrhau bod gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gael i ysgolion i'w helpu i lywio eu gwaith o gynllunio a dylunio profiadau addysg awyr agored breswyl............................Tudalen 95

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. ........................................................................................................................Tudalen 97

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r ddarpariaeth y dylai addysg awyr agored breswyl gynnwys pedair noson a phum diwrnod er mwyn sicrhau bod mwy o hyblygrwydd o ran hyd profiad addysg awyr agored breswyl sy'n gysylltiedig ag anghenion plant ac ysgolion unigol. ................................................................................................................................Tudalen 97

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ei bod yn rhaid i'r canllawiau nodi y darperir ar gyfer gofynion deietegol pob plentyn. ........................................................................................................................... Tudalen 98

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil nad yw'n orfodol i blant gymryd rhan yn y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl a gynigir o dan y Bil hwn....................................... Tudalen 99

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i welliannau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau:

- bod digon o ddarpariaeth Gymraeg;
- bod darpariaeth addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn ddysgu a chael profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- bod yn rhaid i addysg awyr agored breswyl hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. .........................................................................Tudalen 99

**Argymhelliad 7.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu manylion am sut y mae'n rhagweld y bydd olrhain y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol. ..............................................................................................................................Tudalen 100

**Argymhelliad 8.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu enghreifftiau lle mae deddfwriaeth wedi gosod gofyniad ar Weinidogion i ariannu math penodol iawn o weithgaredd. ........ Tudalen 111

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil ym mis Tachwedd 2023. Yn ystod ein gwaith craffu rydym wedi casglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, ac wedi gwneud gwaith ymgysylltu ar raddfa fach â rhieni a gofalwyr. Mae pwyllgorau eraill y Senedd wedi edrych yn benodol ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol y Bil.

**1.** Ar 24 Tachwedd 2023, cyflwynodd Sam Rowlands AS ("yr Aelod sy'n Gyfrifol") Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ("y Bil"),[1] y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef[2] a'r Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth a chanllawiau sydd i'w gwneud o dan y Bil.[3] Gwnaeth ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Tachwedd 2023.[4]

**2.** Ar 14 Tachwedd 2023 cytunodd y Pwyllgor Busnes yn unol â Rheol Sefydlog 26.9 i gyfeirio'r Bil atom ni er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol ac adrodd arnynt. Ar 21 Tachwedd 2023, ar ôl ymgynghori â ni, pennwyd y dyddiad cau ar gyfer adrodd fel 22 Mawrth 2024.[5]

## Dull gweithredu'r Pwyllgor

**3.** Cytunwyd ar ein dull o graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1 ar 29 Tachwedd 2023. Ein cylch gorchwyl oedd:

Ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir;

---

[1] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, 24 Tachwedd 2023
[2] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, 24 Tachwedd 2023
[3] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth a chanllawiau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn, Tachwedd 2023
[4] Y Cyfarfod Llawn, Datganiad ar gyflwyno Bil arfaethedig Aelod: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Cofnod y Trafodion, paragraffau 194 - 285
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Tachwedd 2023

- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth iddynt (gan gynnwys cychwyn y Bil a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig);
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- Y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth; ac
- Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.

**4.** Cynhaliwyd ein hymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 30 Tachwedd 2023 a 19 Ionawr 2024. Fel rhan o'r ymgynghoriad ysgrifenedig hwn fe wnaethom hefyd ysgrifennu at sefydliadau penodol gyda chwestiynau wedi'u targedu. Daeth cyfanswm o 27 o ymatebion ysgrifenedig i law.[6] Rhestrir manylion pawb a ymatebodd iddo yn Atodiad 2.

**5.** Cynhaliwyd 9 sesiwn dystiolaeth gennym rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024. Rhestrir manylion y rhai a roddodd dystiolaeth lafar yn Atodiad 1.

**6.** Fe wnaethom hefyd ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu, gan ganolbwyntio ar rieni a gofalwyr.[7] Oherwydd yr amserlen graffu, bu'n rhaid inni wneud y gwaith hwn yn ystod mis Rhagfyr ac rydym yn gwerthfawrogi bod hyn wedi cyfyngu ar allu rhai pobl i gymryd rhan. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio tystiolaeth berthnasol a gawsom fel rhan o'n hymchwiliad a oedd yn dwyn y teitl "A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?".

[6] Gwefan y Senedd, tudalen ymgynghoriad Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)
[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu, Ionawr 2024

## Pwyllgorau eraill sydd wedi ystyried y Bil

**7.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth lafar gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ("y Gweinidog") ar 7 Chwefror 2024, a chan yr Aelod sy'n Gyfrifol ar 22 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar 22 Mawrth 2024.

**8.** Clywodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dystiolaeth gan y Gweinidog ar 22 Ionawr 2024, a chan yr Aelod sy'n Gyfrifol ar 5 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd ei adroddiad ar 22 Mawrth 2024.

# 2. Datblygu'r Bil

Bil Aelod o'r meinciau cefn yw hwn y rhoddwyd caniatâd i'w gyflwyno ym mis Hydref 2022. Cynhaliwyd sawl ymgynghoriad ar y cynigion er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r Bil, ac mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ar Fil drafft.

## Y broses ar gyfer Bil Aelod o'r meinciau cefn

**9.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn nodi "o bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot" i nodi Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth "a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod."[8]

**10.** Ar ôl ennill balot, mae gan enillydd y balot 25 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot i gyflwyno cynnig yn gofyn am ganiatâd i gyflwyno Bil. Mae gan y Pwyllgor Busnes 35 diwrnod gwaith o ddyddiad y balot (heb gynnwys cyfnodau toriad) i drefnu dadl ar gynnig o'r fath. Gelwir y ddadl hon yn "ddadl caniatâd i gyflwyno". Os derbynnir y cynnig, mae gan Aelodau 13 mis o'r ddadl caniatâd i gyflwyno i ddatblygu a chyflwyno'r Bil. Ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, bydd y Bil yn destun proses graffu yn yr un modd ag unrhyw Fil arall a gyflwynir i'r Senedd.[9]

## Datblygu'r Bil

**11.** Bu'r Aelod sy'n Gyfrifol yn llwyddiannus yn y balot ar y Bil Aelod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022. Roedd amcanion polisi'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn y balot fel a ganlyn:

> *"Diben y bil hwn yw rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau y rhoddir cyfle i bobl ifanc gael profiad o addysg breswyl yn yr awyr agored.*
>
> *Byddai'r Bil arfaethedig yn ceisio ei gwneud yn ddyletswydd statudol i ddarparu cyllid i ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol a rhai sy'n cael cymorth grant yng Nghymru*

[8] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 26.87
[9] Senedd Cymru, Crynodeb o'r broses ar gyfer Biliau Aelodau, Medi 2021

*er mwyn sicrhau y rhoddir cyfle i bobl ifanc gael o leiaf wythnos o addysg awyr agored breswyl rywbryd yn ystod eu blynyddoedd ysgol.*

*Y bwriad yw rhoi'r rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu ar y rhai sy'n gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth, e.e. awdurdodau addysg a rheolwyr ysgolion sy'n cael cymorth grant."*[10]

**12.** Ar y cam hwn, roedd y Bil yn cael ei adnabod fel Bil Addysg Awyr Agored (Cymru). Newidiwyd hyn i Fil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol a gynhaliwyd i lywio datblygiad y Bil.

**13.** Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil, cynhaliodd yr Aelod sy'n Gyfrifol dri ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyffredinol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023, a daeth 175 o ymatebion i law. Mae'r rhain i gyd wedi'u cyhoeddi,[11] ochr yn ochr â chrynodeb o'r ymatebion.[12]

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y penderfyniadau / newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriadau. Mae rhai o'r newidiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cynnwys y gair "Preswyl" yn enw'r Bil er mwyn "adlewyrchu'n well y gweithgarwch a gwmpesir" gan y Bil; a
- Darparu hyblygrwydd o ran yr oedran y mae'r hawl ar gael a hyd y profiad addysg awyr agored breswyl.[13]

**15.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi mai "newid sylweddol" a gododd wrth i'r Bil gael ei ddatblygu, ond nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â chanfyddiadau'r ymgynghoriad, oedd gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael addysg awyr agored breswyl yn cael y cyfle hwn yn hytrach na gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud hynny.

[10] Gwefan Senedd Cymru, Cynnig 029, Sam Rowlands AS, Gorffennaf 2022
[11] Gwefan Senedd Cymru, Datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru), Ymateb i'r ymgynghoriad
[12] Sam Rowlands AS, Ymgynghoriad ar y Bil arfaethedig - Bil Addysg Awyr Agored (Cymru), Mai 2023
[13] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 188-192, 24 Tachwedd 2023

Gwnaed y penderfyniad hwn "oherwydd lefel y manylion y bydd angen eu hystyried ar gyfer rhoi'r Bil ar waith."[14]

## Y Bil drafft

**16.** Fel rhan o'r broses ymgynghori, cyhoeddwyd Bil drafft ar 14 Gorffennaf 2023.[15] Cynhaliwyd ymgynghoriad wedi'i dargedu â "grŵp dethol o randdeiliaid a fydd â rôl benodol wrth roi'r Bil ar waith."[16]

**17.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn manylu ar y newidiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad hwn a chyflwyno'r Bil. Maent yn cynnwys y newidiadau a ganlyn:

- Egluro bod y ddarpariaeth o dan y Bil "yn cael ei galw yn 'gwrs addysg breswyl'";
- Ei gwneud yn gliriach bod y cwrs addysg awyr agored breswyl hwn yn rhad ac am ddim i ddysgwyr;
- Ei gwneud yn gliriach bod yr hawl ond yn ymestyn i un cwrs addysg breswyl ac nad yw'n atal profiadau addysg awyr agored breswyl eraill rhag cael eu darparu y tu allan i'r hawl a ddarperir gan y Bil;
- Rhaid i gwrs addysg breswyl gynnwys pedair noson a phum niwrnod. Gellir darparu hyn yn ystod un ymweliad, neu ei rannu dros sawl ymweliad. Mater i ganllawiau a fyddai'n cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru oedd hwn yn flaenorol;
- Egluro beth yw ystyr cwrs addysg breswyl; a
- Ychwanegiadau i sicrhau bod bwyd a llety yn cael eu cynnwys yn y costau sydd yn rhad ac am ddim i ddisgyblion fel rhan o'r ddarpariaeth hon.[17]

[14] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, troednodyn 140, 24 Tachwedd 2023
[15] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) drafft, Mehefin 2023
[16] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 181, 24 Tachwedd 2023
[17] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 193-199, 24 Tachwedd 2023

# 3. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud

Diben y Bil yw galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i brofi addysg awyr agored breswyl. Byddai'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith i bob disgybl cymwys, a hynny yn rhad ac am ddim.

**18.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") ac yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i:

> *"… gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o gwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir."*[18]

**19.** Mae disgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir yn golygu'r disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys y disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion, na'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.

**20.** Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y Bil:

> *"… yn ceisio datblygu dull cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu i roi cyfle i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gael profiad addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anableddau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol. Bydd hyn yn newid profiad addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y Cwricwlwm i Gymru, gan ei dynnu o'r elfen*

[18] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 64A(1), Tachwedd 2023

> *ansicrwydd mewn cyllid awdurdodau lleol ac ysgolion, a sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc Cymru.”*[19]

## Crynodeb o ddarpariaethau’r Bil

### Adran 1 – Darparu addysg awyr agored breswyl

**21.** Mae adran 1 yn darparu ar gyfer addysg awyr agored breswyl drwy fewnosod adran newydd yn Neddf 2021. Rhoddir y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, yn hytrach nag awdurdodau lleol neu ysgolion “fel y gall Gweinidogion benderfynu ar y ffordd orau o weithredu hyn”. Noda’r Memorandwm Esboniadol nad lle Gweinidogion Cymru “o reidrwydd” yw darparu’r addysg awyr agored breswyl, ond yn hytrach y dylent “gymryd camau rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.”[20]

**22.** Mae’r adran hon hefyd yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl (“y Cod”), y mae’n rhaid ei ddyroddi o fewn blwyddyn i’r adran hon ddod i rym. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw’r Cod dan adolygiad. Mae hefyd yn nodi na fydd cwricwlwm yn cydymffurfio â’r Bil oni bai ei fod yn cyd-fynd â’r Cod.

**23.** Noda’r adran hefyd ei bod yn rhaid i gwrs addysg awyr agored breswyl gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod ac y gall ddigwydd ar un ymweliad neu ymestyn dros fwy nag un ymweliad.

**24.** Mae’r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl. Wrth wneud hynny, mae’n nodi rhai elfennau y mae’n “rhaid” eu cynnwys, ochr yn ochr ag elfennau eraill y “cânt” eu cynnwys. Rhaid cyhoeddi’r canllawiau o fewn blwyddyn i’r adran hon ddod i rym.

**25.** Mae’r elfennau hynny y mae’n rhaid eu cynnwys fel a ganlyn:

- Darparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;
- Darparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu, dawn ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol y disgybl;

[19] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 4, 24 Tachwedd 2023
[20] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 117, 24 Tachwedd 2023

- Darparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny; a
- Gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r costau sy'n rhesymol mynd iddynt, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

**26.** Yn yr adran hon nodir y caiff y canllawiau:

- Nodi'r oedrannau neu'r blynyddoedd ysgol pan ddarperir addysg awyr agored breswyl;
- Darparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru;
- Nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl;
- Gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chostau staff ysgolion mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl;
- Cynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

## Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl

**27.** Mae adran 2 yn mewnosod adran newydd yn Neddf 2021 i ddarparu ar gyfer ariannu addysg awyr agored breswyl. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i dalu swm i awdurdod lleol sy'n ddigonol i ddarparu'r addysg awyr agored breswyl a nodir yn adran 1.

**28.** Mae'n datgan "nid yw'r adran hon yn lleihau effaith" Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae hyn yn golygu bod y Bil hwn yn creu dyletswyddau newydd i ddarparu cyllid ychwanegol ar wahân ar gyfer addysg awyr agored breswyl.

## Adran 3 – Dim caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl

**29.** Mae adran 3 yn diwygio Deddf Addysg 1996. Mae'r Ddeddf honno'n gwahardd codi tâl am ddarparu addysg. Felly ni ddylai ysgolion godi tâl am elfennau addysg a chludiant ymweliadau preswyl pan fyddant yn cael eu cynnal yn ystod amser ysgol neu pan fyddant yn gysylltiedig â dyletswydd o dan Ddeddf 2021. Ar hyn o bryd mae ysgolion yn gallu codi tâl am fwyd a llety.

**30.** Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 1996 i ddarparu y byddai ymweliadau preswyl a gynhelir fel rhan o ofynion y Bil hefyd yn esempt rhag taliadau am fwyd a llety.

## Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol

**31.** Mae adran 4 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud trefniadau trosiannol drwy reoliadau mewn cysylltiad ag adrannau 1 i 3 yn dod i rym.

## Adran 5 – Dod i rym

**32.** Mae adran 5 yn darparu, os caiff y Bil ei basio, y daw adrannau 1 i 3 i rym dri mis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

## Adran 6 – Enw byr

**33.** Noda adran 6 mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) 2024.

# 4. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Er ein bod yn cytuno'n unfrydol â'r amcanion polisi, oherwydd cwestiynau ynghylch gweithredu'r Bil a'r gost, nid ydym wedi gallu dod i farn gytûn ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil.

## Amcanion polisi

**34.** Noda'r Memorandwm Esboniadol mai diben y Bil yw "galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i brofi addysg awyr agored breswyl." Ychwanega y bydd hyn yn golygu y bydd addysg awyr agored breswyl yn newid "o fod yn rhywbeth sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, sy'n aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth 'braf i'w gael', i fod yn hawl o dan y cynnig addysg…". Dywed, drwy sefydlu addysg awyr agored breswyl fel "rhan annatod" o addysg a datblygiad personol plentyn, fod hyn yn cydnabod "pwysigrwydd addysg awyr agored mewn lleoliad preswyl i gynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc."[21]

**35.** Wrth ddarparu dull "cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu" dywed y Memorandwm Esboniadol y bydd y Bil yn sicrhau bod pob plentyn mewn lleoliad a gynhelir yn cael y cyfle i gael addysg awyr agored breswyl "beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), anableddau, cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol." Noda y bydd newid addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd sy'n cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y cwricwlwm yn goresgyn "natur ad hoc yn aml y ddarpariaeth bresennol" yn ogystal â sicrhau "tegwch i blant a phobl ifanc ledled Cymru."[22] Dywed y Memorandwm Esboniadol:

> *"Yn syml, bydd y Bil yn sicrhau na chaiff unrhyw blentyn neu berson ifanc ei atal rhag profi addysg awyr agored breswyl*

[21] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8-10, 24 Tachwedd 2023
[22] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 11, 24 Tachwedd 2023

> *unwaith yn ystod bywyd ysgol, dim ond oherwydd na all teulu'r disgybl ei fforddio."*[23]

**36.** Noda'r Memorandwm Esboniadol fod delfryd o "degwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol" wrth wraidd y Bil. Mae'n cysylltu'r Bil â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig erthyglau 28 a 29. Dywed y "deellir yn eang fod addysg awyr agored breswyl yn cynnig ystod o fanteision a all wella bywydau plant a phobl ifanc ond, oherwydd tlodi ac anfantais, nid yw'r cyfle ar gael i gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru."[24]

**37.** Ar ddechrau ein gwaith craffu, nododd yr Aelod sy'n Gyfrifol fanteision addysg awyr agored breswyl i iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc; yn ogystal â gwella eu hymgysylltiad a'u cysylltiad â byd natur. Amlygodd y gall hefyd arwain at well dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg. [25]

**38.** Roedd hefyd yn credu bod manteision i berthnasoedd rhwng athrawon a dysgwyr, gan ddweud bod tystiolaeth i ddangos bod pethau fel treulio pedair noson gydag athro dosbarth yn meithrin cymaint o ddealltwriaeth o ddysgwr â blwyddyn gyfan yn eistedd mewn ystafell ddosbarth. Dywedodd fod hyn yn bwysig oherwydd gorau po fwyaf y mae athro'n adnabod ei fyfyrwyr gan y bydd hynny'n ei alluogi i ddarparu addysg sy'n addas iddynt.[26]

**39.** Pwysleisiodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y bydd y Bil yn sicrhau bod gan bob dysgwr sicrwydd y bydd, ar ryw adeg yn ystod ei addysg, yn cael y profiad gwych hwnnw a'r holl fanteision a ddaw yn ei sgil. [27]

**40.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol nad mater o addysg yn unig ydyw:

> *"But, absolutely, from an economic opportunity point of view, resilience for the sector, our rural communities, what they have to offer and the sustainability of our rural communities, keeping young people in our rural communities, having these skills and developing this interest will make a big difference in the long run."*[28]

---

[23] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 13, 24 Tachwedd 2023
[24] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 25, 24 Tachwedd 2023
[25] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 5-6
[26] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 7
[27] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[28] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 34

**41.** Roedd bron pob un a roddodd dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig yn gefnogol i addysg awyr agored breswyl a'r amcanion polisi y tu ôl i'r Bil.

**42.** Pwysleisiodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y gefnogaeth aruthrol a gafodd y cynigion gan blant a phobl ifanc. Disgrifiodd y darn enfawr o waith yr oedd wedi'i wneud yn holi barn plant a phobl ifanc.[29]

**43.** Nodwyd fod y Comisiynydd Plant wedi cymeradwyo Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Bil ac wedi tynnu sylw'n benodol at y "dulliau cyfranogi hwylus i blant a ddefnyddiwyd i gasglu eu barn" gan ddweud bod safbwyntiau plant yn cael eu casglu mewn "modd difyr, hygyrch oedd yn ennyn eu diddordeb." Dywedodd fod yr asesiad "yn amlygu'r pwynt cryf mai'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r Bil yw'r rhai sydd o dan anfantais yn y system bresennol, ac yn fy marn i mae hynny'n creu achos cryf o blaid symud ymlaen gyda'r Bil hwn."[30]

**44.** Er bod llawer yn cefnogi amcanion polisi cyffredinol ehangu mynediad i addysg awyr agored breswyl, roedd rhai yn pryderu am ymarferoldeb, cyllido ac amseriad y Bil. Yn eu plith roedd:

- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT);[31]
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC);[32]
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU);[33]
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC);[34]
- Anabledd Dysgu Cymru;[35] a
- Chwaraeon Cymru.[36]

[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 21
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 177
[32] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 303
[34] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 34
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig , ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 19, Chwaraeon Cymru

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig rhoi pwys ar y farn hon gan mai'r sefydliadau hyn sydd agosaf at ddarparu'r hyn y mae'r Bil wedi'i fwriadu i'w gyflawni.[37] Rydym yn trafod y materion hyn yn fanylach yn y ddwy Bennod nesaf.

**45.** Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn cefnogi'r Bil, oherwydd bod ganddi "resymau difrifol iawn … mewn tri maes allweddol: cyflwyno'r cwricwlwm, deddfwriaeth, cyllid"[38]. Cydnabu Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod y gefnogaeth i addysg awyr agored yn gwbl glir[39].

## Manteision addysg awyr agored breswyl

**46.** Dywedodd ystod eang o randdeiliaid wrthym am fanteision addysg awyr agored breswyl. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom edrych ar yr ymchwil sy'n dangos effeithiau addysg awyr agored breswyl.

**47.** Nododd Estyn mai dim ond 13 o blith bron i 8,000 o astudiaethau ymchwil ar ddysgu yn yr awyr agored a lwyddodd i wrthsefyll proses graffu ar ddyluniad yr astudiaeth a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, nodwyd bod yr astudiaethau yn ddigon trylwyr a'u bod wedi dod i'r casgliad bod manteision i'r broses ddysgu ac i iechyd a llesiant ar sawl lefel wahanol. Mae'r meysydd hyn yn cwmpasu iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â sgiliau fel iaith, cyfathrebu, meddwl yn feirniadol, datrys problemau, creadigrwydd ymhlith eraill, ynghyd â sgiliau personol eraill megis gwydnwch.[40]

**48.** Cododd Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) hefyd y diffyg ymchwil hydredol a fyddai'n cefnogi'r dull gweithredu sydd yn y Bil. Dywedon nhw nad oedd tystiolaeth i gefnogi'r effaith y byddai un wythnos o addysg awyr agored breswyl "yn cael effaith hirhoedlog ar berthynas yr unigolyn â'r amgylchedd …".[41] Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod angen "dadansoddiad manwl" i ddeall pa fanteision y gellir eu "priodoli i ddysgu awyr agored yn yr ysgol a dysgu sy'n seiliedig ar y cwricwlwm yn gyffredinol, cyfleoedd sy'n cysylltu â natur yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol a'r elfen breswyl benodol."[42] Noda'r Memorandwm Esboniadol fod y "dystiolaeth ansoddol" ar addysg awyr agored breswyl yn dangos "[t]ystiolaeth sylweddol o newid

[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 197
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 4.5
[39] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[40] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 116-119
[41] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 314
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru

cadarnhaol yn ystod cwrs addysg awyr agored breswyl ar draws sawl cynulleidfa ac agweddau ar ddatblygiad personol a chymdeithasol."[43]

**49.** Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod y Bil yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac y byddai'n helpu i gyfrannu atynt. Roedd y rhain yn cynnwys y Sefydliad Dysgu Awyr Agored;[44] ac Anabledd Dysgu Cymru.[45] Roedd Llywodraeth Cymru yn anghytuno gan ddweud na fyddai'n hyrwyddo nodau Deddf 2015 "mewn ffordd ystyrlon".[46]

### Iechyd a llesiant

**50.** Disgrifiwyd y cynigion fel mesur ataliol gan UCAC, a fyddai ynghyd â mesurau eraill o'r fath, yn gwella iechyd cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r cenedlaethau presennol.[47]

**51.** Dywedodd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored fod llawer o ymchwil ar gael sy'n dod i'r casgliad bod cyrsiau dysgu awyr agored preswyl yn arwain at fanteision sylweddol i iechyd corfforol a meddyliol.[48] Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei fod yn credu bod gan y Bil y potensial i arwain at ganlyniadau iechyd cadarnhaol i'r plant. Cyfeiriodd at yr effaith gadarnhaol ar iechyd yn sgil treulio amser yn yr awyr agored a mwy o gysylltiad â byd natur.[49] Tynnodd Conffederasiwn GIG Cymru sylw hefyd at bwysigrwydd addysg awyr agored i ddatblygiad plant a phobl ifanc mewn perthynas ag ystod o sgiliau addysgol a phersonol.[50]

**52.** Edrychodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar y Bil yn o safbwynt yr heriau ehangach sy'n ymwneud â gwella gweithgaredd corfforol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dywedodd fod yr ymchwil yn dangos bod angen 'cryn ymdrech' i fynd i'r afael â chyfraddau gweithgaredd corfforol isel ymhlith plant a phobl ifanc Cymru. Dywedodd y gallai'r Bil helpu i wella sgôr gweithgaredd corfforol Cymru, lleihau ymddygiad eisteddog, hyrwyddo ffordd iach o fyw a chael effaith gadarnhaol hirdymor ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc.[51] Gwnaeth

[43] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 60, 24 Tachwedd 2023
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 24
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 3.1
[47] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 311
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 21
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 11, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 3
[51] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ROE20, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)

Eryri-Bywiol hefyd y cysylltiad rhwng y cyfleoedd yn y Bil i fynd i'r afael â lefelau gweithgaredd corfforol a gordewdra yng Nghymru.[52] Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y gall dysgu yn yr awyr agored sefydlu arferion iach yn ystod plentyndod.[53]

**53.** Dywedodd Parentkind y gallai addysg awyr agored breswyl o bosibl chwarae rhan mewn cefnogi llesiant meddyliol plant a phobl ifanc.[54] Dywedodd hefyd fod tystiolaeth sy'n awgrymu bod y mathau hyn o ymweliadau yn golygu bod plant yn defnyddio llai ar ddyfeisiadau electronig, ffonau clyfar ac yn dechrau mwynhau bod yn yr awyr agored a chael profiad ohono. Roedd yn teimlo ei fod yn gyfle i newid y math o ddisgwyliadau a rhagolygon plant i ddilyn trywydd llawer iachach.[55]

**54.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod iechyd corfforol a meddyliol yn gymhleth, ac er y gallai dysgu yn yr awyr agored fod yn fuddiol ,"bydd lefel y budd yn fach, yn enwedig o un digwyddiad." Dywedodd y gellid cael y buddion hyn hefyd mewn ffyrdd gwahanol. Byddai'n "bryderus pe bai disgwyl y byddai effaith fesuradwy ar ddeilliannau iechyd a lles neu ar y galw am wasanaethau'r GIG o ganlyniad i'r cynigion yn y Bil hwn."[56] Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru, er na fyddai addysg awyr agored breswyl ar ei phen ei hun yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant, y gall fod yn rhan allweddol o ddull system gyfan o ymdrin â llesiant meddyliol ac emosiynol mewn ysgolion.[57]

### Datblygiad personol

**55.** Nododd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored fod addysg awyr agored breswyl hefyd yn cyfrannu at ddeilliannau addysgol ochr yn ochr â'r manteision iechyd.[58] Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru) y gall addysg awyr agored wneud cyfraniad amhrisiadwy, a allai fod yn drawsnewidiol, i addysg a thwf personol plentyn.[59]

**56.** Dywedodd NAHT y gall roi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu annibyniaeth a dysgu sgiliau creadigol newydd drwy waith tîm a thrwy wthio eu hunain.[60]

[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 21, Eryri-Bywiol
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 5
[54] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 134
[55] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 23
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 03, Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 10, Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru), paragraff 2
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru

Tynnodd PGL Travel hefyd sylw at ddatblygiad sgiliau rhyngbersonol, yn ychwanegol at y manteision iechyd corfforol a meddyliol, megis meithrin annibyniaeth, sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol.[61]

**57.** Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at nifer o wahanol ddarnau o ymchwil a oedd yn cysylltu mynediad i fannau gwyrdd â datblygiad corfforol a gweithgaredd plant. O ran plant nad oeddent yn byw yn agos at fannau gwyrdd, dywedodd fod gallu manteisio ar addysg awyr agored yn "hanfodol i helpu i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad" cyn nodi ei fod hefyd yn "agwedd bwysig ar ddatblygiad pob plentyn."[62]

**58.** Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni / gofalwyr y bu inni siarad â nhw yn cefnogi addysg awyr agored breswyl, ac yn teimlo ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad plant. Amlygwyd manteision megis datblygu annibyniaeth plant, sgiliau bywyd a sgiliau rhyngbersonol. Dywedodd un rhiant i blentyn anabl:

> *"Daeth fy mab adref ac roedd wedi gwneud ffrind ac fe gafodd wahoddiad i de, ac mae'n dal yn ffrindiau ag ef nawr, 6 mlynedd yn ddiweddarach. Ac mae'r person hwnnw wedi dod yn eiriolwr go iawn iddo."*[63]

**59.** Dywedodd y Gweinidog fod manteision anhygoel i addysg awyr agored. Dywedodd fod yr effeithiau cadarnhaol y gall eu cael ar blant a phobl ifanc y tu hwnt i amheuaeth:

> *"It helps them develop, helps them grow, helps them make connections with the world around them, helps with that sense of wonder, that sense of awe, which is where curiosity comes from."*[64]

**60.** Mantais bosibl, a amlygwyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru oedd, o ran y plant hynny nad oes ganddynt lawer o brofiad o'r awyr agored, y gallai roi cipolwg iddynt ar fyd gwaith nad yw efallai wedi croesi eu meddyliau nhw na'u teuluoedd.[65]

---

61 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
62 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
63 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraff 19
64 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
65 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 18

**61.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y gall addysg awyr agored ddarparu "cyfleoedd pwysig" i blant ddefnyddio a chlywed y Gymraeg y tu allan i ystafelloedd dosbarth ac "mewn sefyllfaoedd anffurfiol a hwyliog." Dywedodd y gallai hefyd "gyfrannu'n sylweddol" at nodau'r strategaeth Cymraeg 2050.[66]

## Elfen breswyl addysg awyr agored

**62.** Dywedodd Estyn fod rhywbeth arbennig ac unigryw ynglŷn ag aros dros nos, ac y byddai'n wych pe bai hynny'n cael ei wneud mewn ffordd gynhwysol, fel bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan. Dywedodd fod aros oddi cartref yn nodwedd unigryw o addysg awyr agored breswyl.[67]

**63.** Tynnodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored sylw at y strategaeth 'Learning Away', a oedd yn dangos:

> *"… that by participating in a residential visit, there is a unique interplay between the natural environment, challenge and staying away from home that brings about pro-environmental behaviours, as well as enhancing learning, achievement and well-being of children and young people."*[68]

**64.** Cyfeiriodd Eryri-Bywiol hefyd at y gwaith hwn gan ddweud ei fod yn dangos sut y mae amrywiaeth o fanteision cadarnhaol yn gysylltiedig â chyrsiau dysgu preswyl o safon, sydd hefyd yn gallu helpu i drawsnewid profiad dysgu myfyrwyr, yn gallu helpu i drawsnewid ysgolion, ac nad oes angen iddo fod yn ddrud.[69]

**65.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn "heriol dod o hyd i dystiolaeth sy'n gallu gwahaniaethu rhwng gwerth profiadau dysgu awyr agored y gellir eu cyflwyno drwy weithgareddau arferol y cwricwlwm o ddydd i ddydd a gweithgareddau dydd ac effaith ychwanegol benodol profiad preswyl, os oes un." Fodd bynnag, dywedodd fod "rhywfaint o dystiolaeth" sy'n dangos bod addysg awyr agored yn cael effeithiau cadarnhaol. Dywedodd "nid yw'n bosibl, yn ein barn ni, i ynysu cyfraniad penodol addysg awyr agored 'breswyl' o gymharu â dysgu awyr agored dibreswyl i ddatblygiad plant a phobl ifanc…". Dywedodd:

---

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 13, Comisiynydd y Gymraeg
[67] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 165-166
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 03, Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)
[69] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 21, Eryri-Bywiol

> *"… mae'r sylfaen dystiolaeth o ran budd dysgu awyr agored preswyl, yn enwedig o gymharu â phrofiadau ac anghenion dysgu posibl eraill, yn ei gwneud yn anodd cefnogi'r Bil".*[70]

**66.** Cododd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant faterion tebyg, gan ddweud bod y data ar effaith yn gyfyngedig oherwydd ei fod yn aml yn cael ei astudio ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu'r effaith benodol. Dywedodd, pe bai'r Bil yn cael ei basio, y byddai angen monitro ei weithrediad a'i effaith yn effeithiol.[71] (Rydym yn edrych ar faterion yn ymwneud â monitro yn y Bennod nesaf.)

**67.** Dywedodd y Gweinidog os yr elfen breswyl yw gwerth y gweithgaredd nad oedd yn glir mae'n cael ei chysylltu ag addysg awyr agored yn hytrach na chwrs cerdd neu gwrs drama neu ryw weithgaredd arall.[72]

**68.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn llwyr gydnabod efallai nad oes tystiolaeth empirig sy'n dangos y bydd aros oddi cartref dros nos am hyn a hyn o nosweithiau yn cael effaith benodol ar fywyd plentyn. [73]

**69.** Dywedodd ei Staff Cymorth nad yw diffyg tystiolaeth o effaith yn gyfystyr â diffyg effaith ac mai'r cyfan y mae'n ei olygu yw nad yw'r dystiolaeth wedi cael ei chasglu eto. Cyfeiriodd hefyd at rywfaint o'r dystiolaeth sydd yn y Memorandwm Esboniadol. Dywedodd fod cymysgedd cymhleth o bethau'n digwydd ar gwrs preswyl, gan gynnwys digwyddiadau her, aros dros nos, a'r amodau sy'n gysylltiedig â hynny oll. Gall y cyfuniad o'r holl elfennau hyn, a'r berthynas sy'n datblygu rhwng staff a myfyrwyr, gael eu colli heb elfen breswyl y profiad.[74]

**70.** Roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol hefyd yn derbyn y pryderon a godwyd (gweler paragraff 54) ynghylch y potensial i addysg awyr agored breswyl gael effaith ar wariant ar ofal iechyd. Ond dywedodd er nad oes odd rhoi pris arno o reidrwydd, bod tystiolaeth glir bod profiadau awyr agored a chyswllt â byd natur yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl.[75]

---

[70] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[71] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ROE20, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)
[72] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 208
[73] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 29
[74] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 30-32
[75] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 34 - 40

## Mynediad cyfartal

**71.** Cyfeiriodd nifer fawr o randdeiliaid at fynediad a chyfle cyfartal.

**72.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod mynediad a'r cyfle i gael mynediad i'r math hwn o addysg yn hanfodol i'r Bil, gan nodi bod y data wedi dangos mai dim ond 9 o blith 30 o ysgolion arbennig a oedd wedi darparu addysg awyr agored breswyl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn derbyn y gallai fod nifer o wahanol resymau am hynny ond byddai'r Bil yn ceisio sicrhau cyfle teg i bawb.[76]

**73.** Dywedodd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored fod y ffaith bod manteision addysg awyr agored breswyl ond ar gael i'r rhai mewn ysgolion penodol ac sydd â lefel benodol o incwm aelwyd yn annheg ac yn groes i strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cymru.[77] Dywedodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored fod gwerthoedd craidd tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd y Bil.[78]

**74.** Tynnodd Eryri-Bywiol sylw at y ffaith bod plant sy'n byw yn y rhannau mwyaf cyfoethog o Gymru ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd.[79]

**75.** Disgrifiodd y Comisiynydd Plant bwysigrwydd ac anghenraid y Bil, gan ddweud bod "loteri fawr o ran cod post, a hynny o ran a yw eich ysgol yn cynnig gweithgareddau o'r fath neu beidio, ac a ydyn nhw'n fforddiadwy i'w mynychu neu beidio." Dywedodd mai'r gwir amdani yw "na fydd llawer o blant" yn cael y profiadau hyn heb y Bil hwn. Amlygodd hefyd y gall y profiadau hyn roi cyfle i blant o deuluoedd incwm isel i wneud gweithgareddau fel canŵio neu ddringo creigiau, na fyddent o bosibl yn cael y cyfle i gael profiad ohonynt fel arall.[80]

**76.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y byddai'r Bil yn helpu i leihau anghydraddoldebau oherwydd y byddai'n sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i fanteisio ar addysg awyr agored breswyl.[81]

**77.** Dywedodd Chwaraeon Cymru yn gyffredinol mai ysgolion yw'r "unig leoliad a all effeithio ar bob plentyn, dim ots beth yw ei incwm ac felly mae'n rhoi

[76] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 21
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 03, Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 21, Eryri-Bywiol
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 11, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent yn gallu cymryd rhan ynddynt fel arall o bosibl."[82] Tynnodd Conffederasiwn GIG Cymru sylw at yr agwedd hon hefyd.[83]

**78.** Ar y llaw arall, tynnodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant sylw at yr anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru, a'r effaith a gânt ar iechyd corfforol a meddyliol plant.[84]

**79.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored ei bod yn gweld plant yn colli'r cyfleoedd hyn. Yn aml, meddai, roedd y plant hyn yn blant yr ystyriwyd eu bod yn broblemus neu'n rhai a chanddynt ymddygiad neu anghenion anodd. Fe wnaethant hefyd ddyfynnu "cyfran fawr o blant yn y canol sy'n bwrw ymlaen â phethau …. dydyn nhw ddim yn gallu ei fforddio chwaith, ac mae hynny'n dibynnu ar y mater ecwiti hwnnw." Gofynnodd:

> *"Do we want to have a curriculum that is available to all and to give equity and opportunity, or do we want to have something that is, how shall we say it, a postcode lottery and which depends on where you live, what you earn, how much you can afford, I think?"*[85]

**80.** Dywedodd NASUWT fod y plant eu hunain yn sylweddoli na allant gymryd rhan ac yn pryderu'n fawr am hynny, a'u bod yn ymwybodol iawn o'r ffaith nad oes modd iddynt ymuno yn y gweithgareddau hyn. Dywedodd nad oedd unrhyw amheuaeth ynghylch yr annhegwch o gallu manteisio ar weithgareddau o'r fath, a bod gan blant difreintiedig fynediad gwael i'r cyfeloedd hyn.[86] Yn ôl NEU, gallai'r cynnig fod o fudd arbennig i'r plant hynny o gefndiroedd difreintiedig, na fyddent o bosibl yn gallu fforddio trip ysgol preswyl fel arall[87]. Teimlai'r Gynghrair Cefn Gwlad hefyd mai'r rhai a allai elwa fwyaf o'r profiadau hyn o bosibl yw'r rhai nad yw eu hamgylchiadau personol a theuluol yn eu galluogi i gymryd rhan.[88]

**81.** Dywedodd Estyn nad oedd annhegwch o ran mynediad yn iawn a bod angen mynd i'r afael â hyn. Os caiff y Bil ei basio, dywedodd ei bod yn bwysig i ysgolion ddewis gweithgareddau'n ddoeth er mwyn galluogi pob disgybl i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny. Roedd yn cydnabod y byddai hyn yn amrywio o ysgol i ysgol, ond y bydd angen i'r system sicrhau nad oes unrhyw

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 19, Chwaraeon Cymru
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 8
[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ROE20, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)
[85] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 263
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraffau 7 a 12
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Uned Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 10, Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru), pargaraff 2

anghydraddoldebau o ran gweithredu'r Bil.[89] Dywedodd hefyd, os yw hyn yn rhan o'r cwricwlwm, y dylai pob plentyn allu mynd ar y daith ac na ddylai cost fod yn rhwystr i hynny.[90]

**82.** Rhannodd Parentkind ganfyddiadau arolwg yr oedd wedi'i gynnal gyda rhieni yng Nghymru ar y Bil. Canfu'r arolwg hwn y canlynol:

> *"… More than two in five (45%) of all parents say they would appreciate these activities being offered at their child's school. For families living on a lower income, this need was higher still with nearly half (49%) requesting this option. … This suggests that many parents of all backgrounds would recognise the wellbeing benefits of their child experiencing a week of outdoor education."*[91]

**83.** Nododd Anabledd Dysgu Cymru:

> *"… provision for people with a learning disability is embedded in the legislation, in practice this may prove more challenging given differing and often unique needs of individuals. An unintended consequence of the legislation may be that those needs go unmet because of the pressure to provide opportunities for the majority of young people who do not have a learning disability. … Children and young people with a learning disability might be among those who would benefit the most from the experiences outdoor education offers. There need to be assurances that they do not miss out on such experiences, that the offer provided by the legislation is equitable despite the extra costs that might incur from inclusive access."*[92]

**84.** Mae materion yn ymwneud â mynediad anghyfartal i brofiadau preswyl wedi'u hamlygu yn ein hymchwiliad i fynediad i'r anabl i addysg a gofal plant. Yn ein gwaith ymgysylltu ar yr ymchwiliad hwn, teimlai nifer o'r cyfranogwyr ei bod yn bwysig bod plant a phobl ifanc anabl yn cael cyfleoedd i gael mynediad i addysg

[89] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 141
[90] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 133
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru

awyr agored breswyl, oherwydd efallai fod ganddynt gyfleoedd mwy cyfyngedig i fanteisio ar weithgareddau o'r fath o gymharu â phlant a phobl ifanc eraill.

> *"Yn fwy felly, byddwn i'n dweud, ar gyfer plant ag anghenion arbennig a'r rheswm…cyfyngedig yw'r mynediad i'r byd ar eu cyfer eisoes."*[93]

**85.** Dywedodd UCAC, o ran sicrhau tegwch, mai darparu deddfwriaeth fel hon yw'r ffordd ymlaen.[94] Maen hefyd yn "cymeradwyo'r awydd i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl." Fe'i galwyd yn uchelgais gymeradwy.[95] (Er nad oedd yn cefnogi datblygiad y Bil yn ei ffurf bresennol ar hyn o bryd. Rydym yn trafod y materion hyn yn y Bennod nesaf.)

**86.** Dywedodd Eryri-Bywiol y gallai mynediad teg i bawb gael effeithiau ehangach gan arwain yn arbennig at fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.[96]

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

**87.** Dywedwyd wrthym sut y mae'r Bil yn cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd yr Urdd fod addysg awyr agored breswyl yn "cyfrannu tuag at bedwar diben y cwricwlwm newydd",[97] safbwynt a gefnogir gan Banel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr,[98] UCAC,[99] ac Anabledd Dysgu Cymru.[100]

**88.** Fodd bynnag, cododd rhai bryderon ynghylch sut yr oedd y Bil yn cyd-fynd â'r cwricwlwm. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) fod angen bod yn wyliadwrus iawn o sut y byddai'r Bil yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd yn pryderu bod risg y byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwasgu i daith ddysgu plentyn a fyddai'n groes i'r dull dysgu blaengar yn y cwricwlwm.[101]

**89.** Gofynnodd UCAC hefyd pam yr oedd addysg awyr agored breswyl yn cael blaenoriaeth ac yn cael ei gwneud yn statudol, o bosibl ar draul mathau eraill o

---

93 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraff 12
94 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 356
95 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 1.2
96 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 21, Eryri-Bywiol
97 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 192
98 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 198
99 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 1.4
100 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
101 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 198

brofiadau megis teithiau tramor. Dywedodd fod perygl mewn gwneud rhai elfennau'n orfodol.[102]

**90.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cwricwlwm eisoes yn "gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer profiadau awyr agored" ac nad oes achos digon cryf o blaid cynnig addysg awyr agored breswyl.[103]

**91.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol yn gyson â'r weledigaeth sy'n sail i'r cwricwlwm. Dywed fod y Bil yn tanseilio'r hyblygrwydd i ysgolion ddylunio cwricwlwm lleol sy'n diwallu anghenion y disgyblion penodol y maent yn eu gwasanaethu.[104]

## Continwwm o addysg awyr agored

**92.** O wahanol safbwyntiau, clywsom am bwysigrwydd ystyried addysg awyr agored breswyl yng nghyd-destun ystod o brofiadau addysg awyr agored gwahanol. I rai, roedd y continwwm hwn yn amlwg yn cefnogi'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil, ond roedd eraill yn teimlo ei fod yn dewis un elfen o addysg awyr agored ar draul eraill o bosibl.

**93.** Dywedodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored fod cwrs preswyl yn rhan o gontinwwm sy'n dechrau cael ei gyflwyno yn yr ysgol, sy'n gallu symud i'r camau cyntaf i'ch parc lleol gyda'r cwrs preswyl wedyn yn gwneud i bobl ifanc flodeuo mewn gwahanol ffyrdd. Dywedodd fod pobl ifanc sy'n dawel iawn yn yr ystafell ddosbarth yn dod i'r amlwg yn aml, ac yna maen nhw'n mynd â'r profiad hwnnw yn ôl i'r ysgol.[105]

**94.** Dywedodd CLILC fod yn rhaid i addysg awyr agored gael ei ymgorffori yng ngyrfa ysgol gyfan plentyn. Ni ddylid ystyried mai'r ddarpariaeth yn y Bil hwn yw'r unig elfen o addysg awyr agored.[106] Amlygodd y Comisiynydd Plant hefyd y cyfleoedd i gysylltu'r ddarpariaeth â gweithgareddau pan fyddant yn ôl yn yr ysgol, a fydd yn galluogi plant i barhau i gael cysylltiad â'r amgylchedd naturiol a'u hymdeimlad o le.[107]

**95.** Roedd gan NASUWT bryderon ynghylch sut y byddai'r profiadau o un wythnos o addysg awyr agored breswyl yn cysylltu'n ôl ag ehangder cyfnod

[102] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 2.3
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 2.2
[104] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 192
[105] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 198
[106] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 26
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru

plentyn yn yr ysgol. Galwodd am fframwaith mwy a chryfach i sicrhau y byddai unrhyw ddysgu a fyddai'n deillio o wythnos allan o yrfa ysgol 10 mlynedd yn cael ei atgyfnerthu, a'i gysylltu'n ôl â'r ysgol a'r gymuned ehangach y mae'r plentyn yn byw ynddi.[108] Heb iddo gael ei ymgorffori yn y cwricwlwm, meddai, mae dysgu yn yr awyr agored yn parhau i fod yn agored i newidiadau cyllid a pholisi.[109]

**96.** Dywedodd NASUWT y gall fod llawer o wahanol brofiadau awyr agored sy'n lleol i'r ysgol a'r ardal, er enghraifft ysgolion coedwig, teithiau maes, garddio ar y safle, neu gysylltu â grwpiau trydydd sector yn yr ardal.[110] Roedd UCAC yn cytuno gan ddweud bod y cyfleoedd hyn yn rhan o'r pecyn ehangach ac nad un wythnos yw'r elfen bwysicaf yn hynny o beth.[111]

**97.** Dywedodd Chwaraeon Cymru ei bod yn bwysig nad oedd y Bil yn cael ei weld fel un sy'n ticio'r bocs ar gyfer gweithgareddau corfforol ar gyfer grŵp blwyddyn. Dywedodd fod angen integreiddio dysgu yn yr awyr agored i addysg, ac y dylai darpariaethau'r Bil gael eu gweld fel rhywbeth sy'n "cyfoethogi, i ddatblygu ac adeiladu ar sgiliau bywyd pwysig sydd eu hangen mewn amgylchedd cynhwysol."[112]

**98.** Dywedodd Estyn ei bod yn bwysig i ysgolion feddwl sut y gallant ymgorffori dysgu yn yr awyr agored drwy gydol gyrfa ysgol plentyn, gan amlygu y gall rhai o'r cyfleoedd hyn fod yn niwtral o ran cost.[113] Dywedodd Estyn ei fod yn awyddus i bwysleisio hyn ni waeth a yw'r Bil yn cael ei basio ai peidio.[114] Roedd NAHT yn cytuno ag Estyn. Dywedodd fod yna gyfleoedd o fewn y system bresennol, ac y gallai ysgolion ac eraill yn y sector gael eu hannog i gymryd y mater hwn o ddifrif a gydag ychydig bach mwy o ddiffiniad, y gellid ei hyrwyddo.[115]

**99.** Roedd NASUWT yn cefnogi'r galwadau am fwy o ffocws ar ddysgu yn yr awyr agored, gan ddweud nad oes digon o eglurder ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda. Dywedodd na fu ffocws i ddysgu yn yr awyr agored wedi cael ei ffocysu ac nad yw wedi cael ei gofnodi ac nad oedd ei ganlyniadau wedi cael eu mesur ac, o ganlyniad, roedd yn croesawu'r ffocws ar addysg awyr agored sy'n deillio o'r Bil.[116]

[108] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 305
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 20
[110] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 314
[111] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 367
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 19, Chwaraeon Cymru
[113] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 148
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 167
[115] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 245
[116] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

**100.** Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant hefyd fod cyfleoedd i ymgorffori dyheadau'r Bil yn y cwricwlwm newydd. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ehangu mynediad a chyfleoedd i blant ymgysylltu â gwahanol fathau o addysg awyr agored gyda phwyslais ar bwysigrwydd gweithgaredd corfforol.[117]

**101.** Dywedodd UCAC fod y "pwyslais ar 'gynefin' yn golygu y bydd gweithgareddau awyr agored yn gweddu'n berffaith i ofynion y cwricwlwm newydd."[118]

**102.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn credu mai'r "ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol dysgwyr mewn perthynas â'r awyr agored a'u cydberthynas ag ef yw cynnig profiadau parhaus o ddysgu yn yr awyr agored ar hyd eu taith ddysgu."[119]

**103.** Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd y continwwm dysgu o 3 i 16 o fewn y cwricwlwm. Nid oedd yn credu felly ei bod yn synhwyrol deddfu ar gyfer dulliau gweithredu neu weithgareddau unigol. Ychwanegodd pe baech yn dilyn y llwybr penodol hwn y byddai'n anodd gwahaniaethu rhwng ymyriadau penodol ar gyfer ysgolion coedwig, diwrnodau chwaraeon, teithiau natur a phob math ymyriadau penodol eraill.[120] Dywedodd hefyd ei fod yn bryderus y byddai'r ffocws ar gyflwyno'r ddarpariaeth benodol hon yn hytrach na'r set ehangach o brofiad dysgu awyr agored y mae'r cwricwlwm yn ei ddarparu ar hyn o bryd.[121]

**104.** Nododd y Gweinidog hefyd y gall mynediad i addysg awyr agored fod yn rhatach nag addysg awyr agored breswyl (hyd yn oed gyda chost y ddarpariaeth ei hun a ariennir gan y Bil). (Rydym yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â chost yn yr adran ar rwystrau i fynediad i addysg awyr agored breswyl.) Dywedodd fod llawer o ffyrdd gwahanol y gall ysgolion ddarparu profiad dysgu awyr agored yn hynod effeithiol a'u bod yn gwneud hynny.[122]

**105.** Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo y gellid cyflawni'r un amcanion â'r Bil drwy ganolbwyntio ar sut y gall dysgu yn yr awyr agored fod yn rhan fwy o'r cwricwlwm. Dywedodd ei fod yn awyddus i gydweithio â'r Aelod sy'n Gyfrifol ar sut y gellir ehangu adnoddau a chanllawiau.[123]

[117] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ROE20, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 1.3
[119] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 5.12
[120] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 193
[121] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 215
[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 196
[123] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 252

**106.** Roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cytuno bod angen elfen o ddilyniant i addysg awyr agored a'i bod yn daith ddysgu sy'n cynnwys elfennau sy'n cefnogi plant i fod yn yr awyr agored. Ond dywedodd fod profiadau addysg awyr agored breswyl yn rhan bwysig o'r dilyniant hwnnw, yn rhan bwysig o greu atgofion, a fydd yn para am oes.[124]

## Y ddarpariaeth bresennol

**107.** Noda'r Memorandwm Esboniadol y cyfraddau cyfranogi presennol mewn addysg awyr agored breswyl. Mae'n defnyddio data o system ymweliadau EVOLVE, a ddefnyddir gan holl awdurdodau lleol Cymru, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot. Noda'r Memorandwm Esboniadol eu bod, wrth ddefnyddio'r data hyn, wedi defnyddio data ar lefel ysgol yn hytrach na data ar lefel disgybl i osgoi cyfrif lluosog mewn achosion lle y gallai disgyblion fod wedi cymryd rhan ar fwy nag un achlysur.[125]

> *"Yn y flwyddyn academaidd 2022/23, roedd tua dwy ran o dair (67%) o ysgolion cynradd Cymru ac ysgolion canol (pob oed) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Mae hyn yn golygu na chafodd traean, neu bron i 400 o ysgolion, a'u plant, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 2.*
>
> ▪ *Roedd ychydig dros hanner (54%) o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7 i 9) yn 2022/23 a llai na hanner (48%) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 i 11). Mae hyn yn golygu na chafodd ychydig llai na hanner, neu tua 90 o ysgolion, a'u plant, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 3. Ni chafodd dros hanner, neu tua 100 o ysgolion, a'u disgyblion, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 4.*

[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 28-29
[125] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, troednodyn 25, 24 Tachwedd 2023

> ▪ *O'r 37 o ysgolion arbennig yng Nghymru, trefnodd 9 (24%) gyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2022/23."*[126]

**108.** Noda, er y gallai fod rhywfaint o effaith ar ymweliadau oherwydd y pandemig, bod data EVOLVE ar gyfer 2018/19 yn dangos bod "lefelau 2022/23 yn adlewyrchu'r darlun hirdymor yn hytrach nag effaith ar ôl y pandemig yn unig."[127] Mae hefyd yn myfyrio ar ddata gan Banel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru, a ddangosodd, hyd yn oed pan fydd ysgolion yn trefnu addysg awyr agored breswyl, na fydd pob disgybl yn cymryd rhan. Roedd data o arolwg diweddar yn awgrymu "mewn dros draean o'r ysgolion a ymatebodd (118 o 329), o'r plant hynny a gafodd gyfle .... mae llai na 75% ... yn cymryd rhan."[128] Edrychwn ar y rhwystrau i fanteisio ar addysg awyr agored breswyl yn yr adran nesaf.

**109.** Dywedodd aelod o staff Cymorth yr Aelod sy'n Gyfrifol fod data EVOLVE yn rhoi dealltwriaeth lawer dyfnach o'r ddarpariaeth bresennol, a chan ei fod yn cwmpasu 21 o'r 22 awdurdod lleol ei fod yn rhoi cryn dipyn o hyder i ni ynghylch cywirdeb y wybodaeth. Dywedodd mai dyma'r wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd.[129]

**110.** Er bod Ymchwilydd y Senedd a oedd yn cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol wedi dweud bod y data'n amrywio ar draws gwahanol awdurdodau lleol a rhannau o Gymru, yn y bôn, mae gan ddisgyblion fwy o siawns o fynd ar gwrs awyr agored preswyl, yn dibynnu ar ble y maent yn byw.[130]

**111.** Un o'r rhesymau dros yr amrywiad hwn yn y ddarpariaeth, yn ôl yr Aelod sy'n Gyfrifol, oedd oherwydd mai gweithgaredd cyfoethogi ydyw ar hyn o bryd, yn hytrach na hawl.[131] Dywedodd fod y Bil hwn yn ceisio datrys yr annhegwch o ran mynediad.[132]

**112.** Wrth fyfyrio ar y data, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

> *"it comes back to the fundamental reason why I think the Bill should exist because, which is equity of access for all, which I*

[126] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 40, 24 Tachwedd 2023
[127] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 41, 24 Tachwedd 2023
[128] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 44, 24 Tachwedd 2023
[129] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 27-28
[130] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 30
[131] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[132] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

> *think is something that the Welsh Government would be keen to support as well."*[133]

## Rhwystrau i fanteisio ar ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl

**113.** Nod y Bil yw lliniaru un o'r rhwystrau allweddol i fanteisio ar ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl: cost ymweliadau o'r fath. Noda'r Memorandwm Esboniadol y bydd y Bil yn mynd i'r afael ag "anghydraddoldeb economaidd a ffactorau eraill" sy'n golygu bod plant yn colli cyfleoedd, naill ai oherwydd nad yw eu hysgol yn cynnig y ddarpariaeth, neu os yw eu hysgol yn gwneud hynny, na allant gymryd rhan oherwydd y costau. [134] Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol, nid dyma'r unig rwystr. Rydym yn ymchwilio i'r gwahanol rwystrau ac i ba raddau y gall y Bil fynd i'r afael â'r rhain.

### Rhwystrau ariannol

**114.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dyfynnu'r data o arolwg y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored a ddangosodd "mai'r rhwystr mwyaf o bell ffordd" i gyfranogi yw cyfyngiadau ariannol, a nodwyd gan 59% o ysgolion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn.[135] Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol hefyd mai'r prif rwystr yw cyfyngiadau ariannol.[136]

**115.** Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y dystiolaeth a gawsom. Dywedodd Parentkind fod canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Rieni yn dangos bod pryder sylweddol ymhlith rhieni ynghylch costau ysgol, a bod teithiau ysgol yn cael eu gweld fel un o'r pryderon mwyaf. Dywedodd fod 50% o rieni yng Nghymru yn poeni am gostau teithiau, sydd ychydig yn uwch na chyfradd gyffredinol y DU o 44%. Mae'r cyfraddau hyn yn cynyddu ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sydd â phlentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd fod dibynnu ar gyfraniadau ariannol rhieni yn creu rhwystrau i deuluoedd ar incwm isel, yn ogystal â theuluoedd mwy sydd â mwy o blant i dalu amdanynt.[137] Dywedodd Parentkind hefyd fod sicrhau bod costau teithio, llety a phrydau yn

[133] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 31
[134] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 15, 24 Tachwedd 2023
[135] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 45, 24 Tachwedd 2023
[136] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 45
[137] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind

cael eu hariannu'n llawn yn arbennig o bwysig i'r rhieni a ymatebodd i'w harolwg ar y cynigion.[138]

**116.** Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at ganfyddiadau "arolwg cenedlaethol graddfa fawr" a gynhaliwyd ganddi a'r ffaith mai'r prif fater a godwyd oedd costau byw a thlodi. Dywedodd fod 56.5% o'r ymatebwyr yn poeni am dalu am deithiau ysgol. Roedd 86.2% o weithwyr proffesiynol yn pryderu am y costau hyn. Ond dywedodd, pan ofynnwyd i blant a phobl ifanc beth fyddai'n gwneud eu bywydau'n well, mai eu hateb oedd "mwy o deithiau a gweithgareddau".[139]

**117.** Dywedodd Estyn, oni bai bod yr holl gostau preswyl yn cael eu talu, y byddai rhai yn anochel yn colli cyfle. Dywedodd y byddai angen i ysgolion ddewis profiadau nad oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â nhw er mwyn i bob plentyn allu manteisio ar y cyfleoedd hynny.[140]

### Effaith y cynnydd mewn costau

**118.** Clywsom hefyd fod y pwysau presennol ar gostau byw yn golygu bod teuluoedd a allai fforddio'r costau hyn yn y gorffennol yn canfod bod ganddynt flaenoriaethau eraill.[141] Dywedodd NASUWT fod yr argyfwng hwn yn cael effaith ddofn ar weithwyr tlawd sy'n gweithio.[142] Dywedodd CCAC fod teuluoedd yn wynebu pwysau mawr ar hyn o bryd.[143]

**119.** Gallai rhwystrau ariannol eraill a allai atal plant rhag mynychu gynnwys y plant hynny sydd hefyd yn ofalwyr, a ph'un a fyddai arian ar gael ar gyfer gofal seibiant i'r bobl y mae'r plant fel arfer yn gofalu amdanynt. Codwyd hyn gan NEU Cymru.[144]

**120.** Dywedodd yr Urdd:

> *"… Nid ydy pob plentyn yn gallu fforddio dod. Mae dosbarthiadau lle nad ydyn nhw'n llawn pan maen nhw'n dod aton ni. Lle buasem ni'n gweld, efallai, fod yna ddosbarth o 120, efallai 90 ohonyn nhw fyddai'n dod aton ni i'r Urdd.*

---

138 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 134
139 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
140 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 131
141 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 19
142 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 16
143 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 43
144 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)

*Dŷn ni hefyd yn gweld, efallai, gostyngiad. Mi oedd gennym ni, er enghraifft, ysgol gynradd- roedd. 56 y cant o'r rheini'n cael cinio ysgol am ddim. Dydy'r ysgol yna bellach ddim yn dod aton ni. ...Dyw hynny ddim o reidrwydd yn wir am bob ysgol... Mae'n amlwg bod yr awch yna i ysgolion fynd â'r plant ar gyfnodau preswyl.*

*Ond hefyd, ar ben hynny, mae costau trafnidiaeth yn cynyddu. Nid yn unig y gost o gyfnod preswyl, sydd yn rhoi lot o bwysau ar ysgolion, ond dyn ni'n gweld cost gynyddol-. Mae'r gost o aros yn ein gwersylloedd ni tua £250 am ddwy noson, pan dyn ni'n meddwl am ysgolion ...mae'n rhaid meddwl bod hynny yn effeithio lot mwy na dim ond ysgolion sydd yn dod o ardaloedd difreintiedig. Efallai'r squeezed middle yna sy'n cael ei effeithio hefyd, sydd weithiau'n gallu cael ei anghofio amdano fo achos efallai bod hwn yn cael ei weld mwy fel luxury, lle gallai fod yn rhywbeth hanfodol."*[145]

**121.** Dywedodd y rhieni y buom yn siarad â nhw hefyd fod y costau yn rhwystr i'w plant rhag mynd ar gyrsiau addysg awyr agored breswyl. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn cefnogi'r cynigion yn y Bil i gostau gael eu talu.[146]

**122.** Dywedodd PGL ei fod yn gweld grwpiau'n newid o gyrsiau preswyl pum niwrnod hwy i gyrsiau preswyl byrrach tridiau. Roedd dros 90% o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau PGL yn sefydliadau lle mae lefel y Grant Amddifadedd Disgyblion yn 40% neu lai. Dywedodd ei fod yn eithaf amlwg bod cyfyngiadau ariannol yn rhwystr mawr i deithio.[147] Yn ôl y Panel Cynghorwyr Awyr Agored Cymru a Lloegr, er bod nifer yr ymweliadau gan ysgolion wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yng Ngogledd Cymru, mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan wedi lleihau, a hynny oherwydd y gost.[148]

**123.** Fel y nodwyd ym mharagraff 80, gall fod stigma hefyd yn gysylltiedig â phlant sy'n ymwybodol iawn o'r rhesymau pam na allant gymryd rhan. Amlygwyd hyn gan CCAC.[149] Dywedodd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored efallai na fydd rhai

[145] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193-195
[146] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraff 23
[147] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[148] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 197
[149] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

ysgolion yn cynnig cyfleoedd i rai plant er mwyn osgoi'r stigma cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r ffaith na allant fforddio mynychu ac y gall hyn ymestyn i ysgolion cyfan mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn penderfynu peidio cynnig cyfleoedd oherwydd eu bod yn gwybod mai ychydig iawn o deuluoedd sy'n gallu eu fforddio.[150]

**124.** Dywedodd NASUWT y gall plant fod yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod ymweliadau'n costio arian a allai achosi trafferthion ariannol i'w teulu. Dywedodd fod plentyn wedi ei ddisgrifio fel 'creu ei esgus mewnol ei hun rhag mynd ar deithiau'.[151]

### Manteisio ar gymorth ariannol

**125.** Mewn perthynas â phennu meini prawf cymhwystra, dywedodd y Comisiynydd Plant:

> *"Anhawster pennu trothwy cymhwysedd mewn achos o'r math yma yw'r wasgfa byddai hynny'n ei hachosi i'r teuluoedd sydd ryw fymryn uwchben y trothwy yn arbennig. Mae hynny i'w weld yn amlwg gyda'r trothwy cymhwysedd isel iawn ar gyfer prydau ysgol am ddim (sy'n gysylltiedig â chymhwysedd ar gyfer arian grantiau eraill hefyd), lle bydd effaith costau bwyd, gwisg ysgol a llawer o gostau eraill yn ergyd galed, heb sôn am yr holl bwysau arall yn sgîl costau byw ar hyn o bryd Ar hyn o bryd mae'r bar hwnnw'n llawer rhy isel, ac mae fy swyddfa a minnau wedi galw droeon am ei adolygu. Ni fyddwn yn cefnogi defnyddio'r trothwy hwn ar gyfer cymhwysedd o'r math yma, gan y bydd yn gwneud y bwlch rhwng y rhai sy'n medru a'r rhai nad ydynt yn fwy amlwg, …"*[152]

**126.** Rhannwyd y pryderon hyn gan eraill, gan gynnwys y Sefydliad Dysgu Awyr Agored a ddywedodd, er bod rhai yn gallu cael cymorth ariannol, y rhain fydd y disgyblion tlotaf yn yr ysgol a bod y rhai sydd fymryn uwchlaw'r trothwyon, fel gweithwyr tlawd, yn methu mynd ar deithiau oherwydd y costau a diffyg cymorth.[153] Dywedodd NASUWT y byddai ymyriadau wedi'u targedu yn eithrio gweithwyr tlawd ac yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol.[154] Dywedodd

---

[150] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agoredl, paragraff 20
[151] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 28
[152] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[153] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 19
[154] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 16

Parentkind fod hygyrchedd a chymhwystra i bawb yn bwysig i rieni. Yn yr un modd â'r Comisiynydd Plant, amlygodd nad yw pob teulu sydd ar incwm isel yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim. [155]

### Costau i deuluoedd sy'n gysylltiedig â theithiau

**127.** Clywsom ei bod yn bwysig sicrhau bod costau sy'n gysylltiedig â theithiau'n cael eu cadw mor isel â phosibl er mwyn sicrhau nad yw ffactorau ariannol yn parhau i greu rhwystr, hyd yn oed os caiff elfennau craidd y cwrs preswyl (teithio, llety, prydau bwyd a gweithgareddau) eu cwmpasu gan yr elfen ariannu sydd yn y Bil.

**128.** Dywedodd Parentkind ei bod yn hanfodol bod y Bil yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau nad yw cost yn parhau i fod yn rhwystr i deuluoedd mwy o faint, teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu deuluoedd eraill incwm isel.[156]

**129.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru y dylai cost addysg awyr agored fod yn isel er mwyn caniatáu i bob plentyn gymryd rhan. Dylid darparu cludiant, cyfarpar a dillad ochr yn ochr â chost y cyfle preswyl.[157]

**130.** Dywedodd NAHT fod yr eitemau ychwanegol yn gallu bod yn eithaf syml ac yn ysgol y cynrychiolydd cynghorwyd y disgyblion i wisgo hen ddillad, trowsus tracwisg a chrys T a hen esgidiau ymarfer, gan eu bod yn gwybod y byddai pobl yn iawn gyda hynny. Felly, gallai olygu llai o gost. Fodd bynnag, nododd y pwysau cymdeithasol a hyd yn oed os dywedir wrth blant nad oes angen rhai eitemau neu nifer o eitemau arnynt, yn aml maent am wneud yn siŵr eu bod yn edrych fel eu cyfoedion ac y gallai hyn fod yn eithaf llechwraidd.[158]

**131.** Dywedodd CCAC efallai mai dim ond un gôt ac un pâr o esgidiau sydd gan rai teuluoedd ar gyfer eu plentyn.[159] Cododd UCAC hyn hefyd, gan ddweud os gofynnir i blant wisgo hen bâr o esgidiau ymarfer, mae hynny'n golygu mynd â'u hesgidiau ymarfer presennol gyda nhw ac yna bydd angen pâr newydd o esgidiau ymarfer arnyn nhw.[160] Fe ddywedodd hyd yn oed os nad oes gofyniad i brynu "cyfarpar penodol" bod "prynu pâr ychwanegol o esgidiau, côt law neu sach gysgu

---

[155] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[156] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[157] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 12
[158] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 216-187
[159] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[160] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 356

yn mynd i fod yn feichus i rai teuluoedd."[161] Dywedodd NEU efallai na fydd gan rai plant fag.[162] Dywedodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored fod eu haelodau wedi gweld rhai plant a phobl ifanc heb ddigon o ddillad o ddydd i ddydd.[163]

**132.** Fe wnaethom ymchwilio i'r graddau y bydd canolfannau addysg awyr agored yn darparu cyfarpar a dillad addas. Dywedodd NEU y bydd darparwyr fel arfer yn darparu'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau penodol, ac mai swm y dillad addas neu eitemau eraill, fel bagiau, sy'n gallu ychwanegu at y costau, ac sy'n bethau na fyddai plant yn berchen arnynt eisoes o reidrwydd.[164] Roedd ASCL yn cytuno a dywedodd, er bod canolfannau'n dda am ddarparu cyfarpar, mai'r eitemau ymylol sy'n cynyddu'r gost. Cyfeiriodd at bethau fel dillad i'w gwisgo i deithio a phan nad yw'r disgyblion yn gwneud y gweithgareddau fel enghreifftiau.[165] Tynnodd NAHT sylw hefyd at gostau bwyd gan ddweud bod nifer y byrbrydau a'r pwysau i'w darparu yn sylweddol ynddo'i hun.[166]

**133.** Yn ôl y Bartneriaeth Awyr Agored, mae ysgolion a chanolfannau yn cydweithio i gael gwared ar gymaint o rwystrau i gyfranogi â phosibl. Dywedodd y bydd gan ysgolion yn aml strategaethau i gynorthwyo teuluoedd gyda chostau. Dywedodd fod sawl canolfan, os nad pob un, yn darparu ystod o gyfarpar gan gynnwys hetiau, siacedi fflis, menig, sachau teithio, esgidiau glaw ac esgidiau cerdded. Gall rhai hyd yn oed ddarparu poteli dŵr a benthyg fflasgiau thermos. Dywedodd fod rhestrau o gyfarpar fel arfer yn cael eu cynhyrchu gan ysgolion cyn ymweliadau preswyl a bydd llawer o ddarparwyr yn cynnig mynychu sesiwn friffio i rieni lle mae'r gofynion o ran dillad yn cael eu trafod fel arfer.[167] Dywedodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored ei bod yn bwysig i ganolfannau gyfleu'r hyn y gallant ei ddarparu er mwyn rhoi sicrwydd i bobl.[168]

**134.** Dywedodd Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored:

> *"Having known the education centres in the area that I operate in north Wales, I wouldn't say any of them require those things. There's a standard kit. … they've all got their red waterproofs and their rucksack, they'll have walking boots provided for*

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 5.1
[162] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 353
[163] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[164] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 353
[165] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 227
[166] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 232
[167] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 12, Y Bartneriaeth Awyr Agored
[168] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored

> *them, they'll have a fleece, and some of that is because not only may the parents not be able to afford it, but the kit might not be appropriate, and it's unreasonable to expect a parent who doesn't know about the outdoors—. … So, the centres will provide quite a lot of that, and even to the degree that some will provide—. Literally, the children need a change of clothes and their normal school shoes. In the same way that school uniform banks will operate to give to them, some schools have that in operation, where they'll be able to give something for the children to take with them. … And I think that's ad hoc at the moment; it's not an organised process. But I think, certainly with the residential centres that I work with in north Wales, we've not encountered a need, because the centres provide that equipment. Some of that—footwear in particular—you could consider that personal protective equipment when you're out hill walking, to actually be something that it's really important to have for good ankle support, good foot support and keeping their feet dry."*[169]

**135.** Dywedodd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr fod ganddo gasgliad o ddillad i blant yn y ganolfan sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol y cynrychiolydd, ac y darperir dillad gwely. Dywedodd, yn gyffredinol, fod angen i'r plant fynd yno gyda'r dillad y maen nhw'n eu gwisgo.[170]

**136.** Codwyd y materion hyn hefyd gan y rhieni / gofalwyr y gwnaethom siaradom â nhw, gydag un yn dweud ei fod yn poeni am "y gwir gostau." Dywedodd rhiant arall:

> *"Mae angen iddyn nhw fod yn wirioneddol ymwybodol o beth yw eu disgwyliadau o rieni, oherwydd er eu bod nhw'n dweud ei fod am ddim, os ydyn nhw'n disgwyl cymaint gan rieni, i'r rhieni ei ddarparu, nid yw'n realistig i rai."*[171]

**137.** Fodd bynnag, roedd rhai rhieni/gofalwyr yn teimlo bod y manteision cyffredinol yn fwy na'r rhwystrau:

---

[169] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 233
[170] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 235
[171] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraff 40

> *"Felly cael esgidiau ychwanegol a phethau felly, mae'n fach iawn yn y cynllun - o ran yr hyn y bydd eich plentyn yn elwa ohono yn sgil y cyfle hwn."*[172]

**138.** Galwodd y Comisiynydd Plant am rannu arfer da o ran canolfannau'n darparu cymorth ac yn cyflenwi "eitemau perthnasol". Dywedodd y gallai'r mater hwn, drwy ystyried y Bil, gael "mwy o sylw" ac arwain at "newid diwylliant", fel bod "disgwyliad bod modd darparu ar gyfer achosion o galedi posibl a'u cefnogi."[173]

**139.** Dywedodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored mai un ffordd o ddelio â'r heriau hyn fyddai ailgylchu dillad, sydd hefyd yn cefnogi'r economi gylchol. Dywedodd y gallai dull canolog helpu, a chynnwys ysgolion a grwpiau cymunedol. Dywedodd hefyd fod gan rai o aelodau'r Cyngor drefniadau nawdd gyda darparwyr dillad awyr agored. Awgrymodd y gallai ymchwilio ymhellach i hyn fod yn sail i dalu costau dillad y rhai sydd â'r angen mwyaf.[174]

**140.** Dywedodd hefyd fod rhai ysgolion yn cynnwys cost siaced fflis a/neu grys-t yn sylfaenol y pecyn ar gyfer cwrs preswyl ar hyn o bryd. Roedd hyn, meddai, yn helpu i sicrhau bod gan bob plentyn y dillad priodol sylfaenol ond roedd hefyd yn osgoi'r broblem sy'n gysylltiedig ag eitemau wedi'u brandio. Dywedodd y gellid talu cost hyn gan daliad ychwanegol i bob ysgol yn seiliedig ar feini prawf prydau ysgol am ddim.[175]

**141.** Dywedodd cynrychiolydd NAHT fod banc gwisg ysgol yn cael ei weithredu yn ei ysgol ar hyn o bryd, sy'n cynnwys cotiau ar gyfer yr awyr agored ac esgidiau ymarfer. Ond dywedodd y gallai'r Bil arwain at gynnydd mewn capasiti a fyddai'n her i'r ysgol, ym marn y cynrychiolydd hwn.[176]

**142.** Yn ôl y Gweinidog, er bod y Bil yn gosod rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i ariannu addysg awyr agored breswyl, roedd goblygiadau i deuluoedd a oedd yn mynd y tu hwnt i hynny ac mae angen eu hystyried.[177]

**143.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol na allai'r Bil mewn gwirionedd ddileu pob cost sy'n angenrheidiol er mwyn i blentyn gael y profiad hwn. Ond roedd dealltwriaeth wedi'i hategu gan dystiolaeth bod gan ganolfannau swm sylweddol

[172] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraff 41
[173] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[174] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[175] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[176] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 218
[177] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 199

o'r cyfarpar a'r dillad sydd eu hangen er mwyn i blant gael y profiadau hyn. Dywedodd hefyd fod rhwydi diogelwch eisoes yn eu lle, nad oes angen deddfwriaeth newydd i'w creu, a fyddai'n cefnogi plant nad oes ganddynt rai o'r eitemau hanfodol hynny o bosbl.[178]

**144.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod yr holl gyfarpar ar gael yn y canolfannau, ac mai'r mwyaf y gellid disgwyl i blentyn ei ddarparu fyddai pâr o esgidiau glaw er bod gan y canolfannau yr ymwelodd â nhw stoc o'r rhieni hefyd. Dywedodd fod y Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi bod yn rhaid darparu cyllid i sicrhau bod y profiadau hyn ar gael, ac felly mae hyn yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru addasu'r hyn y gellir ei ariannu.[179]

**145.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y bydd angen i ddarparwyr gael trafodaeth hefyd, ond os caiff y Bil ei basio, bydd y drafodaeth honno'n ymwneud â:

> *"… more secure… around the types of expectations… in particular, the expectations that they may have on parents. … there's a conversation that could be had with them as to the expectations they put on children and families for the types of things that would be expected to come along. ….*"[180]

### Cymorth ar gyfer costau cysylltiedig

**146.** Fe wnaethom hefyd ystyried a allai cynlluniau fel y Grant Hanfodion Ysgol neu'r Grant Datblygu Disgyblion helpu i dalu'r costau cysylltiedig hyn. Ymchwilydd y Senedd a oedd yn cefnogi'r Bil a wnaeth yr awgrym hwn i ddechrau, gan ddweud efallai y gellid defnyddio'r grant er mwyn i deuluoedd allu prynu pethau fel cotiau ac esgidiau addas.[181]

**147.** Dywedodd NEU y dylai pob teulu ar Gredyd Cynhwysol fod yn gymwys i gael y cymorth hwn, oherwydd mae'r cymhwystra ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol yn fach iawn ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd y byddai angen cynyddu gwerth y grant neu byddai hyn yn gyfystyr â chwtogi'r Grant, sydd ei angen ar deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol.[182] Cytunodd CCAC fod y grant hwn yn cael ei amsugno gan gost gwisg ysgol.[183]

---

[178] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 108-110
[179] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 47-49
[180] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 56
[181] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 50
[182] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)
[183] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 44

**148.** Dywedodd y Comisiynydd Plant y byddai defnyddio'r Grant Hanfodion Ysgol i dalu'r costau hyn yn "[d]disgwyliad afrealistig" oherwydd y graddau y mae'n rhaid i'r arian hwn ymestyn i dalu am yr holl gostau eraill sy'n ymwneud ag ysgolion. Fel NEU, nododd y meini prawf cymhwystra ar gyfer y Grant, gan ddweud ei fod ond ar gael i "deuluoedd ar incwm isel iawn" a bod teuluoedd uwchlaw'r trothwy yn dweud eu bod yn cael trafferth talu am wisg ysgol.[184]

**149.** Dywedodd CCAC fod canllawiau penodol iawn ynglŷn â sut y gall ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a bod y swm yn amrywio rhwng ysgolion. Dywedodd:

> *"There may be some benefit, perhaps, in being more explicit around how that funding may be used to achieve those core principles of reducing inequity, because we know the value of outdoor education and residential experiences on children's development academically, in terms of their confidence, their social skills, and their health, both physical and emotional. So, I think there could be some benefit to exploring that."*[185]

**150.** Roedd CLlLC yn cytuno bod y rheolau ar gyfer y grant hwn yn eithaf llym. Dywedodd hefyd ei fod yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eraill, ac na ellir ei wario ddwywaith.[186]

**151.** Wrth ymateb i bryderon na fyddai'r Grant Hanfodion Ysgol yn ddigonol i dalu'r costau ychwanegol, roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol yn derbyn hyn, ond dywedodd os nad yw'r grant yn ddigon mawr, yna dylid ychwanegu ato. Dywedodd pe bai'r Bil yn cael ei basio y gallai'r Gweinidog ystyried sicrhau ychwanegiad arall at y grant hanfodion ysgol os oes gofyniad i wneud hynny.[187]

### Rhwystrau'n ymwneud ag iechyd meddwl a gorbryder

**152.** Ar ôl rhwystrau ariannol, un o'r rhwystrau mawr eraill i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl yw gorbryder / problemau iechyd meddwl plentyn neu riant. Dywedodd Parentkind mai dyma'r ystyriaeth eilaidd ond ei bod yn bwysig serch hynny. Hefyd, fe wnaeth y cysylltiad rhwng cartrefi incwm isel a lefelau llesiant is, gan ddweud mai plant o'r aelwydydd hyn fyddai'n cael y budd mwyaf o addysg awyr agored. Dywedodd fod cyfathrebu agored yn bwysig wrth

---

[184] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[185] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 42
[186] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 46
[187] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

oresgyn rhwystrau, yn enwedig i'r plant hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl, a all elwa fwyaf hennill o'r cyfleoedd hyn. [188] Dywedodd hefyd efallai na fydd rhai rhieni / gofalwyr yn ei chael hi'n hawdd mynegi eu pryderon oherwydd canfyddiadau ynghylch stigma a chywilydd.[189]

**153.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored, ers y pandemig, fod mwy o blant yn datblygu gorbryder ynghylch gadael cartref, a bod rhieni'n bryderus ynghylch eu plant yn gadael. Ond roedd yn teimlo y gall addysg awyr agored breswyl gynnig ffordd â helpu'r plant i oresgyn hynny.[190]

**154.** Amlinellodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gwahanol rwystrau personol o safbwynt y plentyn a'r rhiant/gofalwr. Dywedodd y gallai rhwystrau'r plentyn gynnwys "[c]yfranogiad, gorbryder cymdeithasol neu orbryder ynghylch gwahanu, rhwystrau sy'n gysylltiedig â dieithrwch lleoliad neu anwybodaeth ynghylch gweithgarwch, rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anghenion corfforol neu emosiynol megis deiet arbenigol, meddyginiaeth, hygyrchedd a niwroamrywiaeth." Er y bydd rhwystrau'r oedolyn hefyd yn amrywiol, gallent gynnwys "gorbryder rhieni a rhwystrau ariannol cysylltiedig, gallant gynnwys gyfrifoldebau gofalu a rhwystrau sy'n gysylltiedig â phellter daearyddol."[191]

**155.** Dywedodd NASUWT y gallai pryderon ynghylch addysg awyr agored breswyl ddeillio o iechyd meddwl gwael neu oherwydd bod plant a rhieni'n anghyfarwydd ag addysg awyr agored breswyl.[192]

**156.** Tynnodd Bendrigg sylw at y ffaith y gallai rhieni plant ag anghenion ychwanegol neu anableddau fod â phryderon ychwanegol, yn arbennig diffyg hyder y bydd y darparwr yn gallu diwallu unrhyw anghenion ychwanegol neu wneud addasiadau priodol.[193] Roedd hyn yn cyd-fynd â'r hyn a glywsom drwy ein gwaith ymgysylltu, ble yr oedd y cyfranogwyr yn cytuno bod y gweithgareddau hyn yn cynyddu gorbryder y rhieni hyn. Fodd bynnag, clywsom hefyd enghreifftiau o sut y byddai cyfathrebu da a dealltwriaeth dda o anghenion plant unigol yn helpu gyda'r pryderon hyn. Er, dywedodd un rhiant "does dim digon o wybodaeth i roi'r hyder i rieni adael i'w plant fynd i ffwrdd dros nos." [194]

---

[188] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[189] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 152
[190] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 221
[191] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[192] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 22
[193] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[194] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraffau 47-51

### Ffyrdd posibl o oresgyn rhwystrau iechyd meddwl a gorbryder

**157.** Clywsom fod nifer o ffyrdd y gellir goresgyn y rhwystrau hyn. Fe wnaeth rhanddeiliaid fel:

- NASUWT[195]
- Parentkind;[196]
- Bendrigg;[197]
- Calvert Exmoor;[198] a
- Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored[199]

bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir, hygyrch ac agored. Dywedodd Parentkind y gallai cyfathrebu uniongyrchol fod yn well i'r rhai sy'n cael trafferth gyda llythrennedd neu'r rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a all helpu teuluoedd ac ysgolion i wneud y penderfyniad cywir ar gyfer plentyn.[200]

**158.** Dywedodd NAHT fod angen canolbwyntio ar dargedu disgyblion sydd â diffyg hyder neu ddiffyg cefnogaeth gan rieni gartref, mewn perthynas â rhieni nad ydynt yn ystyried bod hyn yn bwysig. Dywedodd fod teuluoedd mwy cefnog yn fwy tebygol o annog eu plant i gymryd rhan, gan y gallent hwy eu hunain fod wedi cymryd rhan yn y profiadau hyn pan oeddent yn yr ysgol. Dywedodd fod amddifadedd a thlodi yn faterion sy'n gysylltiedig â mwy na phryderon ariannol amlwg.[201]

**159.** Pwysleisiodd Estyn bwysigrwydd cydweithio lleol da rhwng ysgolion a theuluoedd. Dywedodd fod angen i ysgolion hefyd gael perthynas waith dda er mwyn gallu diwallu anghenion pob plentyn yn ystod y cam cynllunio. Mewn perthynas ag iechyd meddwl a gorbryder:

> *"… what provisions can we put in place to enable those children to take part in that activity, working with that parent, even in the design stage of an activity, rather than a school planning*

[195] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 22
[196] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[197] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[198] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
[199] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[200] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[201] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 237

*an activity and then discovering further down the road that some children are not going to be able to take part in it."*[202]

**160.** Dywedodd yr Urdd ei fod yn darparu pecynnau gwybodaeth i ysgolion yn ogystal â fideo Realiti Rhithwir "fel byddai rhieni'n gallu gweld ble mae'u plant yn mynd, ddim jest y gweithgareddau maen nhw'n eu gwneud, ond lle byddan nhw'n aros, lle byddan nhw'n cyfarfod, lle byddan nhw'n cael bwyd, so rydyn ni'n teimlo bod camau fel hynny'n bethau mawr a fedrith helpu 'ease-io' pryderon unrhyw rieni a phlant."[203]

**161.** Pwysleisiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bwysigrwydd mabwysiadu "dull unigol" i ddeall gorbryder, ac y byddai hyn yn "cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig." [204]Ategwyd y farn hon gan Calvert Exmoor, a ddywedodd mai cael sgyrsiau uniongyrchol â rhieni yw'r ffordd fwyaf llwyddiannus o annog cyfranogiad.[205]

**162.** Dywedodd y Bartneriaeth Awyr Agored ei bod yn gwybod am ysgolion sy'n trefnu'r digwyddiad aros dros nos cyntaf o fewn tir yr ysgol ac yn ogystal â bod yn gost-effeithiol, mae hyn yn golygu bod plant yn defnyddio cyfleusterau ymolchi ac arlwyo y mae'r disgyblion a'u gofalwyr yn gyfarwydd â nhw. Yna, pan fydd cyfleoedd preswyl hwy yn cael eu cynnig yn ddiweddarach yn yr ysgol, ni fydd ganddynt gymaint o bryderon ac ofnau.[206] Dywedodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored hefyd y gellir magu hyder drwy gynyddu'n raddol y cyfnod aros dros nos - gan ddechrau gydag un noson.[207] Galwodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored hefyd am raglen addysg awyr agored flaengar mewn ysgolion, a allai helpu i liniaru pryderon. Dywedodd fod hyn eisoes yn digwydd mewn rhai ysgolion yn Sir Fynwy.[208]

**163.** Roedd Bendrigg o blaid cael gwell llenyddiaeth, delweddau, ffilmiau yn dangos pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ochr yn ochr â'i gilydd. Mae hyn yn helpu i 'normaleiddio' y profiad i bawb a gallai helpu i leihau pryderon i deuluoedd â phlant anabl. Dywedodd hefyd fod darparu hyfforddiant i staff canolfannau yn

---

[202] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 135
[203] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 249
[204] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru
[205] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
[206] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 12, Y Bartneriaeth Awyr Agored
[207] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[208] Y Pwyllghor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 244-245

bwysig, gan y byddai cael staff â gwybodaeth, sgiliau, hyder a seilwaith i gefnogi plant anabl yn rhoi mwy o sicrwydd i blant a'u teuluoedd.[209]

**164.** Amlygwyd pwysigrwydd cael staff â'r sgiliau priodol yn arwain y profiadau hyn hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[210] a Calvert Exmoor.[211]

**165.** Roedd awgrymiadau eraill i helpu gyda gorbryder yn cynnwys cynnig cyfarfodydd cyn ymweliad, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb. Gwnaed yr awgrym hwn gan Bendrigg[212], yn ogystal â Chyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored;[213] a Chonffederasiwn GIG Cymru.[214] Dywedodd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr fod y rhan fwyaf o ysgolion yn cael cyfarfod gyda rhieni cyn y cwrs preswyl.[215]

**166.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol mai'r pryder cyntaf yw a all teuluoedd ei fforddio, a phe bai'r Bil yn cael ei basio, byddai'n mynd gam o'r ffordd tuag at ddelio â rhai o'r pryderon hyn. Dywedodd hefyd y byddai'r Bil yn rhoi rhaglen ar waith lle mae opsiynau ar gael i feithrin profiad o annibyniaeth a allai, yn y tymor hwy, helpu gyda rhai o'r materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, llesiant a gorbryder.[216]

**167.** Dywedodd ei bod yn wirioneddol bwysig rhoi trefniadau ar waith sy'n helpu i ddatblygu annibyniaeth i'r rhai sy'n dioddef o orbryder ynghylch gwahanu ond pwysleisiodd nad yw'r Bil yn gorfodi pobl i gael y profiadau hyn.[217] (Rydym yn edrych ar natur orfodol y ddarpariaeth yn y Bennod nesaf.)

**168.** Dywedodd hefyd fod llawer o waith gwych eisoes yn cael ei wneud gan ganolfannau i helpu gyda'r materion hyn. Pwysleisiodd rôl athrawon a phenaethiaid, gan ddweud eu bod yn deall manteision y profiadau hyn, yn enwedig i'r rhai â phryderon, a'u bod yn gallu cael sgyrsiau i geisio lleddfu unrhyw rai o'r pryderon hynny hefyd.[218]

209 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
210 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru
211 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
212 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
213 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
214 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 14
215 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 242
216 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-67
217 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 65
218 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 112-113

## Rhwystrau diwylliannol

**169.** Er bod y prif rwystrau a nodwyd yn ymwneud ag arian neu orbryder, clywsom hefyd am rwystrau diwylliannol a allai wneud addysg awyr agored breswyl yn llai deniadol i rai grwpiau o blant a phobl ifanc. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru os yw'n anarferol i blant gymryd rhan mewn addysg awyr agored yna bydd yn anoddach i deuluoedd gymryd rhan. Dywedodd hefyd y gallai'r teuluoedd hynny lle mae'r Gymraeg neu'r Saesneg yn ail a thrydedd iaith iddynt wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan.[219]

**170.** Dywedodd NASUWT fod rhwystrau'n ymwneud â diwylliant a chydraddoldeb yn bodoli o ran cael mynediad i'r byd penodol hwn o antur awyr agored a chadwraeth yn y byd Gorllewinol, nad ydynt yn cael eu trafod yn y Bil hwn.[220] Yn ôl NASUWT, mae mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau strwythurol a diwylliannol hyn yn dasg anferthol ond dywedodd na fyddai canolbwyntio ar ddileu rhwystrau ariannol yn unig yn sicrhau'r cyfiawnder cymdeithasol y mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag ef.[221] Dywedodd hefyd, os yw normau'r bobl ifanc yn mynd yn groes i negeseuon profiad o addysg awyr agored breswyl neu'r ffordd y mae'r profiad hwnnw wedi cael ei becynnu, yna ni fydd plant a phobl ifanc yn ymgysylltu ag ef.[222]

**171.** Disgrifiodd NASUWT hefyd wahanol ragdybiaethau ynghylch beth yw ystyr ymgysylltu â byd natur a all atal plant rhag ymgysylltu â dysgu yn yr awyr agored.[223] Dywedodd y gall y diffyg cyfatebiaeth fod mor bersonol ac unigol â dealltwriaeth mewnfudwr cenhedlaeth gyntaf o isgyfandir India, lle mae cerdded yn gysylltiedig â thlodi. Pam y byddai'r plentyn hwn eisiau cerdded, pan ddywedwyd wrtho'n ddiwylliannol ei fod wedi dianc o hynny.[224]

**172.** Dywedodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored y gall cynllunio ar y cyd helpu i sicrhau bod anghenion diwylliannol yn cael eu cefnogi.[225]

**173.** Yn ystod un o'n gweithgareddau ymgysylltu, clywsom gan rieni/gofalwyr a ddywedodd fod amser teulu yn bwysig iddynt yn ddiwylliannol. Dywedodd ei bod yn well ganddynt allu teithio fel teulu yn hytrach nag anfon y plant ar gyrsiau preswyl gyda'r ysgol. Clywsom hefyd am yr angen i sesiynau preswyl fod yn

[219] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 27, Conffederasiwn GIG Cymru, paragraff 11
[220] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 14
[221] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 25
[222] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 27
[223] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 30
[224] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 31
[225] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored

ddiwylliannol sensitif, a oedd yn cynnwys sicrhau eu bod yn bodloni gofynion deietegol a chael gweithgareddau priodol. Dywedodd un rhiant:

> *"Anfonais fy mab ar daith yn ddiweddar a doedd ganddo ddim i'w fwyta oherwydd doedd dim cig halal ar gael, a dim ond llysiau a gynigwyd iddo, ac ni fyddai'n bwyta'r rhain."*[226]

## Yr angen am ddeddfwriaeth

**174.** Pan wnaethom ofyn i'r Aelod sy'n Gyfrifol pam mae angen deddfwriaeth, dywedodd:

> *"… fundamentally, you legislate for what you think is important, and if you want something to be guaranteed, to be certain for people, then you put that into law. We have a case at the moment where, yes, many children do experience these opportunities, but it's not an entitlement; it's seen as an enrichment to their education."*[227]

**175.** Dywedodd oherwydd ei fod wedi dewis rhoi'r ddarpariaeth o fewn y cwricwlwm bod angen deddfwriaeth sylfaenol.[228]

**176.** Dywedodd Estyn, os yw hyn i fod yn hawl i bob plentyn, yna roedd angen deddfwriaeth. Serch hynny, nododd fod llawer iawn o addysg awyr agored yn digwydd ar hyn o bryd, a bod ffyrdd i annog, hyrwyddo a chefnogi ysgolion ymhellach i hyrwyddo manteision addysg a dysgu awyr agored. Dywedodd nad oedd angen deddfwriaeth i wneud hyn, ond bod angen deddfwriaeth er mwyn ei wneud yn hawl.[229]

**177.** Roedd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored yn cefnogi newid deddfwriaethol i ddileu anghysondeb yn y ddarpariaeth gan ddweud bod angen deddfwriaeth i warantu darpariaeth a'i symud o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn hawl graidd.[230] Dywedodd Y Cerddwyr mai deddfwriaeth oedd y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r anghysondeb yn y ddarpariaeth bresennol.[231]

---

[226] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), Canfyddiadau'r Gwaith Ymgysylltu, Ionawr 2024, paragraffau 13-14; 31
[227] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraf 7
[228] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[229] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 114
[230] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraffau 15, 17 ac 18
[231] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 22, Y Cerddwyr

**178.** Nododd CLlLC fod rhoi rhywbeth mewn deddfwriaeth yn ei roi ar lefel wahanol. Unwaith eto, nodwyd bod ysgolion eisoes yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Pe bai'r Bil yn cael ei basio, meddai, dylid cynnal adolygiad ar ôl cyfnod penodol er mwyn asesu sut yr oedd yn cael ei weithredu.[232]

**179.** Dywedodd CCAC mai rhoi'r gofyniad mewn deddfwriaeth oedd yr unig ffordd i warantu'n effeithiol y gallai pob dysgwr fanteisio ar brofiad preswyl fel rhan o addysg awyr agored. Yn yr un modd ag Estyn a CLlLC, nodwyd bod ysgolion yn gwneud darpariaeth ar hyn o bryd ond nad yw ar gael i bawb.[233]

**180.** Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes angen y Bil oherwydd bod gan ysgolion y pwerau cyfreithiol i gynnig addysg awyr agored breswyl eisoes "os byddant yn dymuno gwneud hynny." Ychwanegodd ei bod yn credu bod effaith gyfreithiol y Bil yn "aneglur a'i fod yn ddiffygiol." (Rydym yn ymdrin â rhai o'r materion hyn yn y Bennod nesaf, yn enwedig yr adrannau ar y canllawiau a natur orfodol y ddarpariaeth.) Dywed fod y diwygiadau y byddai'r Bil hwn yn eu gwneud i Ddeddf 2021 yn amhriodol oherwydd "nad ydynt yn cyd-fynd â'r cynllun deddfwriaethol nac egwyddorion y Ddeddf." [234]Aiff ymlaen i ddweud, oherwydd bod y Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol, ei fod yn "tanseilio" hyblygrwydd Deddf 2021.[235]

**181.** Dywedodd y Gweinidog:

> *"… if the intention of the Bill is to require the Government to secure residential outdoor education to be offered and to fund it, specifically, then there is a need for primary legislation; if what is wanted is just to make residential outdoor education a mandatory part of the curriculum, then that can be achieved by regulations under the existing legislative framework."*[236]

**182.** Mewn ymateb i farn y Gweinidog, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol:

> *"The first key theme I felt was worth pointing out was the Minister suggesting that there wasn't a need for legislation in this area, because I think the phrase used was that schools already have legal powers to provide residential outdoor*

[232] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[233] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[234] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 2.1
[235] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 3.3
[236] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 201

> *education, if they wish. Of course, that 'if they wish' is the important bit within that, and just a reminder that this legislation is seeking to enable all children in all schools in Wales to have that guaranteed opportunity, not whether a school wishes it or not, because I and many others fundamentally believe that this is a really important part of a child's education. So, that is why there is a need for legislation—*
> *…"*[237]

**183.** Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol i'r Aelod sy'n Gyfrifol fod y Bil yn gwneud nifer o bethau sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys y cyllid ond hefyd y ddyletswydd y mae'n ei rhoi ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn rhan o'r cwricwlwm. Yn ogystal â hynny, mae'n gosod cwrs addysg awyr agored breswyl ar wyneb Deddf 2021, sy'n rhywbeth na fyddai'n bosibl ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth.[238]

## Ein barn ar yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

**184.** Ni allem ffurfio barn gytûn ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Rydym yn cefnogi'n unfrydol y bwriadau sy'n sail i'r Bil, ac yn cytuno â'r amcanion polisi. Fodd bynnag, ni allwn ffurfio un farn ar yr egwyddorion cyffredinol oherwydd bod gan rai ohonom bryderon ynghylch sut y bydd y Bil yn cael ei ariannu a'i weithredu. Mae Aelodau eraill yn credu y dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy'r broses graffu, ac o ganlyniad y dylai'r Bil, felly, fynd yn ei flaen. O ganlyniad, nid ydym yn gwneud argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil.

**185.** Fodd bynnag, credwn ei bod yn fuddiol inni amlinellu ein barn ar rai o'r materion yn ymwneud â gweithredu'r Bil a'r materion ariannol, yr ydym yn cytuno arnynt. Felly, rydym wedi gwneud argymhellion yn yr adroddiad hwn drwyddo draw i'r Aelod sy'n Gyfrifol roi sylw iddynt, neu wedi gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl os bydd y Bil yn symud yn ei flaen yng ngweddill yr adroddiad. Dylid ystyried pob un o'r argymhellion dilynol yn y cyd-destun hwnnw.

**186.** Yn y ddwy bennod nesaf rydym yn edrych ar rai o'r ffyrdd y gellid lliniaru neu fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodir yn y Bennod hon.

[237] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 7
[238] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 50

# 5. Gweithredu'r Bil a materion ymarferol

Mae nifer o faterion ymarferol y credwn y mae angen eu hystyried neu eu hegluro ymhellach. Mewn rhai mannau, rydym yn argymell gwelliannau posibl pe bai'r Bil yn mynd yn ei flaen. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â'r canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi a chapasiti o fewn y sector.

## Y pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd

**187.** Un o'r materion a archwiliwyd gennym yn ystod ein gwaith craffu oedd amseriad y Bil, yng nghanol y pwysau eraill sydd ar ysgolion. Roedd barn gymysg ynghylch ai dyma'r amser priodol i'w gyflwyno.

**188.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol mai dyma'r amser perffaith i gyflwyno'r Bil, oherwydd ei bod yn ddyddiau gweddol gynnar o ran y broses o weithredu'r Cwricwlwm ac y gallai hwnnw newid.[239]

**189.** Roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cydnabod y pwysau presennol ar ysgolion a staff ysgol. Ochr yn ochr â rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith, mae'r diwygiadau i ADY hefyd yn cael eu cyflwyno, yn ogystal ag adfer ar ôl y pandemig. Roedd yn credu, fodd bynnag, y gallai'r Bil hwn fod o gymorth mawr o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni rhai o'r diwygiadau hynny a theimlai y byddai'r Bil yn ategu gwaith y cwricwlwm newydd. Cyfeiriodd at yr effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion.[240] Teimlai y gallai'r Bil hwn helpu gyda rhai o'r problemau y mae ein pobl ifanc yn ceisio eu goresgyn ar ôl COVID.[241]

**190.** Yn ogystal â hynny, meddai, oherwydd bod y Bil yn cynnwys pob plentyn mewn lleoliadau a gynhelir, roedd yn berthnasol i ddiwygiadau ADY, gan nad yw

[239] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[240] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 84-87
[241] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu heithrio o'r hawl.[242]

**191.** Er na roddodd Estyn farn bendant ynghylch ai nawr oedd yr amser priodol i gyflwyno'r Bil, dywedodd nad oedd y Bil yn cyflwyno gofyniad newydd, gan fod canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru eisoes yn hyrwyddo gryn dipyn ar ddysgu yn yr awyr agored ac na ddylai ymgorffori'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm fod yn broblem i ysgolion. Dywedodd mai'r unig newid oedd y byddai'n dod yn hawl statudol sy'n golygu y byddai'n rhaid i ysgolion gynllunio, gan sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael i blant yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.[243]

**192.** Codwyd y cysylltiadau â'r cwricwlwm ehangach gan eraill, gan gynnwys y Gweinidog. Ond i rai roedd y cyswllt hwn yn ddadl yn erbyn yr angen am y Bil. Rydym yn edrych ar y cysylltiadau â'r cwricwlwm yn y Bennod flaenorol.

**193.** O blith y rhai a deimlai nad dyma'r amser priodol i gyflwyno deddfwriaeth o'r fath, yr undebau addysg oedd fwyaf llafar. Gofynnodd UCAC a oedd yn "amserol rhoi pwysau ychwanegol ar athrawon ac ysgolion" pan oeddent eisoes yn wynebu llu o newidiadau.[244] Er bod ASCL hefyd wedi tynnu sylw at bwysau eraill megis yr ymgynghoriad ar newidiadau i'r flwyddyn ysgol a phwysau'n ymwneud â chyllid, roedd yn pryderu y byddai'r newid hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion ar adeg pan oeddent eisoes dan bwysau.[245] Ychwanegodd NAHT ddiwygio cymwysterau at y rhestr o bwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod yn credu bod y Bil hwn yn faich diangen ac ychwanegol yr oeddent yn pryderu'n fawr yn ei gylch.[246]

**194.** Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r undebau athrawon gan ddisgrifio gweithredu'r cwricwlwm newydd fel "newid enfawr" nid yn unig i ysgolion ond i leoliadau eraill hefyd, a bod angen "amser a chymorth" arnynt i gyd i ymgorffori'r diwygiadau hyn yn llawn. Dywedodd y bydd y Bil "…yn rhoi beichiau ychwanegol arnynt ac yn tynnu eu sylw oddi ar y genhadaeth honno."[247]

## Capasiti yn y sector

**195.** Fel rhan o'n gwaith craffu roeddem am archwilio a oes capasiti yng Nghymru i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth a fyddai'n ofynnol pe bai'r Bil hwn yn cael ei basio.

[242] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12
[243] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 156-162
[244] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 4.1
[245] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 181
[246] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 247
[247] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.6

Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a darpariaeth hygyrch a chynhwysol.

**196.** Ar y cychwyn, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrthym:

> *"… we are blessed in Wales with the number of outdoor activity centres that there are. I believe that there are around 50 here in Wales at the moment, which is pretty significant, considering the size of the nation that we are. Many of those centres aren't open 12 months of the year, so there's definitely capacity in terms of that; many of them shut between December and March, not necessarily the nicest time of the year for our learners to be out in the wilds—I completely accept that—but there is definitely capacity from a calendar point of view for that."*[248]

**197.** Rhannodd yr Aelod sy'n Gyfrifol hefyd fanylion yr arolwg yr oedd wedi'i gynnal gyda'r sector, lle y dywedodd 31 o ddarparwyr y byddai ganddynt gapasiti ar gyfer arosiadau preswyl ychwanegol. Dywedodd fod cydnabyddiaeth nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio i'r eithaf ar hyn o bryd ond pe bai'r Bil yn cael ei basio byddai'n rhoi cymhellion i'r sector fuddsoddi yn y ddarpariaeth bresennol. Dywedodd fod ehangu'r ddarpariaeth bresennol yn golygu mwy o risg i ddarparwyr ar hyn o bryd.[249]

**198.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored wrthym fod capasiti yn fater eithaf cymhleth gan egluro ei fod yn ymwneud â mwy na'r gwelyau a allai fod ar gael. Er enghraifft, ni all pob canolfan gymryd grŵp blwyddyn cyfan. Dywedodd ei fod yn fwy cynnil na'r cwestiwn ynghylch a oes digon o gapasiti. Tynnodd sylw hefyd at y gwahaniaethau rhwng ardaloedd o fewn Cymru, a chymhlethdod ychwanegol pa ysgolion sy'n mynd i ba rannau o'r wlad.[250]

**199.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Addysg Awyr Agored fod capasiti ar gael ar hyn o bryd oherwydd na fydd grwpiau trydydd sector neu grwpiau buddiant cymunedol yn gweithredu pan nad oes ganddynt gleientiaid. Yn benodol, mae canolfannau'n dueddol o fod ar gau dros y gaeaf, yn benodol ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr. Mae hyn wedyn yn arwain at fodelau staffio sy'n

[248] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 91
[249] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 94-95
[250] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 276-277

seiliedig ar waith tymhorol. Fodd bynnag, pe bai canolfannau ar agor yn amlach byddai hyn yn darparu mwy o gysondeb o safbwynt staffio.[251]

**200.** Yn ôl Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, gallai fod mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio'r cyfleusterau presennol sydd ar gael. Roedd rhai o'r awgrymiadau a wnaed ganddo yn cynnwys:

- Defnyddio cyfleusterau megis safleoedd gwersylla, hosteli, gwestai neu barciau gwyliau, ac nid canolfannau addysg awyr agored yn unig;
- Gwneud defnydd llawn o ganolfannau sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr masnachol ac awdurdodau lleol yn Lloegr;
- Defnydd posibl o wyliau'r haf i gynnig cyfleoedd (gan gydnabod y byddai angen mwy o gyllid ar gyfer hynny); a
- Lledaenu'r hawl ar draws y blynyddoedd ysgol.[252]

**201.** Roedd gan NAHT bryderon am gapasiti a dywedodd ei bod eisoes yn eithaf anodd ei gael.[253] Roedd hefyd yn bryderus ynghylch canolfannau newydd yn dechrau dod i'r amlwg er mwyn bodloni capasiti newydd nad yw o bosibl yn bodoli.[254]

**202.** Dywedodd CLlLC fod capasiti wedi lleihau dros amser, gan gyfeirio at ardal gogledd Cymru fel enghraifft. Dywedodd fod llu o ganolfannau ar arfordir gogledd Cymru ar un adeg ond o ganlyniad i leihad mewn adnoddau dros flynyddoedd lawer mae addysg awyr agored wedi gorfod ysgwyddo ei chyfran deg o'r toriadau y mae llywodraeth leol wedi eu hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu.[255]

**203.** Cododd NAHT a NASUWT bryderon ynghylch rhyddhau capasiti yn ystod misoedd yr hydref / gaeaf. Dywedodd NAHT fod y cyfnod o amser pan fyddai'r plant yn gallu mynd ar daith yn eithaf cyfyngedig sy'n golygu y byddai pob ysgol yn awyddus i drefnu'r teithiau hyn mewn cyfnod byr iawn o amser yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf.[256] Dywedodd NASUWT na fyddai cael capasiti yn ystod misoedd y gaeaf yn dda i ddim, gan ychwanegu y byddai am wybod nad oedd disgwyliad i blant fynd ar deithiau yn y gaeaf pan na fyddai canolfannau fel arfer yn cael eu

[251] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 276
[252] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[253] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
[254] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[255] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 17
[256] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236

harchebu.[257] Tynnodd UCAC hefyd sylw at y ffaith y bydd adegau penodol o'r flwyddyn yn fwy poblogaidd.[258]

## Capasiti cyfrwng Cymraeg

**204.** Noda'r Bil bod yn rhaid i'r canllawiau y byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu dyroddi gynnwys darpariaeth bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu yn Gymraeg, yn amodol ar argaeledd, pan ofynnir amdani gan ysgol. Noda'r Memorandwm Esboniadol fod hyn yn unol â'r "egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol y dylai dysgwyr dderbyn addysg yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg." Ond aiff ymlaen i ddweud y bydd hyn yn amodol ar gapasiti ac argaeledd. Mae hefyd yn cydnabod, ac eithrio darpariaeth yr Urdd, bod y gallu i gyflawni hyn "wedi'i gyfyngu i lond llaw o ddarparwyr eraill yn unig." Dywed fod hyn yn bennaf oherwydd y niferoedd bach o hyfforddwyr sy'n medru'r Gymraeg, ond cyfeiria at waith i greu "newid cenhedlaeth mewn capasiti."[259]

**205.** Byddwn yn edrych ar gynnwys y canllawiau yn ddiweddarach yn y bennod hon, ond roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y capasiti o fewn y sector cyfrwng Cymraeg. Cododd nifer o randdeiliaid hyn fel problem bosibl.

**206.** Cydnabu'r Aelod sy'n Gyfrifol fod her o ran sicrhau bod mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael. Cyfeiriodd at y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth Awyr Agored i hyfforddi mwy o addysgwyr awyr agored Cymraeg eu hiaith. Ond fe'i disgrifiodd fel sefyllfa 'yr wy ynteu'r iâr' oherwydd tra bod mwy o staff yn cael eu hyfforddi, mae angen hefyd i blant allu cael mynediad i'r ddarpariaeth hon ar yr un pryd.[260]

**207.** Dywedodd yr aelod o Staff Cymorth yr Aelod sy'n Gyfrifol fod y sefyllfa 'yr wy ynteu'r iâr' hon yn arwyddocaol iawn ond bod cyfle i helpu i ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth hon. Dywedodd hefyd fod gwaith y Bartneriaeth Awyr Agored yn dechrau dwyn ffrwyth.[261]

**208.** Holodd CCAC a fyddai disgwyliadau'n cael eu gosod ar ddarparwyr newydd a fyddai'n ymuno â'r farchnad o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.[262] Roedd yn credu y byddai angen dull mwy

[257] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 375
[258] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 3.1
[259] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraf 138, 24 Tachwedd 2023
[260] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[261] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[262] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 109

creadigol ar y cyd i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nid oedd yn credu y gallai costau ehangu'r ddarpariaeth hon gael eu hysgwyddo gan ddarparwyr yn unig.[263]

**209.** Dywedodd Cymdeithas Penaethiaid y Canolfannau Addysg Awyr Agored nad yw'n debygol bod digon o gapasiti cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ac na ellir dibynnu ar yr Urdd i gynnig yr holl ddarpariaeth hon. [264] Yn ôl NAHT, mae bron yn amhosibl trefnu taith i Lan-llyn, yn enwedig yn ystod tymhorau'r haf, gan fod y gwersyll yn llawn.[265]

**210.** Dywedodd UCAC, o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ei fod yn "tybio bod y ddarpariaeth yno" ond bod angen gwaith i'w datblygu, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y Gymraeg, rhywbeth yr oedd yn cydnabod ei fod yn digwydd ar hyn o bryd. Fe wnaethon nhw ddyfynnu eu profiadau eu hunain lle nad oedd ganddyn nhw broblemau o ran cael gafael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond eu bod "…yn awyddus i'w harchebu o flaen amser." Amlygwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod cyfleoedd i ysgolion sy'n "is i lawr ar y continwwm iaith" sy'n helpu i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.[266]

**211.** Tynnodd yr Urdd sylw at y ffaith bod 60 y cant o'r rhai sy'n mynd i ganolfannau'r Urdd ar hyn o bryd yn dod o ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r ysgolion hyn yn mynd i ganolfannau'r Urdd er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ond pe bai cynnydd yn y ganran sy'n ceisio dod i ganolfannau'r Urdd "mae'n mynd i fod yn anodd iawn inni fel mudiad ddarparu i'r holl ofynion fydd yn codi o hynny."[267]

**212.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y byddai'n "ddefnyddiol" deall mwy am gapasiti presennol y sector i gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg.[268]

**213.** Dywedodd ASCL fod heriau recriwtio eisoes mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'i bod yn tybio bod sefyllfa debyg mewn darpariaeth addysg awyr agored.[269] Cytunodd y Gweinidog fod hyn yn broblem o fewn y system brif ffrwd, a dywedodd pe bai'r Bil yn cael ei basio, y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth:

[263] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 111
[264] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 277
[265] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 184
[266] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 373
[267] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 286-288
[268] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 13, Comisiynydd y Gymraeg
[269] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 268

> *"… ddatblygu cynllun recriwtio penodol, gyda'r sector addysg allanol, i recriwtio staff wedi eu hyfforddi yn addas ar gyfer y gwasanaeth. Byddwn i'n dadlau bod sgwrs a thrafodaeth fuddiol i'w cael gyda'r sector, beth bynnag yw hynt y Bil hwn, i weld beth yn fwy y gallwn ni ei wneud i gynyddu'r ddarpariaeth fel y mae hi o dan y system gyfredol."*[270]

**214.** Dywedodd Dirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Bangor (a oedd hefyd yn cynrychioli Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored a phwyllgor rhanbarth Gogledd Cymru, y Sefydliad Dysgu Awyr Agored) fod yna bellach lwybrau gyrfa sy'n arwain at statws athro cymwysedig. Tynnwyd sylw hefyd at raglenni Agored Cymru, sydd bellach ar gael hyd at lefel 3 yn y Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at waith y Bartneriaeth Awyr Agored gan ddweud ei fod wedi rhoi cyfleoedd i bobl leol nad oeddent ar gael o'r blaen, ac, yn y tymor hwy, y bydd y llwybrau sydd ar gael nawr yn dechrau aeddfedu.[271]

**215.** Dywedodd yr Urdd wrthym am ei raglen brentisiaeth sy'n cefnogi capasiti cyfrwng Cymraeg. Nododd fod materion yn ymwneud â chapasiti cyfrwng Cymraeg yn ehangach na'r darparwyr, a bod angen edrych ar y sector yn ei gyfanrwydd.[272]

## Darpariaeth gynhwysol

**216.** Byddai pob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yn gymwys i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl, ac mae hyn yn cynnwys plant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Croesawyd hyn gan lawer.

**217.** Cyfeiria'r Memorandwm Esboniadol at farn Ymddiriedolaeth Bendrigg gan ddweud:

> *"… bod cyrsiau preswyl o ansawdd uchel yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ag anableddau gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol y mae ei angen yn fawr arnynt gan nad yw 86% o deuluoedd â phlant anabl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden."*[273]

---

[270] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 262
[271] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 281
[272] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 284
[273] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 78, 24 Tachwedd 2023

**218.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod ystadegau'r cyfrifiad ysgolion yn dangos bod gan tuag 13% o ddisgyblion oedran cynradd ADY, a all olygu anghenion dysgu, corfforol neu synhwyraidd. Noda hefyd fod y mwyafrif o'r plant hyn yn annhebygol o fod angen cymorth ychwanegol i fynd ar daith addysg awyr agored breswyl, ac y "gall y rhan fwyaf o ganolfannau addysg agored breswyl addasu eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY…" Noda, er nad oes unrhyw ddarpariaeth arbenigol yng Nghymru ar gyfer y rhai ag "anghenion cymhleth mwy difrifol", bod darpariaeth arbenigol o ansawdd uchel ar gael yn Cumbria ac Exmoor.[274]

**219.** Dywed Bendrigg, sy'n rhedeg un o'r canolfannau hyn, y gallai darparwyr arbenigol yn Lloegr chwarae rhan bwysig o ran llenwi'r bwlch hwn mewn capasiti, ond mai dim ond fel ateb tymor byr i ganolig y dylid ystyried hyn gan y dylai canolfannau yng Nghymru fod yn gweithio tuag at ddod yn fwy cynhwysol i bawb.[275]

**220.** Mae hwn yn fater yr ydym yn arbennig o ymwybodol ohono oherwydd, yn ystod ein hymchwiliad presennol sy'n edrych ar fynediad i addysg a gofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, rydym wedi clywed straeon niferus ynghylch y ffaith nad yw plant a phobl ifanc anabl yn aml yn gallu manteisio ar brofiadau preswyl.

**221.** Roeddem am ddeall yn well a fyddai capasiti o fewn y sector i reoli'r galw cynyddol am ddarpariaeth gynhwysol a hygyrch.

**222.** Dywedodd PGL Travel nad oes digon o gapasiti i alluogi'r rhai ag anabledd mwy difrifol i aros dros nos a bod hynny'n wir ledled y DU. Fodd bynnag, dywedodd pe bai'r Bil yn cael ei basio a bod mwy o angen pendant am y ddarpariaeth hon y byddai'n galluogi busnesau i gynllunio gyda mwy o sicrwydd a gallu addasu neu adeiladu cyfleusterau newydd i ddarparu ar eu cyfer.[276]

**223.** O ran capasiti, dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored fod angen gwneud gwaith cwmpasu i ddeall capasiti o ran darpariaeth hygyrch a chynhwysol. Roedd yn credu bod awydd i sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar brofiadau o safon uchel waeth beth fo'u hanghenion,

[274] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 394, 24 Tachwedd 2023
[275] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[276] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel

yn enwedig o safbwynt allgarol er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o blant yn gallu cymryd rhan yn y cyfleoedd awyr agored hyn.[277]

**224.** Teimlai CCAC fod risg bosibl na fyddai darpariaeth ddigonol ar gael i fodloni anghenion pob dysgwr. Roedd yn cytuno â'r Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored gan alw am asesiad cadarn o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd y gallai'r Bil o bosibl roi cyfle i ragor o ddarparwyr ymuno â'r farchnad yng Nghymru ac y gallai hyn o bosibl gyflwyno darpariaeth a fyddai'n diwallu anghenion.[278] Roedd hyn yn adleisio barn PGL a nodir ym mharagraff 222.

**225.** Dywedodd Anabledd Dysgu Cymru mai dim ond drwy ddarparu digon o gyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol y gellir sicrhau gwir gynwysoldeb.[279]

**226.** Gofynnodd UCAC i ba raddau y rhoddwyd ystyriaeth i ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg.[280] Roedd diffyg cefnogaeth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg yn fater a godwyd yn ystod ein gwaith diweddar ar fynediad i bobl anabl i addysg a gofal plant. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn ymwybodol y gall fod yn anodd sicrhau cymorth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**227.** Dywedodd CLlLC na fyddai plant ag anghenion cymhleth yn gallu mynd i rai o'r canolfannau presennol ar hyn o bryd oherwydd nad yw'r canolfannau wedi gwneud yr addasiadau cywir megis cyfleusterau toiled ac ystafelloedd newid arbenigol.[281] Dywedodd Bendrigg y gallai fod angen rhywfaint o gymorth ariannol ar rai darparwyr i brynu cyfarpar arbenigol.[282]

## Cefnogi anghenion pob plentyn

**228.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored y bydd yn rhaid i ganolfannau fodloni gofynion cyfreithiol, fel y rhai a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb. Cyfeiriodd hefyd at enghreifftiau o ddarpariaeth hygyrch yng ngogledd Cymru. Wrth ddisgrifio'r ddarpariaeth hon, cydnabuwyd bod peth o hyn yn ddarpariaeth arbenigol nad yw ar gael ym mhob canolfan, ond

[277] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 294
[278] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[279] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
[280] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 9.1
[281] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[282] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg

bod gan y sector gapasiti i gynnig darpariaeth o'r fath. Dywedodd ei fod hefyd yn rhywbeth i'w ystyried fel rhan o'r broses ddatblygu.[283]

**229.** Yn ogystal â'r angen i gael y cyfarpar cywir, fe'n hysbyswyd gan gynrychiolydd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored sydd hefyd yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor fod sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant a'r datblygiad cywir yn bwysig iawn. Er bod gan ei staff wybodaeth a dealltwriaeth, efallai fod angen dull mwy canolog neu gydlynol o hyfforddi a datblygu staff. Roedd yn teimlo bod cyfle i ddatblygu hyn ymhellach, gan ddweud bod awydd ymhlith y staff am hyn gan eu bod am gynorthwyo'r plant sy'n dod i'w canolfan orau y gallant. Gall yr hyfforddiant hwn hefyd gynnwys hyfforddiant ar gyfarpar arbenigol.[284]

**230.** Roedd Bendrigg yn credu y gallai llawer o ddarparwyr wneud mwy nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd i gynnig darpariaeth gynhwysol. Dywedodd fod hyfforddiant yn allweddol, ac y byddai'n helpu i herio canfyddiadau, newid agweddau a sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth, a'r hyder i weithio gyda phobl anabl.[285]

**231.** Dywedodd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr fod canolfannau yn hen gyfarwydd â gofyn cwestiynau allweddol am anghenion unrhyw un sy'n dod i'w canolfannau, a bod sawl ffordd o ddarparu cymorth.[286]

## Diffinio addysg awyr agored breswyl

**232.** Nid yw'r Bil yn cynnwys diffiniad o addysg awyr agored breswyl, ond byddai Gweinidogion Cymru yn gallu ei ddiffinio yn y Cod neu'r canllawiau statudol y byddai'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi yn sgil y Bil hwn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi diffiniad eang o addysg awyr agored breswyl:

> *"Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cwmpasu ystod o weithgareddau sy'n digwydd mewn lleoliad preswyl, sy'n cynnwys cyfranogwyr sy'n byw gyda'i gilydd mewn cymuned dros dro oddi cartref. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bod yn yr awyr agored fel rhan ganolog o'r profiad, gallant fod ag elfen heriol, anturus sy'n aml yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch*

[283] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 253
[284] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 254 - 255
[285] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[286] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 257

> *corfforol, bob amser yn parchu'r amgylchedd naturiol, ac yn ceisio defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel cyfrwng i drawsnewid y profiad yn wybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon cydnabyddedig fel dringo, caiacio, cyfeiriannu neu hwylio, gweithgareddau hamdden awyr agored fel gwersylla neu gerdded bryniau, a gweithgareddau awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol ar gyfer eu heffaith addysgol megis cyrsiau rhaffau, llwybrau a heriau menter."*[287]

**233.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol, er nad yw'r diffiniad ar wyneb y Bil, mae wedi'i amlinellu'n glir yn y Memorandwm Esboniadol.[288] Ar ddiwedd ein gwaith craffu dywedodd ei fod yn rhywbeth y byddai'n fodlon ei ystyried, boed o fewn y cod neu'r canllawiau.[289]

**234.** Clywsom amrywiaeth o safbwyntiau am y diffyg diffiniad sydd ar wyneb y Bil, a hefyd yr hyn y dylai'r diffiniad ei gynnwys.

**235.** Gofynnodd UCAC "beth yn union a olygir wrth weithgareddau awyr agored?" gan ddweud bod "cryn amrywiaeth …"[290] Roedd o blaid cael diffiniad cliriach.[291] Dywedodd ei fod yn meddwl y byddai diffiniad cliriach yn fuddiol oherwydd nad oedd yn glir a fyddai rhai mathau o ddarpariaeth, fel darpariaeth yr Urdd yng Nghaerdydd a Llangrannog, yn cyd-fynd â'r diffiniad.[292]

**236.** Cododd yr Urdd y pwynt hwn hefyd gan ddweud nad yw Llangrannog yn "ganolfan agored yn yr ystyr bur", nac ychwaith ei ganolfan yng Nghaerdydd a Phentre Ifan. Tynnodd yr Urdd sylw at y ffaith bod yr hyn y mae'n ei gynnig yng Nghaerdydd yn "beth pwysig iawn" oherwydd y cyfleoedd i ymweld â'r Senedd a dysgu am ddemocratiaeth. Roedd yn teimlo bod y Bil yn "pwysleisio'n ormodol ar weithgareddau" a'i fod yn "gyfle i Gymru fod ychydig bach yn wahanol a rhoi pwyslais ar iaith a diwylliant…". Roedd hefyd am i'r Bil fod yn "gliriach" mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru.[293]

---

[287] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 20, 24 Tachwedd 2023
[288] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 23
[289] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
[290] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 6.1
[291] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 322
[292] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 320
[293] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 227

**237.** Nododd NAHT fod angen dealltwriaeth glir iawn o'r hyn y mae'r Bil yn ei gyflawni, oherwydd ysgolion fydd yn gorfod gweithredu'r Bil, yn ogystal â gorfod rheoli disgwyliadau rhieni. Dywedodd ei bod yn bwysig peidio â chyflwyno rhywbeth a fyddai'n creu mwy o annhegwch. Dywedodd fod diffiniad yn bwysig iawn.[294] Roedd NEU hefyd yn cefnogi cael diffiniad cliriach ar wyneb y Bil, gan ddweud fod peidio â chael un, i bob pwrpas, yn creu gwaith ychwanegol i'r ysgol ac i athrawon.[295]

**238.** Dywedodd ASCL y gallai ei ddiffinio mewn ffordd benodol o bosibl arwain at ganlyniadau anfwriadol o ran cynllunio'r cwricwlwm mewn perthynas â llu o ddehongliadau posibl o ddysgu yn yr awyr agored yn y cwricwlwm.[296] Cefnogwyd y farn hon gan CCAC, a ddywedodd y gallai diffiniad cul ddibrisio egwyddorion y cwricwlwm. Nododd mai egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yw darparu ystod o brofiadau dysgu awyr agored ar bob cam o addysg ac y dylai hynny fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm a gynigir.[297] Dywedodd fod angen hyblygrwydd lleol, gan y gallai fod yn anoddach i ysgolion ddarparu cynnig safonedig.[298]

**239.** Dywedodd Estyn fod ystyr eithaf clir i'r geiriau 'preswyl' ac 'awyr agored' ystyr eithaf clir. Fodd bynnag, roedd yn derbyn y gall gwahanol ymweliadau addysg awyr agored breswyl fod yn wahanol iawn. Fe'i cysylltodd yn ôl â'r cwricwlwm gan ddweud y dylid rhoi ymreolaeth i ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain sy'n diwallu anghenion y disgyblion, a chyd-destun yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i benderfynu pa fath o weithgareddau awyr agored sydd fwyaf addas i'w hysgolion a'u disgyblion eu hunain.[299] O ran yr amrywiad a fyddai'n codi o'r math hwn o ddull gweithredu, dywedodd:

> *"That shouldn't matter; as long as core issues are addressed around accessibility, inclusivity, addressing equity and ensuring those experiences are safe, then the benefits should be fairly similar in terms of the impact on the actual learning for the pupils."*[300]

**240.** Roedd NASUWT hefyd yn cefnogi'r angen i ysgolion benderfynu beth sydd orau i'w hysgol eu hunain. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod ystod gyfan o

[294] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 192 a 194
[295] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 324
[296] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 197
[297] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 25
[298] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[299] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 122-123
[300] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

weithgareddau awyr agored posibl. Gallai'r rheini i gyd gyflwyno gwahanol ddatblygiadau o ran cymeriad y dysgwyr ac mae'n bwysig bod dealltwriaeth o'r hyn y gellid ei ddisgwyl gan wahanol weithgareddau.[301]

**241.** Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd mai egwyddorion y cwricwlwm yw rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion benderfynu sut i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau allweddol a'r profiadau. Dywedodd fod dysgu yn yr awyr agored yn llawer ehangach nag addysg awyr agored breswyl.[302] Ychwanegodd hefyd fod diffyg diffiniad o'r hyn y mae addysg awyr agored breswyl yn ei gynnwys yn broblem. Fodd bynnag, nododd fod nifer y diwrnodau y mae'r ddarpariaeth yn eu cynnwys wedi'i ddiffinio yn y Bil (sy'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yn ddiweddarach yn y Bennod hon) ac nad oedd wedi'i argyhoeddi mai'r diffiniad o hyd arhosiad yw'r diffiniad sydd ei angen i gyflawni canlyniadau'r Bil. [303]

**242.** Un o'r materion a godwyd mewn perthynas â diffinio addysg awyr agored breswyl oedd i ba raddau y dylai'r ddarpariaeth ddigwydd yng Nghymru. Mae hyn yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chapasiti o fewn y sector, yr ydym yn eu hystyried yn yr adran flaenorol. Er enghraifft, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth yng Nghymru a all dderbyn plant ag anghenion cymhleth ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ymwneud â'r materion a godir mewn rhan ddiweddarach o'r Bennod hon sy'n edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

**243.** Gofynnodd UCAC a fyddai'n rhaid i ddarpariaeth ddigwydd yng Nghymru, gan ychwanegu ei fod yn credu y dylai fod "elfen Gymreig ynghlwm wrth bob ymweliad."[304] Nododd yr Urdd hefyd nad oedd y Bil yn gwneud darpariaeth i'r cyrsiau preswyl ddigwydd yng Nghymru, a dywedodd yr hoffai weld hynny "yn gliriach yn y Bil."[305]

## Cymhwystra ar gyfer hawl i'r ddarpariaeth

**244.** Dim ond disgyblion mewn lleoliadau a gynhelir sydd â hawl i addysg awyr agored breswyl. Felly nid yw'n berthnasol i'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Gall plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fod yn rhai sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion. Nid yw'r Bil ychwaith yn cwmpasu plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Noda'r Memorandwm Esboniadol nad yw'r Bil yn

[301] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 326-327
[302] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 192-193
[303] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 207
[304] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 11.3
[305] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 227

atal y plant hyn rhag manteisio ar gyfleoedd addysg awyr agored breswyl, a bod llawer o'r garfan hon eisoes yn manteisio ar gyfleoedd o'r fath. Fodd bynnag, oherwydd bod Deddf 2021 yn gosod "gofynion cwricwlwm gwahanol" ar gyfer plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, mae'r Bil hwn yn dilyn yr un trywydd.[306]

**245.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cydnabod manteision addysg awyr agored breswyl i'r garfan hon o ddysgwyr a'r "gobaith" yw y bydd Llywodraeth Cymru "yn ystyried sut y gellir cynnig yr addysg honno iddynt, boed fel rhan o'r hawl statudol neu drwy ddulliau eraill."[307]

**246.** Clywsom gan amrywiaeth o randdeiliaid fod hyn yn cael ei ystyried yn fwlch yn y ddeddfwriaeth.

**247.** Dywedodd Estyn, fel hawl, y dylai fod ar gael i bob plentyn yng Nghymru, ac na ddylai wneud gwahaniaeth p'un a yw disgybl mewn ysgol brif ffrwd, ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion, neu'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae hyn, meddai, yn elfen o'r Bil y byddai angen ei hystyried yn ofalus os aiff y Bil yn ei flaen.[308]

**248.** Dywedodd Parentkind er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth mor gynhwysol â phosibl bod angen ystyried ymhellach sut y gellid cynnwys y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, yn ogystal â sicrhau bod mynediad i'r ddarpariaeth mor eang â phosibl.[309] Dywedodd hefyd fod angen bod yn uchelgeisiol ar gyfer y plant hynny a fyddai o bosibl yn elwa fwyaf o'r mathau hyn o brofiadau. Amlygwyd hefyd nifer y plant nad ydynt yn mwynhau'r ysgol na'r gweithgaredd dysgu a ddarperir yn amgylchedd yr ysgol.[310]

**249.** Gofynnodd NASUWT, o ran cyfiawnder cymdeithasol, beth oedd yn cael ei wneud o ran y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion a'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref.[311] Gofynnodd UCAC a fyddai "amddifadu" y grwpiau hyn "yn creu mwy o broblemau?"[312]

[306] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 119, 24 Tachwedd 2023
[307] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 119, 24 Tachwedd 2023
[308] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[309] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 09, Parentkind
[310] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 163
[311] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 369
[312] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 10.1

**250.** Dywedodd NEU fod hyn yn amryfusedd penodol ac mai'r rhain oedd y grwpiau o blant a allai elwa fwyaf o'r profiadau hyn.[313] Roedd y Comisiynydd Plant yn cytuno â hynny.[314] Dywedodd NEU ei bod felly'n arbennig o bwysig eu bod yn cael y cyfleoedd hyn.[315] Nododd hefyd:

> *"… children who attend pupil referral units will often be on roll at a mainstream school. They should therefore have access to this offer, regardless to whether the curriculum has been disapplied."*[316]

**251.** Roedd gan y Comisiynydd Plant bryderon hefyd am ddatgymhwyso rhan o'r cwricwlwm. Nododd er y gellir datgymhwyso'r cwricwlwm ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol, ni fyddai'n "annog hynny fel rhagdybiaeth na dull gweithredu safonol." Nododd, o ran y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol am resymau'n ymwneud â gorbryder neu bresenoldeb, ac sy'n gyfforddus yn y lleoliad hwnnw "na ddylai fod rheswm pam na allan nhw gael mynediad i gwricwlwm llawn." Roedd hefyd yn bryderus am y negeseuon posibl y gall hyn eu hanfon am ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a'r cwricwlwm yn fwy cyffredinol, gan ddweud y dylai datgymhwyso fod yn "opsiwn i'w ddefnyddio o dan amgylchiadau penodol, gan edrych ar bob achos yn unigol."[317]

**252.** Dywedodd NAHT y byddai'n bryderus os mai canlyniad anfwriadol y Bil oedd bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu heithrio o'r mathau hyn o ymweliadau. Dywedodd fod y plant hyn yn aml yn cael eu heithrio o'r mathau hynny o brofiadau pan oeddent yn yr ysgolion a oedd yn eu lletya ond eu bod yn grŵp sy'n sicr yn elwa o'r profiadau hyn. Galwodd y Gymdeithas am roi ystyriaeth ofalus i sicrhau os yw darpariaeth ar gael i bawb, bod hynny'n digwydd waeth beth fo anghenion y disgyblion, a bod cyfle iddynt wneud y mathau hyn o bethau.[318]

**253.** Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn "siomedig" nad oedd y cymhwystra yn ymestyn i'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Tynnodd sylw at y niferoedd mawr o'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a / neu ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn y ddarpariaeth hon. Dywedodd mai'r rhain oedd y dysgwyr a allai "elwa fwyaf o ddysgu tu allan i amgylchedd y dosbarth…" Yn ogystal

[313] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 371
[314] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[315] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 371
[316] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)
[317] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[318] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 238

â hynny, gyda phroblemau parhaus ar ôl y pandemig a rhai plant yn cael trafferth i ymgartrefu mewn ystafelloedd dosbarth "mae'n teimlo'n bwysig y dylai pob plentyn gael cyfle." Galwodd am welliannau i'r Bil er mwyn iddo ddod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm i'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol hefyd.[319]

**254.** Cododd y Gweinidog y mater hwn hefyd, a chydnabu ei fod yn deall y rhesymau.[320] Cododd Llywodraeth Cymru hefyd fater ymarferol ynghylch cymhwystra yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd:

> *"… Felly, os bydd disgybl yn peidio â bod wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm - e.e. er mwyn gadael Cymru neu fynd i uned cyfeirio disgyblion, neu os darperir addysg heblaw yn yr ysgol ar ei gyfer, bydd Gweinidogion Cymru wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd honno. Byddai honno'n sefyllfa annaliadwy i Weinidogion Cymru gan na fyddent yn gwybod pryd y byddai pob disgybl yn peidio â bod wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru."*[321]

**255.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrthym ei fod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn wrth baratoi'r Bil. Roedd yn llwyr gydnabod ei fod yn faes y gellid ei gryfhau, ond dywedodd y byddai angen llawer o ystyriaethau pellach o ran sut y gellid ei gyflawni.[322] Roedd hyn wedi'i wreiddio mewn ystyriaethau o ble roedd y Bil yn ffitio orau, ac roedd o'r farn bod hynny o fewn Deddf 2021. Roedd yn cydnabod efallai mai plant mewn unedau cyfeirio disgyblion a allai elwa'n arbennig o'r profiad. Ond nododd hefyd nad yw'r Bil yn atal Llywodraeth Cymru rhag darparu'r cyfle hwn os yw'n teimlo ei fod yn briodol ac yn angenrheidiol.[323]

**256.** Dywedodd wedyn ei fod yn faes yr oedd am ei ystyried ymhellach i weld sut y gellid ei gynnwys yn y Bil, a chytunodd fod angen ystyried sut y gellid cefnogi'r grwpiau hyn i gael y profiadau hyn.[324]

## Hyd profiad addysg awyr agored breswyl

**257.** Mae'r Bil yn darparu y bydd yn ofynnol i gwrs addysg awyr agored breswyl gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod, ond gallai hynny ddigwydd ar un

[319] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[320] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 250
[321] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.18
[322] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 26
[323] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 72-76
[324] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

ymweliad, neu gellid ei ymestyn dros fwy nag un ymweliad. Noda'r Memorandwm Esboniadol y bydd angen olrhain y ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hawl.[325] Rydym yn ystyried materion yn ymwneud ag olrhain y ddarpariaeth a monitro'r canlyniadau yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**258.** Noda'r Memorandwm Esboniadol fod ymchwil sy'n dangos bod ymweliadau hirach "yn cael mwy o effaith o ran datblygiad personol a chymdeithasol na rhai byrrach." Ond roedd yr adborth o'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil "yn dangos bod y farn am hyd gorau cwrs addysg awyr agored breswyl yn gymysg", yn arbennig felly ei bod hi'n bosibl na fydd arhosiad pedair noson a phum niwrnod "yn briodol i bob plentyn a pherson ifanc" felly mae'r Bil yn darparu "ar gyfer hyblygrwydd o ran hyd ymweliadau" sy'n ffurfio'r hawl llawn.[326]

**259.** Roedd y farn a glywsom hefyd yn adlewyrchu barn yr ymgyngoriadau a gynhaliwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol. Roedd consensws y dylai hyd yr arhosiad gael ei lywio gan yr ysgol unigol ac anghenion y garfan o blant.

**260.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored fod y dystiolaeth am hyd arhosiad yn gymysg. Amlygwyd hefyd, oherwydd pwysau ariannol, fod rhai ysgolion yn lleihau hyd eu hymweliadau o wythnos i arosiadau byrrach ar y sail bod arhosiad byrrach yn well na dim. Pe bai'r Bil yn rhagnodol ynghylch hyd yr arhosiad, meddai, gallai fod yn anoddach i ysgolion ei weithredu.[327] Er i Bendrigg nodi bod y dystiolaeth yn dangos bod arosiadau hwy yn fuddiol, dywedodd fod arhosiad byrrach yn well na dim. Amlygwyd hefyd fod arhosiad hirach yn rhoi mwy o werth am arian nag arhosiad byrrach, ond bod yn well gan rai o'u hymwelwyr ymweliad byrrach.[328]

**261.** Cyfeiriodd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr at yr ymchwil sy'n dangos manteision hirdymor arhosiad hirach, ac y gellir lleihau costau cludiant os trefnir un daith hirach. Ond yn y pen draw, meddai, ysgolion ddylai benderfynu ar hyd ymweliad.[329] Dywedodd PGL Travel fod arhosiad hwy yn galluogi darparu rhaglen lawnach o weithgareddau, yn ogystal â chreu ymdeimlad o annibyniaeth na fydd yn aml yn digwydd gydag arhosiad un noson.[330] Roedd Calvert Exmoor yn cynghori yn erbyn cyrsiau preswyl byrrach na

[325] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 128, 24 Tachwedd 2023
[326] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 129 a 131, 24 Tachwedd 2023
[327] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 202
[328] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[329] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 204-205
[330] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel

dwy noson oherwydd bod data i ddangos bod datblygu gwydnwch drwy gwrs preswyl yn gymesur â hyd y cwrs. [331]

**262.** Roedd yr Urdd yn cytuno mai ysgolion unigol ddylai benderfynu ar hyd arhosiad. Dywedodd y gallai hyd yn oed arhosiad dwy noson fod yn "llawer o amser" i rai ysgolion a bod angen i benderfyniadau fod yn seiliedig ar "ofynion y plant". Tynnodd sylw hefyd at faterion yn ymwneud â chapasiti o fewn canolfannau a meintiau amrywiol ysgolion, gan nodi enghreifftiau o ganolfannau a allai fod â dim ond 30/40 o welyau tra bod rhai ysgolion cynradd efallai â charfan lawer mwy. [332]

**263.** Dywedodd NAHT y bydd hyd gorau ymweliad yn amrywio o blentyn i blentyn ac y gall amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.[333] Rodd PGL Travel yn cytuno â hynny.[334] Dywedodd NAHT hefyd y gallai amrywio yn dibynnu ar sut yr ydych yn dewis ei ddiffinio, a ffactorau eraill megis cyllid ac effaith amser i ffwrdd o'r ysgol a bywyd teuluol.[335]

**264.** Cododd y Comisiynydd Plant fater ymarferol pan fo'r hawl yn cael ei rannu dros sawl ymweliad. Dywedodd y byddai angen i'r canllawiau cysylltiedig nodi sut y byddai hyn yn cael ei reoli, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau bod ysgolion clwstwr ac ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd yn alinio ac yn trafod eu dulliau gweithredu.[336] Rydym yn ystyried y mater o olrhain a monitro gweithrediad y Bil yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

**265.** Galwodd NEU am welliant i'r Bil mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, gan alw am ddiwygio adran 64A(3) fel y "caiff" cwrs addysg awyr agored breswyl gynnwys pedair noson yn hytrach na bod yn "rhaid" iddo gynnwys pedair noson, fel ei fod yn glir, o bob rhan o'r ddeddfwriaeth, bod mwy o hyblygrwydd.[337]

**266.** Roedd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y ffaith bod y gofyniad pedair noson, pum niwrnod wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a sut y mae hyn yn rhyngweithio â'r pŵer i lunio canllawiau.

> *"Sut bynnag, ni ddylid cynnwys y fath gyfyngiadau ar bŵer Gweinidogion Cymru i lunio canllawiau. Mae natur y pwerau i*

---

[331] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
[332] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 207-208
[333] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
[334] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[335] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
[336] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[337] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 346

> *lunio canllawiau yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu defnyddio i helpu'r rhai â swyddogaethau i arfer y swyddogaethau hynny yn well. Er mwyn gwneud hyn, mae angen sicrhau bod gan y canllawiau y cyfle i ddatblygu dros amser. Mae'n bosibl y bydd tystiolaeth yn awgrymu, yn y dyfodol, nad yw'r gofyniad pedwar diwrnod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Os felly, byddai'n rhaid inni ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol cyn inni allu diwygio'r canllawiau. Nid yw hynny'n ymarferol nac yn briodol, yn ein barn ni."*[338]

**267.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrthym fod llawer o dystiolaeth a oedd yn awgrymu bod arosiadau hirach yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae hyn oherwydd:

> *"… the first night, everyone's pretty lively and not necessarily in the learning zone, as it were; the second night, you're kind of getting used to the experiences, and by the third and fourth night, and those days, really engaging, really getting to know their surroundings."*[339]

## Y canllawiau

**268.** Bydd llawer o'r materion ymarferol a drafodir yng ngweddill y Bennod hon yn cael eu cwmpasu gan y canllawiau y mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w cyhoeddi. Mewn perthynas â'r materion cyffredinol ynghylch y canllawiau, ni wnaethom gasglu llawer o dystiolaeth. Fodd bynnag, cododd y Gweinidog rai pryderon, ac rydym yn amlinellu'r rheini isod.

**269.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol wrthym fod y darpariaethau ar gyfer y canllawiau yn golygu bod y Bil yn hyblyg iawn o ran yr hyn y mae wedi'i fwriadu i'w wneud a sut y mae'n bwriadu ei ddarparu. Dywedodd fod llawer o hyblygrwydd o ran y canllawiau ond hefyd o ran ysgolion a sut y byddant yn ei roi ar waith.[340]

**270.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae cyhoeddi canllawiau o dan adran 71A newydd o Ddeddf 2021 yn achosi "sawl problem":

[338] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.25
[339] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 146
[340] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

> *"Mae'r pŵer i lunio canllawiau o dan adran 71 yn bŵer yn hytrach na dyletswydd h.y. mae'n ddewisol. Nid yw'n briodol troi'r pŵer dewisol i lunio canllawiau yn bŵer mandadol i lunio canllawiau at ddibenion addysg awyr agored breswyl. Petai angen pŵer mandadol i lunio canllawiau, dylai fod yn ddarpariaeth annibynnol ac ni ddylai fod yn gysylltiedig ag adran 71. Byddai adran 71A arfaethedig yn cyflwyno anghysondeb yn y dull o ymdrin â phwerau i lunio canllawiau yn Neddf 2021. Nid yw'n glir pam mae canllawiau ar addysg awyr agored breswyl yn cael eu trin yn wahanol i ganllawiau ar faterion pwysig eraill yn y cwricwlwm newydd e.e. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb neu unrhyw un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Fel y mae, mae'r Bil yn rhoi darlun dryslyd a chamarweiniol i'r darllenydd."*[341]

**271.** Ychwanegodd ei bod nad yw'n glir pwy yw'r "gynulleidfa darged" ar gyfer y canllawiau. Dywed fod gan yr adran 71 bresennol "gynulleidfa darged eang ond nid yw'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa honno yn berthnasol i'r swyddogaethau yn adran 64A". (Adran 64A yw'r adran a fyddai'n cyflwyno darpariaeth addysg awyr agored breswyl i Ddeddf 2021.) Dywed y byddai hyn yn arwain at Weinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau i gynulleidfa ehangach nad oes ganddynt unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl.[342]

**272.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod ganddo bryderon y byddai'r canllawiau yn cyflwyno elfennau gorfodol i gynllun nad yw'r Bil yn ei wneud yn orfodol fel arall. Dywedodd y dylai unrhyw elfennau gorfodol gael eu cyflwyno drwy'r Bil neu mewn is-ddeddfwriaeth, yn hytrach na chanllawiau gweinidogol na allant ond darparu cyngor. Canllawiau ydynt, meddai. Roedd yn credu bod y dull hwn yn ddryslyd iawn.[343] Ychwanegodd fod y canllawiau yn gwneud llawer o'r gwaith trwm gyda'r Bil, ond na all y canllawiau newid yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud.[344]

**273.** Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor, aeth yr Aelod sy'n Gyfrifol i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig. Dywedodd ei fod wedi ystyried materion yn ymwneud â defnyddio'r un pŵer i lunio canllawiau o dan adran 71 o Ddeddf 2021, ond ei fod ar ddeall:

---

341 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.21
342 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.22
343 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 226-227
344 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 231

> *"… there is no legal difficulty with the Bill including a power to issue guidance on some matters (i.e Welsh Ministers may issue guidance), and a duty to issue guidance on other matters (i.e Welsh Ministers must issue guidance.) This is not an inconsistent approach, it is simply taking a different approach for different things.*[345]

**274.** Mewn gohebiaeth ddilynol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rhoddodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ddetholiad o "enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n gorfodi cynnwys rhai elfennau mewn canllawiau." Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y buom yn craffu arni yn ystod ei hynt drwy'r Senedd.) Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.[346] Nodwn nad oes modd cymharu'r enghreifftiau'n uniongyrchol â'r materion a godwyd gan y Bil hwn.

## Oedran neu flwyddyn ysgol

**275.** Nid yw'r Bil yn pennu oedran ar gyfer darparu cwrs addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, nodir, mewn perthynas â'r canllawiau y mae'n rhaid eu dyroddi o dan adran 1(3), "cânt nodi'r oedran neu'r oedrannau, neu'r flwyddyn ysgol neu'r blynyddoedd ysgol…" y bydd y ddarpariaeth yn cael ei chynnig ynddi.[347] Noda'r Memorandwm Esboniadol fod yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 wedi adlewyrchu bod "… blwyddyn 6 yn oedran cyffredin…" ar gyfer profiadau addysg awyr agored breswyl, ac y gall hyn gefnogi'r broses bontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, dywed fod galwadau am hyblygrwydd gan y gall manteision "ddeillio o oedrannau eraill" hefyd ac mai mater i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth weithredu'r Bil, os caiff ei basio, fydd hynny.[348]

**276.** Fe wnaethom ninnau hefyd drafod y mater hwn drwy ein hystyriaeth o'r Bil, ac roedd ein hymatebion yn adlewyrchu'r rhai yn yr ymgyngoriadau a gynhaliwyd gan yr Aelod sy'n Gyfrifol, sef bod amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch yr oedran

[345] Llythyr gan yr Aelod sy'n Gyfrifol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), 23 Ionawr 2024
[346] Llythyr gan yr Aelod sy'n Gyfrifol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), 12 Chwefror 2024
[347] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 1(3)(3)(a), Tachwedd 2023
[348] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 140, 24 Tachwedd 2023

gorau posibl ar gyfer y profiadau hyn. Clywsom hefyd am heriau ymarferol yn deillio o beidio â phennu oedran neu flwyddyn ysgol benodol ar gyfer y ddarpariaeth.

**277.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid farn ynghylch yr oedran gorau i gynnig y ddarpariaeth hon. Dywedodd NAHT mai plant 7-11 oed oedd yn cael y budd mwyaf.[349] Dywedodd CCAC fod cyfnod allweddol 2 uwch yn oedran addas.[350] Yn ôl PGL Active, gall plant mor ifanc â 7/8 oed elwa o'r profiadau hyn, ond bod angen teilwra'r ddarpariaeth ar gyfer plant iau, ac y gallai ddigwydd dros nifer o gyfnodau byrrach.[351]

**278.** Dywedodd Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr y gall fod yn haws yn ymarferol gweithio gydag ysgolion cynradd oherwydd bod modd cynnig darpariaeth i grŵp blwyddyn cyfan, ond o ran disgyblion uwchradd, mae'n fwy tebygol o fod yn seiliedig ar bwnc, felly'n annhebygol o fod yn brofiad ysgol gyfan neu ddosbarth cyfan.[352]

**279.** Dywedodd NASUWT er y bydd y canlyniadau'n wahanol yn dibynnu ar yr oedran, ei bod yn tueddu i dybio y bydd plant yn cael y budd mwyaf pan fyddant dros 12 oed.[353] Wrth gyfeirio at brofiadau preswyl pum niwrnod a phedair noson, dywedodd Parentkind y byddai hynny'n debygol o fod o fudd i blant hŷn tuag oedran uwchradd, neu'n agos at yr oedran hwnnw. Dywedodd y gallai arhosiad hirach fod yn gyfnod eithaf hir o bosibl i blentyn ifanc.[354]

**280.** Dywedodd Estyn nad yw manteision y profiadau hyn yn gyfyngedig i unrhyw grŵp oedran a bod y manteision yn wahanol yn dibynnu ar oedran a datblygiad y plentyn, a'r mathau o weithgareddau a gynigir.

> *"… you can put cases for carrying out these types of activities with children of any age, and I think that's why it's important that the schools have autonomy to consider their own situations and when it may be best suited for them to carry out these activities for their learners."*[355]

[349] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
[350] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 28
[351] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[352] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 223
[353] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 337
[354] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[355] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 125

**281.** Dywedodd y Comisiynydd Plant fod y dystiolaeth ynghylch yr oedran gorau yn "gymysg" ac "nid oes pwynt optimwm ar gyfer sicrhau'r budd mwyaf." Roedd hi felly'n gallu deall pam nad oedd oedran wedi'i bennu yn y Bil.[356]

**282.** Dywedodd NEU, er bod manteision ac anfanteision i bennu blwyddyn, ei bod fwy na thebyg yn well peidio â gwneud hynny, er mwyn i ysgolion allu rhoi ystyriaeth i'r ffaith y bydd plant yn barod i fynd i ffwrdd ar wahanol oedrannau.[357] Dywedodd CCAC mai hyblygrwydd yw'r ateb o ran y mater hwn.[358]

**283.** Disgrifiodd UCAC gymhlethdodau posibl rheoli darpariaeth ar draws gwahanol ysgolion cynradd ac uwchradd:

> *"… Pe bai disgybl yn mynd i Ysgol Gynradd A ac Ysgol Uwchradd B, byddai'n rhaid i un o'r ysgolion hynny ddarparu'r gweithgareddau awyr agored preswyl. Gallai disgybl arall yn Ysgol Uwchradd B fod wedi mynd i Ysgol Gynradd C lle'r oedd gweithgareddau awyr agored preswyl yn cael eu trefnu ac yna gallai disgybl arall o fewn yr un flwyddyn yn Ysgol Uwchradd B fod wedi mynychu ysgol gynradd Ch lle cawsant gyfle i fynychu gweithgaredd awyr agored preswyl am ddwy noson. Byddai angen darpariaeth breswyl am ddwy noson ar y disgybl hwnnw yn Ysgol Uwchradd B. Ymddengys y gallai fod tipyn o gymhlethdod i sicrhau darpariaeth i bawb ac i sicrhau nad oes yr un disgybl yn syrthio drwy'r rhwyd."*[359]

**284.** Dywedodd NAHT y gellid ymdrin â rhai o'r materion hyn drwy waith clwstwr a bod ysgolion uwchradd i gyd yn ymgysylltu'n agos â chlystyrau cynradd. Ond byddai hynny'n heriol.[360] Soniodd NEU hefyd am gymhlethdodau gwahanol ysgolion (cynradd / uwchradd) yn defnyddio gwahanol ddulliau a sut i olrhain a rheoli hyn.[361]

**285.** Cododd y Gynghrair Cefn Gwlad faterion tebyg, gan ddweud y gallai agwedd anhyblyg yn seiliedig ar oedran olygu bod plant yn colli cyfle. Roedd yn galw ar i'r canllawiau ei gwneud yn glir bod y gofyniad i gynnig y cyfle yn berthnasol i bob

---

356 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
357 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 333
358 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 29
359 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 2.2
360 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 207
361 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 333

plentyn unigol, a bod yn rhaid i ysgolion fod yn ddigon hyblyg yn eu cynigion i gyflawni hynny.[362]

**286.** Ychwanegodd UCAC y byddai angen system olrhain gydnerth yn ogystal â "…c[h]ryn gydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhwng ysgolion…". Gallai hyn fod yn gymhleth a gallai plant ddal i "gwympo drwy'r rhwyd."[363] Rydym yn ystyried y materion yn ymwneud ag olrhain y ddarpariaeth yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

**287.** Roedd ystyriaethau ymarferol eraill a amlygwyd gan ASCL yn cynnwys y gallai plant golli profiadau os pennir blwyddyn neu oedran, a phe baent wedyn yn ymuno â'r ysgol ar ôl y pwynt hwn. Dywedodd hefyd fod pennu blwyddyn neu oedran ysgol penodol yn golygu cyfyngu'r cyfle i fath penodol o brofiad gan nodi y bydd profiad yn yr ysgol gynradd yn wahanol i brofiad yn yr ysgol uwchradd. Dywedodd fod angen meddwl yn ofalus iawn cyn pennu oedran neu flwyddyn ysgol.[364]

**288.** Dywedodd NAHT y gallai fod canlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â phennu blwyddyn. Dywedodd fod gan blant oedran cynradd lawer iawn o anghenion ac anghenion cymorth gwahanol o gymharu â charfan oedran uwchradd, ond bod trefnu athrawon cyflenwi mewn ysgol uwchradd yn fwy heriol. Pe bai'r Bil yn cael ei basio, meddai, byddai angen llawer mwy o drafodaeth ar y mater hwn.[365] Soniodd CCAC hefyd am gymhlethdodau ychwanegol trefnu athrawon cyflenwi mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd.[366]

**289.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol nad yw'r Bil yn rhagnodol mewn nifer o wahanol ffyrdd oherwydd ei fod am gadw'r hyblygrwydd i ysgolion deilwra'r ddarpariaeth hon yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w dysgwyr. Yn benodol, cyfeiriodd at y penderfyniad i beidio â phennu oedran / blwyddyn ysgol oherwydd ei fod yn teimlo:

> *"… the right thing to do is put it in the hands of teachers and schools as to what they think is best for the children, and what they're learning at the time. It may be a great experience that*

[362] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 10, Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru), paragraff 5
[363] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 8.1
[364] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 201
[365] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[366] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 29

*relates to their area of learning. … I trust teachers to make that decision in the best way possible."*[367]

**290.** Derbyniodd y gallai fod heriau ymarferol gyda gweithredu'r Bil, a bod manylion y byddai'n rhaid eu trafod. Dywedodd y byddai'r canllawiau'n ymdrin â llawer o'r materion hyn, ac y byddai'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir eu datrys yn ymarferol. Fel enghraifft, dywedodd y gallai'r Llywodraeth benderfynu bod yn fwy penodol yn y canllawiau, megis nodi bod y ddarpariaeth hon yn cael ei gwneud ym mlwyddyn 6, a fyddai'n gwneud y prosesau olrhain a gweithredu'n haws.[368]

## Natur orfodol y ddarpariaeth

**291.** O ran y canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dyroddi, noda'r Bil:

*"(b) rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;*[369]

**292.** Noda'r Memorandwm Esboniadol mai bwriad y Bil yw rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg awyr agored breswyl "a'u hannog i'w gymryd er na ddylid eu gorfodi" i wneud hynny.[370]

**293.** Rydym eisoes wedi ystyried yn y bennod flaenorol rai o'r rhwystrau i fanteisio ar addysg awyr agored breswyl. Er y gallai'r Bil hwn ddileu rhai o'r rhwystrau hyn, ni fydd yn dileu pob rhwystr. Efallai fod amrywiaeth o resymau pam, hyd yn oed pan fydd y Bil hwn ar waith, na fydd rhai plant a phobl ifanc eisiau cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl.

**294.** Dywedodd y Comisiynydd Plant ei bod yn deall y rhesymau dros beidio â gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol, ond nad yw'n sicr "i ba raddau mae hyn yn gallu cyd-fynd" â rhannau gorfodol eraill y cwricwlwm, lle nad oes modd optio allan ohonynt.

*"Mae elfennau gorfodol y cwricwlwm, yn gwbl briodol, yn feysydd y dylai pob dysgwr ymwneud â nhw a dod i gysylltiad â nhw oherwydd eu bod yn elfennau craidd o'r dysgu. Os*

[367] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 80
[368] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 158-159
[369] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 1(3)(3)(b), Tachwedd 2023
[370] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 136, 24 Tachwedd 2023

*penderfynir bod addysg awyr agored breswyl yn elfen orfodol, dylai fod yn orfodol i bawb."*[371]

**295.** Nododd y Comisiynydd Plant hefyd mai'r rhai nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl (er enghraifft rhieni / gofalwyr neu blant sy'n dioddef o orbryder) allai fod "yn union y rhai a fydd yn elwa'n sylweddol o'r cynnig." Mae "tystiolaeth yn amlygu'n gryf" yr effeithiau cadarnhaol ar lesiant meddyliol ac "nid yw hyn yn cyd-fynd yn gyfforddus â rhagdybiaeth na fydd y rhai â phryder yn mynychu. Mewn geiriau eraill, mae'r modd y mynegir y peth ar hyn o bryd bron yn awgrymu wrth y bobl hynny, neu'n peri iddyn nhw feddwl nad yw'n addas iddyn nhw."[372] Rydym wedi edrych ar rai o'r ffyrdd y gellir rheoli pryderon yn y Bennod flaenorol.

**296.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y darpariaethau mewn perthynas â'r elfen hon o'r Bil yn "anghyson." Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r canllawiau ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol, ond mae hyn yn gwrthdaro â darpariaethau sylweddol y Bil, sydd â'r effaith o'i gwneud yn orfodol.[373]

**297.** Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn aneglur beth fyddai'n digwydd pe na bai plentyn neu riant am gymryd rhan. Os yw'n rhan orfodol o'r cwricwlwm, meddai, dylai fod cosb am beidio â chymryd rhan. "Mae'n debygol y byddai hynny'n golygu cymryd camau disgyblu am beidio â chymryd rhan… yn yr un ffordd ag y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd am beidio â mynd i sesiwn ddosbarth arferol." Ychwanega "er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y dylai fod yn wirfoddol… nid [dyna yw] effaith gyfreithiol y Bil."[374]

**298.** Cododd Llywodraeth Cymru ddau fater ymarferol mewn perthynas â gwneud addysg awyr agored breswyl yn elfen orfodol o'r cwricwlwm. Roedd un yn ymwneud ag arolygu, gan ddweud, fel elfen orfodol o'r cwricwlwm, "mae'n debyg y bydd angen i Estyn ei harolygu." Dywed nad yw'n glir sut y byddai hyn yn digwydd gan y byddai'r ddarpariaeth hon oddi ar y safle, ac yn aml yn cael ei rhedeg gan fusnes preifat.[375] Rydym yn ystyried y materion yn ymwneud â thrwyddedu yn ddiweddarach yn y bennod hon. Yn ail, dywed bod yr elfen orfodol ynghyd â'r ffaith bod y ddarpariaeth yn cael ei threfnu gan yr ysgol yn golygu y byddai'r ysgol "in locus parentis" sy'n golygu y byddai'r ysgol yn cael ei dal yn gyfreithiol gyfrifol am yr holl ddisgyblion sy'n mynychu. Noda, er bod hyn yn wir

[371] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[372] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru
[373] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraffau 6.23-6.24
[374] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.13
[375] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.16

pan fydd plant yn yr ysgol, ei bod hi'n "dasg fwy beichus os byddant yn ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl ar safleoedd cyrff trydydd parti ac yn defnyddio eu cyfarpar."[376]

### Optio allan o gwrs addysg awyr agored breswyl

**299.** Dywedodd CLlLC na ddylai fod gorfodaeth i fynychu cwrs addysg agored breswyl, ac mai'r plentyn a'r teulu ddylai benderfynu. Dywedodd pe bai'n cael ei wneud yn orfodol drwy ddeddfwriaeth y dylid cynnwys cymal optio allan eglur iawn yn y Bil hefyd.[377] Roedd CCAC yn cytuno â hyn, gan ddweud y byddai'n bwysig cael ffordd glir o gofnodi a chadw cofnodion o benderfyniadau a wnaed i beidio â chymryd rhan. Roedd hynny'n benodol er mwyn atal neu liniaru unrhyw ymgyfreitha posibl yn y dyfodol a chwynion ynghylch rhywbeth a allai fod wedi digwydd sawl blwyddyn ynghynt.[378]

**300.** Pan ofynnwyd a allai adran 42 o Ddeddf 2021 ddarparu dull i "optio allan" (gan ei bod yn galluogi datgymhwyso rhan o'r cwricwlwm), dywedodd y Gweinidog, er y gallai wneud hynny mewn egwyddor, nad dyna sut y bwriadwyd i'r ddarpariaeth gael ei defnyddio. Dywedodd nad yw'n erfyn di-awch ar gyfer y gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd; yn hytrach mae'n erfyn di-awch ar gyfer y gwaith y mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei wneud nawr. Eglurodd mai'r rheswm am hyn oedd bod yn rhaid i'r ymgeisydd, er mwyn cael esemptiad o dan adran 42, ddatgan pam mae'n gofyn am yr esemptiad hwnnw ac yr oedd o'r farn bod hynny, yng nghyd-destun taith breswyl ysgol, yn ffordd feichus iawn o ymdrin â'r mater o safbwynt rhiant ac o safbwynt yr ysgol.[379]

**301.** Roedd y Gweinidog yn derbyn bod defnyddio'r mecanwaith presennol yn Neddf 2021 (y mae'r Bil hwn yn ei diwygio) yn gwneud synnwyr o safbwynt cysondeb. Fodd bynnag, dywedodd mai anaml iawn y caiff darpariaeth adran 42 ei defnyddio'n ymarferol oherwydd strwythur y cwricwlwm. Fe'i disgrifiodd fel offeryn pwysig wrth gefn. Teimlai y byddai'n llai effeithiol o ran ymdrin â phenderfyniadau i optio allan o addysg awyr agored breswyl.[380]

**302.** Dywedodd y Gweinidog, oherwydd natur addysg awyr agored breswyl, y byddai risg uwch na fyddai'r esemptiad dros dro yn adran 42 yn cael ei ddefnyddio, ac y byddai cosbau'n cael eu gorfodi o bosibl. Er na allai ddychmygu

376 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.17
377 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51-52
378 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
379 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 221
380 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 232

hynny'n digwydd yn ymarferol, dywedodd nad yw'n glir yn y cynnig deddfwriaethol dan sylw beth fyddai canlyniad hynny.[381]

**303.** Pan godwyd y materion hyn gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol, dywedodd ei fod yn rhywbeth y gallai ystyried ei wneud yn gliriach o fewn yr elfennau'n ymwneud â'r canllawiau yn y Bil ynghylch sut y gallai weithio'n ymarferol. Dywedodd mai ysbryd y ddeddfwriaeth oedd bod pob plentyn yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl ac yn cael ei annog i wneud hynny, ond na fyddai'n orfodol, a bod dulliau mewn deddfwriaeth bresennol i ganiatáu ar gyfer hyn.[382]

**304.** Amlinellodd y Cynghorydd Cyfreithiol y sefyllfa gyfreithiol, gan gadarnhau bod y Bil yn darparu ar gyfer cwrs addysg awyr agored breswyl, ac oherwydd ei fod ar y cwricwlwm y bydd yn orfodol. Bydd yn rhaid iddo gael ei gynnig gan ysgolion. Ond, fel yr amlinellir yn y Memorandwm Esboniadol ac a fydd yn cael ei egluro yn y canllawiau, ni fyddai plant yn cael eu gorfodi i gymryd rhan. O ran sut y byddai'r opsiwn i "optio allan" drwy adran 42 yn gweithio, dywedodd:

> *"There's an existing provision in the 2021 Act, under section 42. Regulations have been made under that section, which allow for a headteacher to disapply elements of the curriculum in relation to individual children. This applies to the curriculum as a whole. When making a determination under these regulations, the pupil must be notified, the parents, the governing body, and the local authority. Therefore, there'd be a record of any children who make it clear that they do not wish to undertake the residential outdoor education. Therefore, the effect in the round is that, yes, it's on the curriculum, and, therefore, compulsory. Fodd bynnag, gellir ei ddatgymhwyso dros dro, gan ddefnyddio'r mecanwaith sydd yn y Bil [cywiriad: y Ddeddf].*
>
> *On the fact that the guidance says that it's not to be compulsory, the intention is that the guidance would make it clear that this provision already exists in the 2021 Act, and the expectation is that headteachers would use the powers under section 42."*[383]

[381] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 234
[382] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 52-54
[383] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 57-59

**305.** Soniodd yr Aelod sy'n Gyfrifol a'r Cynghorydd Cyfreithiol ill dau am y penderfyniad i ddefnyddio'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf 2021. Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol y gallai creu darpariaeth debyg i ddarparu ar gyfer optio allan o addysg awyr agored breswyl o bosibl arwain at orgyffwrdd a pheth dryswch.[384] Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y byddai beirniadaeth pa bynnag ddull a ddefnyddir.[385]

**306.** Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch beth fyddai'n digwydd pe bai anghytundeb rhwng teulu ac ysgol ynghylch a ddylai plentyn fynd ar ymweliad addysg awyr agored breswyl, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol nad oedd yn rhagweld y byddai'n dod i hynny, a bod ganddo ffydd mewn penaethiaid ysgolion i wneud y penderfyniadau cywir.[386]

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant

**307.** Mae'r canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu dyroddi yn nodi dwy ddarpariaeth wahanol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Rydym eisoes wedi ystyried y materion ynghylch a ddylai'r Bil ddiffinio addysg awyr agored breswyl ac a ddylai, yn y diffiniad hwn, nodi y dylai ddigwydd yng Nghymru (gweler adrannau cynharach y Bennod hon).

**308.** Mae'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau yn nodi, o ran y canllawiau:

> *"(d) rhaid iddynt ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn 30 gwneud cais am hynny;*
>
> *(e) cânt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru;*[387]

**309.** Noda'r Memorandwm Esboniadol fod adran 1(3)(3)(d) yn "cyd-fynd â'r egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol" y dylai dysgwyr dderbyn addysg yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg. Ond aiff ymlaen i ddweud y bydd hyn yn

[384] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 63
[385] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 64
[386] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 66
[387] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 1(3)(3)(d) ac (e), Tachwedd 2023

"dibynnu ar gapasiti ac argaeledd".[388] (Rydym wedi ystyried capasiti cyfrwng Cymraeg yn gynharach yn y Bennod hon.)

**310.** Mewn perthynas ag adran 1(3)(3)(e), dywed y Memorandwm Esboniadol fod "cysylltiadau posibl amlwg" rhwng darpariaeth breswyl a "chael eich amlygu i'r Gymraeg a dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru." Mae'n derbyn efallai na fydd hyn yn bosibl "bob amser", ond wrth weithredu'r Bil, gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai helpu i gyflawni buddiannau polisi eraill megis Cymraeg 2050 a chysylltiad â "c[h]ynefin".[389]

**311.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar argaeledd oherwydd nad oes digon o gapasiti ar hyn o bryd. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i ysgolion ac athrawon wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y math o ddarpariaeth y maent yn ei defnyddio. Dywedodd fod y Bil yn her i'r sector ac i'r Llywodraeth weld sut y gellir ehangu'r ddarpariaeth honno. Dadleuodd fod y ddarpariaeth yn gryf.[390]

**312.** Dywedodd UCAC fod ganddo bryderon bod y ddarpariaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn amodol ar argaeledd. Dywedodd y dylai addysg awyr agored breswyl fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac y dylai fod ar gael cyn gweithredu'r Bil er mwyn dangos parch dyledus tuag at y continwwm iaith ym mhob ysgol hefyd.[391] Galwodd am" annog" ysgolion cyfrwng Saesneg i gyfuno addysg awyr agored breswyl gyda "chyfleoedd i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg" gan ddweud ei fod hefyd yn gyfle i "ddysgu am ddiwylliant a chyd-destun ardaloedd amrywiol yng Nghymru."[392]

**313.** Pwysodd Comisiynydd y Gymraeg am gryfhau'r rhannau hyn o'r Bil. Fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, dywedodd y Comisiynydd nad ydynt yn cynnig unrhyw sicrwydd y bydd darpariaeth ar gael yn Gymraeg. Nid yw'r rhannau hyn ychwaith yn "gwneud y mwyaf o botensial cyrsiau preswyl o'r fath i gyfrannu at ddarparu cyfleoedd i bob disgybl glywed a defnyddio'r Gymraeg." Galwodd y Comisiynydd am wneud gwelliannau i'r Bil. Roedd am weld adrannau 1(3)(3)(d) ac (e) yn cael eu diwygio ac adran 1(3)(3)(f) newydd yn cael ei mewnosod:

[388] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 138, 24 Tachwedd 2023
[389] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 141, 24 Tachwedd 2023
[390] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 128-130
[391] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 341
[392] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 7.1

> *"rhaid iddynt ddarparu bod pob darparwr addysg awyr agored breswyl yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg"*
>
> *"yn unol â gofynion y cwricwlwm i Gymru, rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl ddysgu a chael profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg"*
>
> *"rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru"*[393]

**314.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y byddai'r gwelliannau hyn yn sicrhau y byddai'r elfennau hyn yn dod yn rhan "annatod" o ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl. Dywedodd y byddai newid o'r fath yn gwneud "cyfraniad pwysig" at bolisïau eraill fel Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Siarter Iaith Gymraeg ysgolion a gofynion y cwricwlwm.[394]

**315.** Tuag at ddiwedd ein gwaith craffu, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn agored i ystyried unrhyw argymhellion i gryfhau 1(3)(3)(e) ar hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Dywedodd fod y Bil yn llawer gwell na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan nodi nad oes unrhyw ofynion ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg neu ddiwylliant Cymru, nac i ddarpariaeth fod ar gael yn Gymraeg. Dywedodd y byddai'r Bil yn rhoi "gwarant lawer, llawer cryfach nag sy'n bodoli ar hyn o bryd."[395] Ychwanegodd ei fod yn fodlon newid y "caiff" i "rhaid" gan ddweud y byddai hynny'n eithaf cryf.[396]

**316.** Ailadroddodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ei farn hefyd y byddai'r ddarpariaeth Gymraeg yn gymhelliant mawr i'r sector i weld ble yn union y gellir cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.[397]

**317.** Dywedodd Ymchwilydd y Senedd sy'n cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r Bil weithio heb y ddau gafeat (argaeledd a phan fydd ysgol yn gofyn amdano) mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg. Dywedodd os nad oes darpariaeth ar gael, yna ni fydd modd ei chynnig, ac os na fyddai ysgol yn gofyn amdani, ni fyddent yn awgrymu y byddai ysgol yn cael ei gorfodi i

393 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 13, Comisiynydd y Gymraeg
394 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 13, Comisiynydd y Gymraeg
395 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 71-73
396 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
397 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

ddefnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd yn credu bod y Bil wedi ceisio mynd mor bell ag y gallai yn hynny o beth.[398]

## Trwyddedu darparwyr

**318.** Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trwyddedu na sicrhau ansawdd darparwyr. Fodd bynnag, caiff y canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyflwyno "nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl."[399]

**319.** Noda'r Memorandwm Esboniadol y gallai rhywfaint o addysg awyr agored breswyl fod yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu statudol o dan Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004. Noda fod nifer o gynlluniau achredu gwirfoddol ar gyfer y gweithgareddau hynny nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y darnau hyn o ddeddfwriaeth. Yn benodol, cyfeirio at y Bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth sy'n "ddangosydd a gydnabyddir yn genedlaethol" o "ddarpariaeth addysgol o ansawdd da." Cyfeiria hefyd at ganllawiau'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.[400]

**320.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol ei fod yn rhywbeth yr oedd wedi rhoi llawer o feddwl iddo ond bod nifer o gynlluniau eisoes ar waith. Fe'n hatgoffodd mai diben y Bil oedd sicrhau mynediad cyfartal, a dileu rhwystrau i fynediad. Ategodd yr hyn sydd yn y Memorandwm Esboniadol drwy dynnu sylw at y bathodynnau ansawdd a chynlluniau sicrhau ansawdd sydd eisoes yn bodoli.[401] Dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol oherwydd bod deddfwriaeth eisoes ar waith ar gyfer rhai gweithgareddau y gwnaed y penderfyniad i beidio â gorgyffwrdd â deddfwriaeth bresennol.[402] Hefyd, fe'n hatgoffwyd gan Ymchwilydd y Senedd nad yw'r Bil yn creu'r diwydiant hwn o'r dechrau'n deg.[403]

**321.** Roedd eraill yn cytuno â'r ystod o gynlluniau a oedd eisoes yn bodoli. Dywedodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored:

---

398 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 74
399 Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) [fel y'i cyflwynwyd], adran 1(3)(3)(f), Tachwedd 2023
400 Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 142, 24 Tachwedd 2023
401 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 109
402 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 115
403 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 118

> *"There are a number of existing accreditations for providers of outdoor activities at the moment. One key one is the learning outside the classroom quality badge … There's only one statutory requirement. If you're delivering hill walking, rock climbing, paddle sports, caving to under-18-year-olds, there is a Health and Safety Executive adventure activities licence. …"*[404]

**322.** Tynnodd rhanddeiliaid eraill sylw at y bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth fel modd o roi sicrwydd. Roeddent yn cynnwys y Bartneriaeth Awyr Agored;[405] NASUWT;[406] PGL Travel;[407] a Bendrigg[408]. Fodd bynnag, dywedodd NASUWT efallai y bydd angen ailasesu hyn yng ngoleuni materion cydraddoldeb.[409] Tra tynnodd PGL Travel sylw at gynlluniau achredu eraill gan gynnwys Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Awyr Agored (AHEOC), Cymdeithas Darparwyr Gweithgareddau Prydain (BAPA) etc., gyda chymorth y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored.[410] Dywedodd Bendrigg y dylai darparwyr feddu ar Drwydded AALA yn ogystal â dilyn yr holl ddeddfwriaeth berthnasol arall. Tynnodd Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored sylw at Gynllun Sicrwydd Gweithgareddau Antur Croeso Cymru.[411]

**323.** Disgrifiodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored rôl y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored yn y gwaith hwn. Dywedodd mai rhan o rôl y cynghorydd (sy'n cael ei gyflogi gan awdurdodau lleol) yw cyflawni eu dyletswyddau ansawdd mewn perthynas ag iechyd a diogelwch mewn addysg. Yn ôl y Gymdeithas, mae'r system EVOLVE yn cefnogi'r broses ddilysu sydd eisoes yn bodoli.[412] Dywedodd y Panel ei hun bod rhwydwaith cymorth yn bodoli lle y bydd cynghorwyr yn siarad fel grŵp am "unrhyw faterion gydag unrhyw sefydliadau neu ddarparwyr.[413]

**324.** Mynegodd rhai rhanddeiliaid, yn enwedig yr undebau addysg, bryderon y gallai'r Bil arwain at sefydlu darpariaeth heb ganllawiau clir iawn ar safonau a disgwyliadau, a thrwyddedu. Wedi dweud hyn, dywedodd NAHT er ei bod yn meddwl y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn, ei bod yn pryderu am y gallu i

[404] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 299
[405] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 12, Y Bartneriaeth Awyr Agored
[406] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 15
[407] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[408] Tystiolaeth ysgrifenedidg, ROE 17, Bendrigg
[409] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 07, NASUWT Cymru, paragraff 15
[410] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[411] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 26, Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
[412] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
[413] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 309

warantu diogelwch, a ddisgrifiwyd ganddi fel prif swyddogaeth pennaeth. Soniwyd am sut y mae ysgolion yn datblygu ymddiriedaeth a pherthynas â chanolfannau y maent yn gweithio gyda nhw dros nifer o flynyddoedd.[414]

**325.** Pwysleisiodd UCAC bwysigrwydd iechyd a diogelwch, a dywedodd fod “trwyddedu yn allweddol, a sicrhau bod yna gydymffurfiaeth gyson…”.[415] Gofynnwyd hefyd pwy fyddai'n atebol am ddiogelwch yn y canolfannau.[416] Dywedodd NASUWT fod angen sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal. Dywedodd ASCL hefyd fod angen rhyw fath o safonau y byddai angen cadw atynt, ac o bosibl trwyddedu.[417]

**326.** Tynnodd Anabledd Dysgu Cymru sylw at y risg uwch i blant ag anabledd dysgu gael eu hecsbloetio. Dywedodd fod yn rhaid i gyfleoedd ddod gyda sicrwydd bod amgylcheddau o'r fath yn ddiogel ac yn gyfrifol ac yn gweithredu o dan fframwaith rheoleiddio cadarn. Cyfeiriodd at y manteision a fyddai'n dod yn sgil hynny i bob plentyn.[418]

**327.** Dywedodd CLlLC fod angen i safonau diogelwch fod yn uchel oherwydd bod y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau anturus yn gallu bod yn feichus iawn. Roedd yn galw am ddiffinio'r cyfrifoldebau'n glir.[419] Roedd CCAC yn cefnogi'r angen am safonau wedi'u diffinio'n glir a mecanwaith annibynnol ar gyfer monitro ac ardystio darparwyr yn rheolaidd. Tynnodd sylw at y ffaith fod ymgyfreitha cynyddol yn erbyn ysgolion hefyd wedi effeithio ar hyder ysgolion a pharodrwydd staff i drefnu ymweliadau a theithiau addysgol.[420]

**328.** Nododd y Comisiynydd Plant mai cynghorol yn unig yw canllawiau'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored, ond y byddai gwneud y canllawiau'n orfodol “nid yn unig yn diogelu disgyblion… ond hefyd yn rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr…”. Nododd, er bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cymeradwyo'r canllawiau hyn, mae'r Bil “yn gyfle i'w hymgorffori a'u gwneud yn ofynnol.” Roedd hi'n annog y Pwyllgor i ystyried gwneud gwelliannau i'r Bil er mwyn gwneud hynny.[421]

---

[414] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 275-276
[415] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 378
[416] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 12.1
[417] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 280
[418] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
[419] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 113
[420] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 114
[421] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru

**329.** Dywedodd y Gweinidog fod cytundebau trwyddedu yn gymhleth a bod angen "ystyriaeth fanwl iawn o oblygiadau hynny." Nid oedd yn cytuno â'r dull a fabwysiadwyd gan y Bil, lle y gallai'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru osod gofynion ar gyfer darpariaeth.

> *"Dwi ddim yn credu bod hynny'n addas o ran sicrhau system sy'n gweithio, dyw hi ddim yn ffordd o gyflwyno system drwyddedu, a dyna, a dweud y gwir, rwy'n credu ei fod e'n ceisio'i wneud. Felly, dyw e ddim yn addas ar gyfer hwnnw. …bod defnyddio'r canllawiau i yrru elfen elfennol o'r system, ac elfennol mewn ffordd ofynnol, os hoffwch chi, ddim yn addas."*[422]

**330.** Ar ddiwedd ein gwaith craffu, fe wnaethom ailystyried y mater hwn gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol. Yn benodol, pe bai risg y byddai mewnlifiad o ddarparwyr i Gymru i fodloni galw newydd na fyddent yn bodloni'r safonau gofynnol. Dywedodd aelod o'i Staff Cymorth er bod pryderon a godwyd ynglŷn â'r mater hwn yn deg, bod rhai systemau a strwythurau cryf iawn yn eu lle sy'n golygu y byddai hynny'n annhebygol.

> *"… The schools are required to undertake checks to make sure that the providers they're using meet certain standards. So, the EVOLVE system asks people to log the details of the trip that they're planning to do, the educational advisers in those local authorities review those forms and the Welsh Government itself signposts all educational visit organisers to the national guidance of the Outdoor Education Advisers' Panel. Part of that has a statement that says if an organisation has a Learning Outside the Classroom Quality badge, then you don't need to worry, in effect, about asking a lot of other questions. If they haven't, then there is a provider form to fill in. So, there's a process there.*
>
> *Where activities fall under statutory regulation, then there is the adventure activities licensing regulations, and so, adventurous activities, anyone providing those must have an activity licence*

[422] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 266

*in this context that we're talking about. So, licensing already exists in a statutory framework,…"*[423]

## Olrhain y ddarpariaeth a monitro'r canlyniadau

**331.** Fel yr amlygwyd gennym yn gynharach yn y Bennod hon, yn enwedig mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r oedran / blwyddyn ysgol y mae plant yn cael addysg awyr agored breswyl, bydd olrhain y ddarpariaeth a ddefnyddir yn hollbwysig. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r angen i fonitro canlyniadau addysg awyr agored breswyl. (Mae hwn hefyd yn fater yr ydym wedi cyfeirio ato ym Mhennod 4.)

### Olrhain y ddarpariaeth

**332.** Ar ddechrau'r gwaith craffu, dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod ffyrdd eisoes o olrhain gweithgareddau, megis y system EVOLVE. Fodd bynnag, nododd nad yw EVOLVE ar hyn o bryd yn olrhain unigolion, ond yn hytrach yn olrhain nifer y teithiau y mae ysgol yn eu trefnu a nifer y disgyblion sy'n mynd ar y teithiau hyn.[424] O ran monitro cydymffurfiaeth â'r Bil, dywedodd fod y Llywodraeth eisoes wedi sefydlu systemau i fonitro cydymffurfiaeth ar gyfer ystod eang o gynlluniau a phrosiectau, ac nad oedd yn rhagweld y byddai hyn yn wahanol mewn egwyddor. Dywedodd y byddai ond yn llinell wahanol o fewn yr adroddiad ar gydymffurfiaeth, a disgwyliadau gwahanol i'r hyn gan Lywodraeth Cymru.[425]

**333.** Roedd Estyn yn cytuno bod rhywfaint o'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar hyn o bryd drwy systemau presennol i ryw raddau. Serch hynny, dywedodd y gallai fod angen dull mwy cyson, oherwydd byddai'n hawl gyfreithiol, felly mae'n bwysig gallu nodi a yw'r hawl wedi cael ei darparu.[426]

**334.** Roedd yr undebau addysg, fodd bynnag, yn pryderu y byddai'r baich gweinyddol yn cael ei ysgwyddo gan ysgolion. Gofynnodd ASCL pwy fyddai'n gyfrifol am hyn, ar adeg pan fo symudiad i ysgafnhau'r llwyth gwaith i athrawon er mwyn gwneud y proffesiwn yn fwy deniadol.[427] Roedd hefyd yn pryderu y byddai angen cyllid i wneud gwaith olrhain a fyddai'n mynd ag arian oddi ar wasanaethau rheng flaen.[428] Dywedodd NAHT y byddai'n disgwyl i'r baich gael ei

[423] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 99-100
[424] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 149
[425] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[426] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 188
[427] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 249
[428] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 254

ysgwyddo gan adrannau gweinyddol ac uwch arweinwyr ysgolion. Er y byddai'r data hyn yn cael eu hadrodd i awdurdodau lleol, bydd y gwaith caled yn cael ei wneud gan yr ysgol, meddai.[429] Dywedodd y byddai angen sgwrs fanwl iawn gydag awdurdodau lleol am gapasiti oherwydd nad oes gan ysgolion yr amser a'r adnoddau i wneud hynny.[430] Dywedodd NEU os mai'r ysgol fydd yn gyfrifol am olrhain hawliau, byddai'n faich gwaith ychwanegol sylweddol.[431]

**335.** Cododd CCAC bryderon tebyg hefyd. Dywedodd y byddai'n rhoi pwysau ar system sydd eisoes yn cael anhawster i gynnal gweithgaredd addysgol craidd. Dywedodd fod recriwtio a chadw staff eisoes yn broblem, heb osod gofynion pellach ar staff (gan adleisio barn yr undebau.) Dywedodd hefyd fod staff awdurdodau lleol wedi'u torri at yr asgwrn ac na fyddai ganddynt gapasiti i wneud dim gwaith monitro pellach o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon.[432]

**336.** Dywedodd y Gweinidog, o ran y Llywodraeth, y byddai'n:

> *"… more likely that we would amend the regulations under which schools report this to local authorities, and we have an existing mechanism for obtaining that data on an aggregate basis from local authorities, as you know, so I think that would be the more practical way of doing it. But the truth is, inevitably, this is an extra layer of reporting on schools, which I'm certain would be unwelcome, and perhaps the broader point is that no other part of the curriculum has a reporting requirement of anything like this specificity."*[433]

**337.** Fe wnaethom ailystyried y materion hyn gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol a'i dîm ar ddiwedd ein gwaith craffu. Dywedodd yr Ymchwilydd yn y Senedd a oedd yn cefnogi'r Aelod sy'n Gyfrifol ei fod wedi edrych ar oblygiadau cost systemau i olrhain darpariaeth. Roedd trafodaethau ag awdurdodau lleol wedi nodi bod systemau rheoli eisoes ar waith, ac y gellid ymgorffori hyn yn y systemau hyn. Dywedodd y byddai costau hyn yn eithaf bach a'u bod wedi cael eu hystyried yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.[434]

---

[429] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 256
[430] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 260
[431] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)
[432] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 118-120
[433] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 236
[434] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 130

## Monitro'r canlyniadau

**338.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y byddai rôl i ysgolion a chyrff llywodraethu fonitro gweithrediad y Bil, gan eu bod yn goruchwylio pob agwedd ar ddysgu plant a bod ganddynt gyfrifoldeb dros hynny.[435] O ran canlyniadau i blant, dywedodd y dylid mesur hyn yn yr un modd ag y mae gweddill y Cwricwlwm yn cael ei fesur.[436]

**339.** Dywedodd Ymchwilydd y Senedd sy'n cefnogi'r Aelod pe bai'r Bil yn cael ei basio, a bod addysg awyr agored breswyl yn dod yn rhan o'r cwricwlwm, y gallai gael ei chynnwys o fewn cwmpas arolygiadau cyffredinol Estyn. Ychwanegodd pe bai Llywodraeth Cymru yn dymuno gwneud hynny, y gallai gynnwys edrych ar ansawdd addysg awyr agored breswyl yng nghylch gwaith Estyn.[437]

**340.** Pan wnaethom rannu'r awgrym hwn ag Estyn, dywedodd nad yw'n cael cyfle i arsylwi cyrsiau preswyl. Dywedodd y gall eu harolygwyr fynd i ysgol i gynnal arolygiad a bod hanner y plant ar gwrs preswyl. Er nad yw'n arsylwi ar brofiadau preswyl yn uniongyrchol byddant yn eu trafod gydag ysgolion:

> *"… as part of the discussion about the curriculum, what experiences do they offer to their children, how does that fit in with their curriculum, and, very importantly, we ask them those questions around inclusion, how accessible are the experiences that they offer, are they affordable et cetera."*

Ychwanegodd y byddai'n anodd iawn ffurfio unrhyw farn am addysg awyr agored breswyl yr oedd yr ysgol wedi cymryd rhan ynddi yn ystod ymweliadau arolygu ar safle'r ysgol. Yr unig ffordd y gallai edrych arno mewn unrhyw fanylder fyddai ymgymryd â gwaith thematig.[438]

**341.** Cafwyd gair rybudd gan Estyn ynghylch ceisio nodi effeithiau penodol rhannau unigol o'r cwricwlwm, gan ddweud y gall hyn fod yn heriol iawn. Nid yw cydberthynas yn cyfateb i achosiaeth, meddai. Dywedodd fod llais disgyblion yn hynod bwysig o ran gwerthuso'r mathau hyn o brofiadau dysgu. Dywedodd fod barn rhieni a gweithwyr proffesiynol yn bwysig hefyd. Yn y pen draw, man cychwyn ar gyfer monitro a gwerthuso fyddai'r ysgolion eu hunain.[439] Dywedodd

[435] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 150
[436] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[437] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 119
[438] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 170-171
[439] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 183

na ddylai'r dull hwn roi baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion gan y byddant eisoes yn hunanwerthuso, ac yn olrhain sgiliau a datblygiad plant unigol drwy gydol blwyddyn ysgol.[440]

**342.** Ar lefel genedlaethol, dywedodd Estyn ei bod yn fwy heriol monitro canlyniadau. Nodwyd y byddai'n haws canolbwyntio ar bethau fel tegwch ac edrych ar gyfraddau cyfranogi. Er mwyn deall y manteision gwirioneddol byddai angen ymgymryd ag astudiaeth hydredol wedi'i dylunio'n dda.[441] Fe wnaeth ASCL hefyd gwestiynu sut y gellid olrhain canlyniadau.[442]

**343.** Cododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro y mater penodol o fonitro'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan yn y profiadau hyn. Dywedodd fod monitro nodweddion y rhai nad ydynt yn mynd ar deithiau preswyl yn bwysig er mwyn sicrhau nad oes dim gwahaniaeth rhwng gwahanol grwpiau.[443] Roedd Anabledd Dysgu Cymru hefyd yn cefnogi system fonitro gadarn i sicrhau ffynhonnell gyfoethog o ddata er mwyn deall nodweddion y grwpiau hynny sy'n mynychu a'r rhai nad ydynt yn mynychu.[444]

**344.** Dywedodd y Gweinidog y byddai monitro ac adrodd ar ganlyniadau yn feichus ac, yn gyffredinol, y byddai'n anghyson â lefel y rhwymedigaeth mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm.[445]

**345.** Dywedodd tîm yr Aelod sy'n Gyfrifol fod systemau ar waith, a bod gan ganolfannau eu systemau gwerthuso eu hunain. Dywedodd ei Staff Cymorth na fyddai creu fframwaith deilliannau neu system sy'n caniatáu i bobl fewnforio eu data eu hunain yn gam mawr. Dywedodd fod ffyrdd i atal ysgolion rhag gorfod gwneud hynny, ac y gallai ddod o'r sector.[446]

## Ein barn ar weithrediad y Bil a materion ymarferol

**346.** Fel yr ydym wedi'i amlygu, mae nifer o faterion sydd wedi'u hamlygu gan randdeiliaid. Isod rydym yn amlinellu ein barn ar rai o'r materion hynny ac yn gwneud nifer o argymhellion.

[440] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 185
[441] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 186
[442] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 254
[443] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 11, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
[444] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 16, Anabledd Dysgu Cymru
[445] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 238
[446] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 133

## Ein barn ni: Y pwysau y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd

**347.** Fel rhan o'n gwaith ehangach, gan gynnwys ein hymchwiliad hir yn y Senedd i weithredu diwygiadau addysg a chraffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, rydym yn ymwybodol iawn o natur eang a chymhleth y pwysau a wynebir gan awdurdodau lleol, ysgolion staff ysgol. Yn benodol, mae ysgolion, ynghyd â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, yn wynebu un o'r sefyllfaoedd ariannol mwyaf heriol a welwyd erioed. Daw'r pwysau hyn ochr yn ochr â gweithredu diwygiadau pellgyrhaeddol i'r cwricwlwm a'r system ADY. Yn gefndir i hyn mae'r adferiad o'r pandemig. Nid ydym yn diystyru'r heriau a wynebir gan bawb yn y sector ysgolion, yn arbennig, penaethiaid, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth.

**348.** Yn benodol, cyllid y Bil yw un o'r heriau mwyaf enbyd, ac edrychwn ar oblygiadau ariannol y Bil yn y Bennod nesaf.

**349.** Mae hwn yn un o'r meysydd lle y cawsom drafferth dod i gytundeb yn ei gylch. I rai Aelodau roedd hyn yn ffactor a oedd i gyfrif am pam nad oeddent yn dymuno cefnogi'r egwyddorion cyffredinol. Roedd aelodau eraill yn credu y dylid gofyn am ragor o wybodaeth gan yr Aelod sy'n Gyfrifol ynghylch sut yr oedd am sicrhau na fyddai'r Bil hwn yn rhoi mwy o bwysau ar system a gweithlu sydd eisoes dan bwysau.

## Ein barn ni: Capasiti yn y sector

**350.** Rydym yn trafod rhai o'r materion sy'n ymwneud â'r canllawiau a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach yn y Bennod hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r pryderon a godwyd ynghylch capasiti o fewn y sector ar gyfer darpariaeth hygyrch a chynhwysol; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen, rydym yn credu bod angen gwneud mwy o waith i ddeall yn well y capasiti yn y sector yng Nghymru, yn enwedig o ran y mathau hyn o ddarpariaeth.

**351.** . Gwyddom ar hyn o bryd nad oes unrhyw ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, clywsom y gall rhai canolfannau gynnig darpariaeth hygyrch ar gyfer lefel is o anghenion. Byddai'n ddefnyddiol deall yr hyn sydd ar gael, ac i'r wybodaeth hon fod ar gael yn eang i gefnogi ysgolion i drefnu ymweliadau sy'n diwallu anghenion eu holl ddysgwyr.

**352.** Mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae hon yn ddarpariaeth na ellir ond ei darparu o fewn Cymru, ac felly ni allwn ddibynnu ar ddarpariaeth o'r tu allan i Gymru i lenwi bylchau mewn capasiti.

**353.** Bydd gwell dealltwriaeth o gapasiti yng Nghymru yn helpu i gefnogi gweithrediad y Bil os caiff ei basio. Bydd yn nodi meysydd neu fathau o ddarpariaeth lle ceir bylchau, ac yn galluogi'r sector a phartneriaid i geisio datblygu darpariaeth i ddiwallu anghenion pob dysgwr ledled Cymru.

**Argymhelliad 1.** Os caiff y Bil ei basio, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o gapasiti o fewn y sector addysg awyr agored breswyl, y bydd rhaid iddo gynnwys asesiad o gapasiti ar gyfer darpariaeth hygyrch a chynhwysol; a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid cyhoeddi'r adolygiad hwn, a dylid sicrhau bod gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gael i ysgolion i'w helpu i lywio eu gwaith o gynllunio a dylunio profiadau addysg awyr agored breswyl.

## Ein barn ni: Diffinio addysg awyr agored breswyl

**354.** Credwn fod y cydbwysedd yn gywir mewn perthynas â diffinio addysg awyr agored breswyl. Credwn y byddai rhoi diffiniad ar wyneb y Bil yn rhy ragnodol, ac na fyddai'n rhoi digon o hyblygrwydd i'w ddiwygio pe bai angen. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r dull eang o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru sy'n rhoi hyblygrwydd lleol i ysgolion benderfynu sut y mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'u cwricwlwm ehangach. Nodwn fod cyfle hefyd i ddiffiniad fod yn rhan o'r Cod neu'r Canllawiau.

**355.** Yn benodol, nodwn y sylwadau gan UCAC a'r Urdd, ynglŷn â'r posibilrwydd na fyddai rhai o ddarpariaethau'r Urdd megis yr un ym Mae Caerdydd neu Bentre Ifan, yn cydymffurfio â diffiniad caeth. (Gweler paragraffau 235 a 236.) Serch hynny, mae'r canolfannau hyn yn darparu cyfleoedd nad ydynt o reidrwydd ar gael drwy ddarpariaeth arall. Ni fyddem am weld y math hwn o ddarpariaeth yn cael ei ddiystyru oherwydd diffiniad penodol iawn. Felly os bwriedir cynnwys diffiniad yn y Cod neu'r Canllawiau, byddem am i hwn fod yn ddiffiniad eang nad yw'n cyfyngu ar ddarpariaeth fel yr un a gynigir gan yr Urdd neu fathau tebyg o ddarpariaeth.

**356.** Rydym yn deall y galwadau i'r Bil nodi y dylai'r ddarpariaeth gael ei chynnig yng Nghymru. Byddem yn sicr am weld ysgolion yn blaenoriaethu cyfleoedd cyllido o fewn Cymru, sydd hefyd yn eu galluogi i gael profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac amlygiad i ddiwylliant Cymru a "chynefin". Fodd bynnag, rydym yn derbyn efallai na fydd bob amser yn bosibl i ysgolion drefnu darpariaeth yng Nghymru. Nid ydym yn credu y dylai'r Bil gyfyngu ar ysgolion rhag cynnig y ddarpariaeth hon y tu allan i Gymru, os yw hynny'n well ar gyfer anghenion unigol eu hysgol neu oherwydd nad ydynt yn gallu sicrhau darpariaeth briodol yng Nghymru. Mae hefyd yn amlwg nad oes digon o gapasiti o fewn y sector ar hyn o

bryd i gefnogi pob ysgol i fodloni gofynion y Bil hwn o fewn Cymru. Mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn newid gydag amser, ac mae'n bosibl y gellid ailystyried hyn yn ddiweddarach.

**357.** Ni fyddem am fod mewn sefyllfa lle nad oedd ysgolion yn gallu bodloni eu dyletswydd statudol am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth eu hunain, megis methu â sicrhau darpariaeth yng Nghymru mewn ffordd ac ar amser sy'n addas i'w disgyblion. Rydym hefyd yn pryderu, drwy nodi bod yn rhaid i'r ddarpariaeth fod yng Nghymru, y gallai hyn arwain at ganlyniad anfwriadol o godi prisiau, gan y byddai'r galw (o leiaf ym mlynyddoedd cynnar gweithredu'r Bil) yn llawer uwch na'r cyflenwad. Gallai hyn arwain at chwyddiant mewn prisiau, gan wneud costau'r Bil yn ddrytach i Lywodraeth Cymru. Nid yw Heledd Fychan AS yn cefnogi'r casgliadau ym mharagraffau 356 a 357 ac mae'n credu y dylid diwygio'r Bil i nodi bod yn rhaid i'r ddarpariaeth fod yng Nghymru, ar y sail y dylai arian cyhoeddus Cymru gael ei wario yng Nghymru.

## Ein barn ni: Cymhwystra ar gyfer hawl i'r ddarpariaeth

**358.** Er ein bod yn cydnabod rhai o'r materion ymarferol o ran sut y gellir cynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol o fewn cymhwystra'r Bil, rydym yn cytuno â'r holl randdeiliaid a fynegodd bryderon ynghylch y bwlch posibl hwn yn y Bil. Noda'r Memorandwm Esboniadol yn glir iawn mai mater sy'n gysylltiedig â chyfiawnder cymdeithasol yw'r annhegwch presennol o ran cyfleoedd, a dyma un o'r rhesymau sylfaenol dros gyflwyno'r Bil hwn. Rydym yn cytuno, ac yn meddwl ei bod yn bwysig bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl. Heb yr ehangu hwn, nid yw'r Bil yn cynnig y ddarpariaeth gyffredinol y mae'n anelu at ei chynnig.

**359.** Clywsom efallai mai'r plant a'r bobl ifanc hynny mewn addysg heblaw yn yr ysgol yw'r garfan o ddisgyblion a allai elwa fwyaf ar y profiadau ehangach a gynigir yn ystod addysg awyr agored breswyl. Rydym yn cydnabod bod yr Aelod sy'n Gyfrifol wedi ystyried hyn drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil, ond credwn ei bod yn bwysig bod y Bil, os caiff ei basio, yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod disgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol yn gymwys ar gyfer yr hawl. Rydym hefyd yn nodi barn y Comisiynydd Plant y dylid datgymhwyso'r cwricwlwm ar gyfer y rhai mewn addysg heblaw yn yr ysgol fesul achos, yn hytrach na rhagdybiaeth y bydd y cwricwlwm yn cael ei ddatgymhwyso ar gyfer pob disgybl sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu'r meini prawf cymhwystra i gynnwys disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol.

## Ein barn ni: Hyd profiad addysg awyr agored breswyl

**360.** Roedd thema glir yn yr holl dystiolaeth a gasglwyd gennym ar y mater hwn, sef y dylai penderfyniadau ar hyd addysg awyr agored breswyl fod yn seiliedig ar anghenion ysgolion unigol a charfannau o fyfyrwyr, gan ystyried anghenion penodol dysgwyr unigol. Felly, nid ydym yn credu y dylai'r Bil ragnodi hyd addysg awyr agored breswyl. Nodwn fod y Bil ar hyn o bryd yn nodi y gall y cwrs ddigwydd yn ystod un ymweliad neu ymestyn dros fwy nag un ymweliad, ond hyd yn oed wedyn, credwn ei fod yn rhy ragnodol. I rai plant a phobl ifanc, gall un ymweliad dros nos fod yn ddigon neu'n fwy ffafriol iddynt. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â'r materion yr ydym yn ymdrin â hwy mewn rhan arall o'r bennod hon ar natur orfodol y ddarpariaeth.

**361.** Credwn y byddai'n fwy priodol cynnwys y lefel hon o fanylder yn y canllawiau a fyddai'n dilyn, ac a fyddai'n galluogi ysgolion i wneud penderfyniadau sy'n gweddu orau i anghenion eu hysgol unigol. Rydym hefyd yn nodi y gallai rhagnodi hyd penodol ar gyfer arosiadau gael effaith ar argaeledd y ddarpariaeth, yn enwedig darpariaeth yng Nghymru, neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn broblem benodol ym mlynyddoedd cynnar rhoi'r Bil ar waith pan fydd angen datblygu capasiti'r sector ymhellach i gyflawni'r Bil hwn.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r ddarpariaeth y dylai addysg awyr agored breswyl gynnwys pedair noson a phum diwrnod er mwyn sicrhau bod mwy o hyblygrwydd o ran hyd profiad addysg awyr agored breswyl sy'n gysylltiedig ag anghenion plant ac ysgolion unigol.

## Ein barn ni: Y canllawiau

**362.** Mae'n ymddangos mai'r hyn sydd wrth wraidd y materion sy'n ymwneud â'r canllawiau yw'r ffaith bod y ddarpariaeth ar gyfer canllawiau a nodir yn y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio canllawiau sy'n gwrthdaro ag effaith gyfreithiol y Bil (mewn perthynas ag elfen orfodol addysg awyr agored breswyl). Gwnawn sylwadau ar hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

**363.** Ar fater gwahanol, hoffem weld y canllawiau'n cwmpasu maes ychwanegol. Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 173, rydym wedi clywed am achosion o fethu â bodloni gofynion deietegol sylfaenol plentyn, a oedd yn golygu nad oedd

yn bwyta prydau yn ystod ei gyfnod preswyl. Yn yr achos hwn, y rheswm am hynny oedd y ffaith na ddarparwyd cig halal, ond gallai gofynion deietegol rychwantu ystod o wahanol fathau o ofynion, ac mae'n hollbwysig bod darparwyr yn diwallu anghenion yr holl blant sy'n dod i'w canolfannau. Credwn fod hyn yn fater sy'n ddigon pwysig i'w gynnwys yn y canllawiau.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ei bod yn rhaid i'r canllawiau nodi y darperir ar gyfer gofynion deietegol pob plentyn.

### Ein barn ni: Oedran neu flwyddyn ysgol

**364.** Mae amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch a oes oedran delfrydol i blentyn gael profiad o addysg awyr agored breswyl, ac yna pryd y gallai hynny fod. Ar sail y wybodaeth a gawsom, nid ydym yn teimlo y gallwn ddod i benderfyniad er mwyn ateb yr un o'r cwestiynau hyn. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn iawn nad yw'r Bil yn nodi'r oedran na'r flwyddyn ysgol ar wyneb y Bil, gan ein bod yn credu y byddai hyn yn rhy ragnodol, ac yn ormod o fanylion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol.

**365.** Nodwn hefyd y gallai Bil sy'n rhy ragnodol arwain at ganlyniadau anfwriadol, yn yr ystyr y byddai rhai plant yn colli'r cyfle oherwydd ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'n amlwg bod rhai materion ymarferol y mae angen eu hystyried ymhellach o ran gweithredu'r Bil, a byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru, wrth lunio'r canllawiau, gynnal ymgynghoriad pellach i ddeall sut y gellir ymdrin â'r rhain. Byddai un o'r materion hynny yn ymwneud â sicrhau bod cyllid yn dilyn plentyn, fel nad yw'r rhai a allai newid ysgol yn colli cyfle. Nodwn y gallai rhai grwpiau o blant fod yn fwy tebygol o newid ysgol yn rheolaidd, ac ni fyddem am weld grwpiau penodol o blant na fyddent yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

### Ein barn ni: Natur orfodol y ddarpariaeth

**366.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, ac o'n cyngor cyfreithiol ni ein hunain, bod y Bil hwn yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Os mai'r bwriad oedd gwneud y ddarpariaeth yn ddewisol, dylai'r Bil fod wedi'i ddrafftio i'r perwyl hwnnw.

**367.** Fodd bynnag, mae hefyd yn amlwg o dystiolaeth yr Aelod sy'n Gyfrifol nad yw'n bwriadu i unrhyw blentyn gael ei orfodi i fynychu addysg awyr agored breswyl. Credwn fod angen rhoi'r bwriad hwn ar wyneb y Bil er eglurder.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil nad yw'n orfodol i blant gymryd rhan yn y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl a gynigir o dan y Bil hwn.

**368.** Fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, os na fydd plant eisiau mynychu bydd angen iddynt optio allan. O'r dystiolaeth a glywsom mae'n amlwg mai'r bwriad yw defnyddio adran 42 o Ddeddf 2021 i greu dull o optio allan. Disgrifiodd y Gweinidog hyn fel erfyn di-awch gan godi pryderon am ganlyniadau anfwriadol posibl pe na bai'r broses hon yn cael ei dilyn ac nad oedd plentyn yn mynychu. Mewn ymateb i hynny esboniodd yr Aelod sy'n Gyfrifol y teimlwyd y byddai dilyn y broses a amlinellir eisoes yn Neddf 2021 yn llai tebygol o arwain at gymhlethdodau na chreu system newydd i optio allan o un elfen o'r cwricwlwm.

## Ein barn ni: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**369.** Nodwn y materion yr ydym wedi manylu arnynt yn flaenorol yn y Bennod hon ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er nad oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, gallai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei basio, roi cyfle i ddatblygu ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Byddem yn disgwyl, fel rhan o'r broses o roi'r Bil ar waith, pe bai'n cael ei basio, i ragor o waith gael ei wneud yn y maes hwn, ac i Lywodraeth Cymru chwarae rhan yn y gwaith o annog ehangu'r ddarpariaeth. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi ein darbwyllo gan y dadleuon a wnaed gan randdeiliaid bod angen cryfhau'r darpariaethau o ran gweithgaredd cyfrwng Cymraeg, a'u cysoni â'r dull addysgu sydd gennym yng Nghymru, sef y gall pobl ddewis cael eu haddysgu yn eu dewis iaith.

**370.** Rydym wedi cael ein hargyhoeddi gan dystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg, ac yn credu y dylai'r gwelliannau a gynigir gael eu gwneud i'r Bil.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i welliannau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn sicrhau:

- bod digon o ddarpariaeth Gymraeg;
- bod darpariaeth addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn ddysgu a chael profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- bod yn rhaid i addysg awyr agored breswyl hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Ein barn ni: Trwyddedu darparwyr

**371.** Cawsom dystiolaeth a oedd yn amlinellu'r gofynion statudol y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg awyr agored breswyl gydymffurfio â hwy; ochr yn ochr â'r rhain mae amrywiaeth o gynlluniau gwirfoddol y mae llawer o ganolfannau wedi ymrwymo iddynt. O ystyried y dystiolaeth hon, rydym wedi cael sicrwydd mai'r dull a fabwysiedir yn y Bil i beidio â'i gwneud yn ofynnol cael cynlluniau trwyddedu newydd ar gyfer y math penodol hwn o ddarpariaeth yw'r un cywir.

## Ein barn ni: Olrhain y ddarpariaeth a monitro'r canlyniadau

**372.** Credwn fod angen mwy o wybodaeth am sut y byddai olrhain y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol. Yn benodol, beth sy'n digwydd yn yr achosion hynny lle mae plentyn yn symud i ysgol newydd, ac yn colli cyfle, sut y gellir olrhain hyn, a pha gamau y gellid eu cymryd i sicrhau nad yw'r plentyn yn colli ei hawl.

**373.** Nodwn y dystiolaeth gan yr undebau, a CCAC, a ddywedodd nad oes gan ysgolion nac awdurdodau lleol y capasiti i ymgymryd ag unrhyw waith monitro ychwanegol. Nodwn fod hyn yn gwrth-ddweud y dystiolaeth a gawsom gan yr Aelod sy'n Gyfrifol a nododd y dylai fod yn weddol syml ychwanegu maes arall at y system rheoli gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli. Roedd gennym farn gymysg ynghylch pa mor syml y gallai hyn fod.

**Argymhelliad 7.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu manylion am sut y mae'n rhagweld y bydd olrhain y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol.

# 6. Goblygiadau ariannol y Bil

Wrth wraidd y pryderon ynglŷn ag egwyddorion cyffredinol y Bil mae'r modd y bydd yn cael ei ariannu, ac a yw'n fforddiadwy ar hyn o bryd ai peidio.

**374.** Rydym eisoes wedi edrych ar y materion sy'n ymwneud â rhwystrau ariannol sy'n atal plant rhag manteisio ar gyfleoedd ym Mhennod 4. Rydym wedi trafod yr agweddau'n ymwneud â sut y gellid ymdrin â'r costau ychwanegol yr eir iddynt gan deuluoedd yn y bennod honno. Nid ydym wedi craffu'n fanwl ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan mai rôl y Pwyllgor Cyllid yw honno. Fodd bynnag, gan fod ariannu'r Bil yn rhan allweddol o'r cynigion deddfwriaethol, rydym wedi ystyried yr elfen hon o'r Bil. Un o'r cwestiynau allweddol sydd wrth wraidd y Bil hwn yw a ddylai Llywodraeth Cymru gael ei hymrwyo'n ariannol o fewn deddfwriaeth.

## Ariannu'r Bil

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**375.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol) yn amcangyfrif y byddai cyfanswm cost y Bil dros y pum mlynedd gyntaf rhwng £74 miliwn a £96 miliwn. Byddai costau blynyddol cyfartalog y Bil rhwng £15 miliwn ac £19 miliwn.[447]

**376.** Noda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod y costau yn seiliedig ar "bob disgybl yn manteisio ar y cynnig i fynychu profiad addysg awyr agored breswyl o ganlyniad i'r Bil."[448]

**377.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cyfeirio at dystiolaeth mewn perthynas â'r manteision economaidd posibl a'r effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus. Noda fod "astudiaethau wedi dangos adenillion cymdeithasol o fuddsoddi cadarnhaol, y gellir eu mesur, o ran profiadau dysgu awyr agored." Cyfeiria at nifer o wahanol ddarnau o ymchwil sy'n nodi ystod o effeithiau economaidd gwahanol addysg a gweithgaredd awyr agored. Noda hefyd y gall

[447] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 208-209, 24 Tachwedd 2023
[448] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraff 235, 24 Tachwedd 2023

profiadau awyr agored a chyswllt â'r awyr agored arwain at well iechyd meddyliol a chorfforol.[449]

**378.** Adleisiodd y Sefydliad Dysgu Awyr Agored;[450] a'r Cerddwyr[451] yr enghreifftiau a'r astudiaethau hyn.

**379.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn darparu amcangyfrif o'r costau ar gyfer plant ag "anawsterau dysgu difrifol". Dywed fod yr amcangyfrifon "yn tybio bod costau darparwyr" ar gyfer y ddarpariaeth hon "tua dwbl y costau a godir ar gyfer disgyblion nad oes angen cymorth ychwanegol arnynt." Dywed y bydd yna hefyd ddisgyblion ag anableddau nad ydynt wedi'u categoreiddio fel rhai a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol, ond "tybir y byddai'r darparwr yn amsugno'r costau posibl sy'n deillio o ddarparu'r cymorth angenrheidiol os oes ganddo'r gallu i wneud hynny."[452]

**380.** Ochr yn ochr â'r Aelod sy'n Gyfrifol, roedd rhanddeiliaid eraill hefyd yn cefnogi'r gwariant ariannol wrth roi'r Bil ar waith. Cydnabu'r Sefydliad Dysgu Awyr Agored fod cost y Bil yn amlwg yn wariant sylweddol ond roedd yn credu y byddai'n ddefnydd da o arian ac y byddai'r buddsoddiad yn dod â manteision sylweddol i blant ac i economi ehangach Cymru.[453]

## Buddsoddi mewn addysg awyr agored breswyl

**381.** Dywedodd y Gymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored ei fod yn fater o flaenoriaethu'r modd yr ydym yn gwario arian fel cenedl a'r hyn a wnawn gydag ef. Roedd yn teimlo ei fod yn gyfle da i ddangos bod addysg awyr agored breswyl a'i manteision yn cael eu gwerthfawrogi.[454]

**382.** Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, er nad oedd yn elfen sylweddol o'r gyllideb gyffredinol, yn yr hinsawdd ariannol bresennol gellid ei hystyried felly. Er iddo ddweud, fel ymyriad ataliol, y gallai gael ei ad-dalu o bosibl, byddai angen monitro hyn yn helaeth. Dywedodd fod angen mwy o ymchwil

[449] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 213-224, 24 Tachwedd 2023
[450] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraffau 8-12
[451] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 22, Y Cerddwyr
[452] Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol, paragraffau 279-286, 24 Tachwedd 2023
[453] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 1, Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored, paragraff 6
[454] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 263

manwl ar hyn cyn y gallent ffurfio barn ynghylch a fyddai cost a budd pendant i'r Bil.[455]

**383.** Tynnodd y sector sylw at y manteision a fyddai'n deillio o gynnydd yn y galw. Dywedodd PGL Travel y byddai hyd y tymor a chyfraddau meddiannu yn debygol o gynyddu. Byddai hyn, meddai, yn golygu y gallai darparwyr weithredu'n fwy effeithlon, lleihau costau a allai helpu wedyn i ysgwyddo costau cyffredinol y Bil.[456] Dywedodd y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored hefyd y byddai'r Bil yn helpu i gyfrannu at gynaliadwyedd y sector.[457]

**384.** Er i'r Gynghrair Cefn Gwlad ddweud nad yw'r Bil yn nodi bod yn rhaid i'r ddarpariaeth fod yng Nghymru, dywedodd, o ran Cymru:

> *"… its attractiveness to external audiences strongly suggests that the domestic sector would benefit greatly. It would in turn stimulate sectoral growth, further confirming Wales as a destination of choice for outdoor education and increasing revenues of both public and private funds into the Welsh rural economy."*[458]

## Pwysau ar gyllidebau

**385.** Clywsom bryderon am faint o arian y byddai'r Bil yn ei gostio, a sut y gallai hynny o bosibl effeithio ar gyllideb addysg Llywodraeth Cymru, a chyllidebau ysgolion unigol yn sgil hynny. Roedd yr undebau addysg yn arbennig o bryderus am yr elfen hon o'r Bil, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni.

**386.** Cydnabu'r Comisiynydd Plant y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol ac ysgolion, ond oherwydd bod y pwysau hyn yn golygu na fydd gweithgareddau o'r fath yn cael eu blaenoriaethu teimlwyd bod hyn yn rheswm dros wneud y ddarpariaeth yn hawl statudol. Fodd bynnag, ychwanegodd y byddai'n rhaid i ysgolion gael eu "hariannu'n briodol" er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth.[459]

**387.** Roedd gan UCAC "wir" bryder y byddai'r cyllid ar gyfer y Bil hwn yn cael ei dynnu o "gyllidebau craidd ysgolion". Tynnodd sylw at y ffaith fod cyllidebau ysgolion yn "dynn" ar hyn o bryd gydag ysgolion yn cael anhawster ariannu'r

---

[455] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ROE 20, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru)
[456] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 14, PGL Travel
[457] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 03, Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP)
[458] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 10, Y Gynghrair Cefn Gwlad (Cymru), paragraff 4
[459] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 15, Comisiynydd Plant Cymru

ddarpariaeth bresennol, a bod "gwir berygl" y gallai arwain at ysgolion yn colli staff.[460]

**388.** Roedd hon yn farn a rannwyd gan NAHT, a ddywedodd ei bod yn pryderu sut effaith y byddai costau uniongyrchol ac anuniongyrchol y Bil yn ei chael ar y galwadau niferus sy'n cystadlu am gyllideb gyfyngedig yn ysgolion Cymru. Dywedodd y byddai goblygiadau sylweddol o ran cost ac y byddai'n rhaid i'r cyllid ddod o arbedion ar wasanaethau cyhoeddus (amhenodol) eraill. Dywedodd hefyd, heb gronfa benodol o arian newydd wedi'i neilltuo y byddai'n draenio adnoddau o ystafelloedd dosbarth yn ogystal â lleihau gallu ysgolion i dalu am staff, cyfarpar ac adnoddau. Awgrymodd hefyd na fyddai rhai plant yn dymuno manteisio ar y ddarpariaeth hon ac efallai nad dyma'r defnydd gorau o gyllid cyfyngedig, felly byddai gwneud y ddarpariaeth yn ofynnol yn wastraffus.[461] Dywedodd fod angen i unrhyw arian o fewn y gyllideb addysg gael ei flaenoriaethu tuag at yr hyn y mae arweinwyr ysgolion ac athrawon yn ei gredu y byddai o'r budd mwyaf i ddysgwyr ac i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen.[462]

**389.** Dywedodd NAHT, ar sail cyfrifiad bras, y byddai costau blynyddol y Bil yn cyfateb i tua 450 o athrawon amser llawn ar gyflog cyfartalog athro gan ddweud y byddai'n well ganddi weld yr arian hwnnw'n cael ei wario ar addysgu a dysgu rheng flaen.[463] Roedd UCAC yn cytuno gan ddweud y byddai hyn yn golygu na fyddai miliynau o bunnoedd yn cael eu gwario ar "athrawon a staff cymhwysol ar lawr y dosbarth."[464]

**390.** Galwodd NEU am i unrhyw gostau ychwanegol sy'n ymwneud â gweithredu'r Bil gael eu talu gan y llywodraeth a ddylai wedyn gael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol mewn cyllid grant penodol / neilltuedig oherwydd ni all cyllidebau ysgolion presennol dalu'r costau hyn.[465]

**391.** Dywedodd CLILC y byddai angen i'r Bil "gael ei ariannu'n llawn ar adeg ei sefydlu a hefyd caniatáu ar gyfer costau uwch posibl yn y dyfodol…".[466]

**392.** Nid dim ond yr undebau addysg a gododd yr heriau presennol ar draws y sector cyhoeddus cyfan, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru;[467] a Chwaraeon Cymru

---

460 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraffau 4.1 a 4.5
461 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
462 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 189
463 CY Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 210
464 Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 301
465 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 08, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)
466 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 23, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
467 Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 18, Iechyd Cyhoeddus Cymru

hefyd yn cyfeirio at hyn. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod angen ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, a galwodd am "[d]rafodaeth ehangach" ynghylch modelau cyflawni a'r effaith ariannol y gallai modelau gwahanol ei chael.[468]

**393.** Dywedodd CCAC fod risg sylweddol na fyddai'r costau a amlinellwyd yn ddigonol i gyflawni'r amcanion. Dywedodd hefyd fod pryderon y byddai costau cynyddol fel chwyddiant, neu ddyfarniadau cyflog yn arwain at gynyddu costau. Tynnodd sylw at y pwysau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth osod cyllidebau cytbwys, sydd yn anochel yn arwain at doriadau i wasanaethau addysg craidd a chyllidebau dirprwyedig ysgolion. Dywedodd ei bod yn rhaid i'r cyllid fod yn ganolog gan na all ysgolion ac awdurdodau lleol ysgwyddo unrhyw gost ychwanegol a fyddai'n deillio o'r Bil. Yna codwyd pryderon ynghylch o ble y byddai Llywodraeth Cymru yn dod o hyd i'r arian ac o ble y byddai'r arbedion yn dod i ariannu'r ddarpariaeth hon.[469]

**394.** Roedd CLlLC yn cytuno â hyn gan ddweud er na all awdurdodau lleol ariannu'r ddarpariaeth hon, y byddai hefyd yn hollol annheg trosglwyddo'r gost i ysgolion. Dywedodd fod ysgolion eisoes yn ei chael hi'n anodd, ac y byddent yn parhau i gael trafferth wrth iddyn nhw bennu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.[470]

## Darpariaeth arbenigol

**395.** Darpariaeth arbenigol yw darpariaeth ar gyfer y plant hynny ag anghenion cymhleth mwy difrifol. Dywedodd Bendrigg ei bod yn anodd dod o hyd i gymariaethau ar gyfer darpariaeth arbenigol, ond bod ffioedd ar gyfer y ddarpariaeth hon yn sylweddol uwch ac mae'n rhagdybiaeth deg y bydd y gost tua dwbl cost[471] y ddarpariaeth arferol, barn a gefnogir gan Calvert Exmoor.[472] Nid yw Bendrigg na Calvert Exmoor yn trosglwyddo'r gost lawn hon i ysgolion gan y byddai'n anfforddiadwy i bobl sy'n dymuno manteisio ar y ddarpariaeth.[473]

**396.** Mae'r rhesymau dros y cynnydd mewn costau yn cynnwys cymarebau uwch o ran staff hyfforddi, cyfarpar a seilwaith arbenigol a chostau gweinyddol uwch. Dywedodd Bendrigg nad yw'n gyd-ddigwyddiad bod gan bob darparwr arbenigol

[468] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 19, Chwaraeon Cymru
[469] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 92-94
[470] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 97
[471] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[472] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
[473] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg

statws elusennol a bod angen cyllid ychwanegol arno i lenwi'r bwlch rhwng costau a'r ffioedd a godir.[474]

**397.** Tynnodd Bendrigg sylw hefyd at gostau ychwanegol yn deillio o ofalwyr sy'n dod gyda phlant anabl oherwydd yr angen i ddarparu llety ar gyfer y gofalwr. Dywedodd y gallai fod angen mwy nag un gweithiwr cymorth ar y rhai ag anghenion cymhleth, ond pan fydd grwpiau, weithiau bydd gweithiwr cymorth yn cael ei rannu ac mae'r gofal y pen yn lleihau.[475]

**398.** Roedd Calvert Exmoor hefyd yn adleisio barn Bendrigg, gan ddweud nad yw ei gyfleusterau arbenigol yn fasnachol gynaliadwy am yr un rhesymau a amlygwyd gan Bendrigg. Dywedodd y bydd angen buddsoddi mewn darpariaeth hygyrch a chynhwysol yng Nghymru, a darparu cymhorthdal ar gyfer hynny.[476]

## Ariannu'r Bil

**399.** Cost ariannol y Bil yw un o'r rhesymau pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil. Dywedodd y bydd yn "rhoi pwysau ychwanegol sylweddol a diangen ar gyllidebau ysgolion yn genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol ac ysgolion … yn ein barn ni … ni ellir fforddio'r Bil ar hyn o bryd."[477]

**400.** Amlinellodd heriau'r hinsawdd ariannol bresennol, gan ddisgrifio'r gyllideb ddrafft ddiweddar ar gyfer 2024-25 fel yr un "fwyaf anodd ers datganoli …". Dywedodd ei bod, o fewn y portffolio Addysg a'r Gymraeg, wedi "ailflaenoriaethu cyllid er mwyn inni allu diogelu cyllid ysgolion cymaint â phosibl." Ond nododd nad yw wedi gallu gwneud popeth y byddai'n ei ddymuno.[478]

**401.** Ynghyd â chost y Bil, dywedodd ei bod, yn ystod y gyllideb ddiweddaraf, wedi cynnig symleiddio'r cyllid i awdurdodau lleol ac ysgolion er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y maent yn defnyddio eu cyllid. Dywed fod y dull a amlinellir yn y Bil o ddarparu "cyllid wedi'i dargedu, penodol iawn yn mynd yn groes i'n hegwyddorion a'n dull o roi mwy o hyblygrwydd o ran y defnydd a wneir o gyllid grant."[479] Disgrifiodd y Gweinidog hyn fel rhywbeth sy'n mynd yn gwbl groes i ddull gweithredu presennol Llywodraeth Cymru.[480]

[474] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[475] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 17, Bendrigg
[476] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 25, Calvert Exmoor
[477] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 7.19
[478] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraffau 7.2 - 7.3
[479] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 7.4
[480] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 243

**402.** Dywed Llywodraeth Chymru fod "dyletswydd statudol absoliwt" y Bil yn golygu y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ariannu "cost gyfan beth bynnag sy'n cael ei ddarparu." Dywed, er ei bod yn cydymdeimlo â'r egwyddorion "nid yw'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y Bil yn fforddiadwy" a bydd blaenoriaethu cyllid ar gyfer y ddarpariaeth hon "yn golygu bod llai o gyllid mewn meysydd eraill â blaenoriaeth yn y sector addysg, megis cyllidebau ysgolion."[481]

**403.** Er ei bod yn nodi bod y costau "yn cyd-fynd, fwy neu lai" â'i hamcangyfrifon, noda fod y costau'n annhebygol o leihau dros y cyfnod o bum mlynedd, fel y dangosir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, oherwydd y cyfraddau chwyddiant presennol. Ychwanega hefyd fod risg "na fydd yn bosibl fforddio'r costau" yn y dyfodol. Dywed hefyd fod "risg yn gysylltiedig ag ymrwymo i gostau rhagamcanol heb gyllidebau dangosol [ar ôl mis Mai 2025]."[482]

**404.** Dywedodd ei bod yn ymwybodol o'r "pwysau sylweddol" ar gyllidebau ysgolion, a bod "ysgolion yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn." Tynnodd sylw hefyd at y ffaith nad yw'n ariannu ysgolion yn uniongyrchol, ac mai mater i awdurdodau lleol yw hynny, yn seiliedig ar fformiwla ariannu leol.[483]

**405.** Yn ôl y Gweinidog, byddai gwneud un rhan o'r cwricwlwm yn ofyniad statudol penodol yn tynnu sylw ac adnoddau, ar lefel ysgol, oddi wrth gynllunio set o brofiadau parhaus.[484]

**406.** Dywedodd y Gweinidog mai costau'r Bil oedd wrth wraidd ei bryderon ynghylch y cynigion. Dywedodd fod y Bil i bob pwrpas yn rhoi lefel o flaenoriaeth i'r elfen gyllido hon nad yw'n cael ei hefelychu ar draws gofynion ariannu eraill. Fe'i disgrifiodd fel dyrchafu un elfen o'r cwricwlwm uwchlaw'r lleill. Derbyniodd y byddai awdurdodau lleol yn disgwyl i hyn gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ond dywedodd gyda'r pwysau ariannol eraill o fewn y system ar hyn o bryd, y byddai am gyfeirio cost y Bil hwn at ofynion eraill a ddylai gael y cyllid hwnnw gyntaf. Dywedodd y byddai'n heriol iawn iddo ddadlau'r achos dros flaenoriaethau addysg awyr agored breswyl ar gyfer cyllid ychwanegol.[485]

**407.** Roedd yn derbyn bod risg efallai na fydd y math hwn o ddarpariaeth yn cael ei ariannu cystal ag y bu yn y gorffennol, ond bod y math hwn o risg i'w weld

[481] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraffau 7.5-7.6
[482] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraffau 7.7 - 7.8
[483] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraffau 7.10-7.12
[484] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 199
[485] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 240-241

mewn meysydd eraill hefyd. Roedd yn ansicr ai'r ateb oedd neilltuo elfen benodol o'r gyllideb.[486]

**408.** Roedd yr Aelod sy'n Gyfrifol yn derbyn bod sut y bydd y Bil yn cael ei ariannu'n gwestiwn heriol, ond dywedodd fod y Llywodraeth yn dod o hyd i arian ar gyfer pethau y mae'n meddwl eu bod yn bwysig ac yn flaenoriaeth. Dywedodd nad oedd y costau'n sylweddol iawn yng nghyd-destun cyllideb £22 biliwn Llywodraeth Cymru. Galwodd y cynigion yn y Bil fel ysgogiad gwych a all wneud gwahaniaeth i ddysgwyr ac ysgolion, o fewn diwydiant a sector sydd eisoes yn bodoli.[487]

**409.** Cyfeiriodd at effaith drawsadrannol, traws-gyllidebol y cynigion, gan amlygu'r wybodaeth am elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn y Memorandwm Esboniadol. Tynnodd sylw hefyd at gost ddynol y pwysau yn sgil iechyd meddwl, a'r costau cysylltiedig i bwrs y wlad.[488]

**410.** Pwysleisiodd wrthym nad yw'n gweld unrhyw reidrwydd i'r cyllid ar gyfer y Bil ddod o'r gyllideb Addysg a'r Gymraeg. Dywedodd, er bod y Gweinidog yn parhau i haeru y byddai'n rhaid i hynny ddigwydd, nad oedd angen am hynny o gwbl ac y gallai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i'r cyllid o bob math o wahanol gronfeydd. Cyfeiriodd fel enghraifft debyg, at y cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim, lle y mae Llywodraeth Cymru wedi dod o hyd i gyllid o rywle arall i alluogi i hynny ddigwydd.[489]

**411.** Dywedodd fod y Bil yn cael effaith ar ystod eang o feysydd heblaw addysg, y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol, chwaraeon, hamdden a'r newid yn yr hinsawdd. Dywedodd nad oedd unrhyw reswm pam na all adrannau gweinidogol gwahanol ddod at ei gilydd i ddeall sut y gallant gyfrannu at hyn. Yn y pen draw, meddai, ddewis gwleidyddol yw p'un a fydd y cynnig hwn yn cael ei ariannu, ac yna sut y mae'n cael ei ariannu.[490]

**412.** Gofynnwyd am farn yr Aelod sy'n Gyfrifol ynghylch a fyddai'n ystyried datgysylltu'r cyllid oddi wrth natur orfodol y ddarpariaeth (e.e. dileu'r gofynion yn y Bil i'r ddarpariaeth gael ei hariannu). Dywedodd y byddai'n ystyried hynny, ond:

---

[486] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 244
[487] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 135-137
[488] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 138 a 143
[489] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 9
[490] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 138-139

> *"… fundamentally, for me, these two things work hand in hand. The delivery of residential outdoor education on the curriculum clearly can't happen without the funding to back that up. And the reason I put the funding-specific part within this was to help protect existing school budgets, because I recognise they are under pressure and will always be under pressure. This is about putting additional money into schools and education to enable this to happen. Now, there are all sorts of creative ways that a Welsh Government Minister could do that, but I do think it's important that these two elements, as has been described by the Minister, are seen as one and of the same to a certain extent. …"*[491]

## Costau ychwanegol i ysgolion gan gynnwys costau staffio

**413.** Clywsom fod cyrsiau preswyl yn cael eu rhedeg yn bennaf gan staff sy'n gwirfoddoli drwy ewyllys da ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym, os daw addysg awyr agored breswyl yn orfodol, y gallai hyn olygu bod angen talu goramser i staff (a fyddai'n cynyddu cost y Bil).

**414.** Cododd yr undebau addysg bryderon ynghylch ariannu a thalu costau athrawon cyflenwi. Dywedodd UCAC fod angen ystyried yr angen i ddod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer y rhai a fydd yn mynychu'r cwrs preswyl.[492] Dywedodd NAHT fod goblygiadau sylweddol o ran cost mewn perthynas â staff addysgu, gan amlygu'r cyfuniad o gostau yn sgil gorfod darparu staff i fynd ar gyrsiau addysg awyr agored breswyl ynghyd â gorfod sicrhau athrawon cyflenwi ar gyfer plant nad ydynt ar gyrsiau preswyl.[493]

**415.** Roedd gan NAHT bryderon am yr amcangyfrifon o'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ond yn arbennig felly y rhai'n ymwneud â chostau staff cyflenwi. Dywedodd ei bod yn anodd cyfrifo'r rhain pan nad yw'n hysbys faint o gymorth sydd ei angen, oherwydd bydd hynny'n wahanol ar gyfer pob taith ac ysgol unigol. Dywedodd hefyd y gall fod yn anodd cael athrawon cyflenwi.[494]

[491] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[492] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 05, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, paragraff 4.2
[493] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 06, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
[494] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 210

**416.** Codwyd costau goramser hefyd gan yr undebau addysg. Dywedodd UCAC, os daw'r ddarpariaeth yn hawl statudol, nad yw'r Bil yn ystyried goramser posibl nac oriau dan gyfarwyddyd.

> *"Very soon, by going on a residential, teachers will have put in 48 hours, 60 hours, of work, over and above what would happen in the classroom. Now, that's not to say that teachers would not do this. Two thirds of all primary school and half of all secondary school teachers volunteer to do the very things that are very important to the development of their students and their pupils. However, if legislation is put in place, how are we going to ensure that teachers are given a voice in this? And to get volunteers to go away is one thing—are we getting the correct teachers going away? So, it's a concern of mine, and, as far as the financials are concerned, that would perhaps double or treble the financials being dealt with here. We're in constant discussion about teacher pay and making sure that it's a profession that appeals to people. Well, we've got an issue, then, if we're looking at asking teachers—or telling teachers, 'You must go on a residential.'"*[495]

**417.** Cododd NASUWT gostau cudd posibl eraill nad ydynt wedi'u cynnwys, megis amser athrawon ar gyfer datblygu a chofnodi deilliannau dysgu, datblygu gwersi a chysylltiadau â'r cwricwlwm.[496]

**418.** Cododd Llywodraeth Cymru bryderon hefyd nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cwmpasu goblygiadau'r Bil i gyflogau:

> *"... o ran y newidiadau y mae'n debygol y bydd angen eu gwneud i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, sy'n darparu ar gyfer y nifer uchaf o oriau a weithir yn y flwyddyn a phryd y gellir gofyn i athro weithio oriau ychwanegol. Byddai goruchwylio disgyblion ar wythnos breswyl y tu allan i amseroedd sesiynau ysgol arferol ac, ar hyn o bryd, rydym yn tybio bod ysgolion yn rheoli hyn drwy ofyn am wirfoddolwyr o blith y staff addysgu. Hefyd, mae terfynau penodol ar gyfer yr athrawon hynny sy'n gweithio'n rhan-amser. Petai taith breswyl yn cael ei gwneud yn orfodol, mae'n debygol y byddai angen*

---

[495] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 342
[496] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 348-349

> *diwygio Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol er mwyn adlewyrchu hynny gan y bydd angen i hynny gael ei gefnogi gan athrawon. Rhoddir effaith gyfreithiol i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol drwy orchymyn a chaiff cynnwys y ddogfen ei negodi ag undebau llafur."*[497]

**419.** Dywedodd yr Aelod sy'n Gyfrifol fod costau athrawon cyflenwi wedi'u cyfrifo'n glir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dywedodd nad oes angen athrawon cyflenwi mewn sawl achos gan fod yr athrawon yn fwy na pharod i fynd gyda'u dosbarth ond roedd yn cydnabod mewn lleoliadau uwchradd bod y sefyllfa'n fwy cymhleth.[498] Dywedodd y byddai'r canllawiau yn sicrhau y byddai ysgolion yn cael cyllid i gefnogi hynny hefyd. Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig bod ysgolion yn cael sicrwydd y byddent yn cael cefnogaeth ariannol ar gyfer hyn.[499]

**420.** Mewn perthynas â'r materion yn ymwneud â goramser, dywedodd y byddai hwn yn ddarn o waith y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymgymryd ag ef wedi i'r Bil gael ei basio.[500] Roedd yn derbyn efallai nad yw'n fater syml ond mai ei rôl ef oedd cyflwyno'r ddeddfwriaeth sy'n gwarantu'r ddarpariaeth ar gyfer pob plentyn yng Nghymru.[501]

## Ein barn ynghylch goblygiadau ariannol y Bil

**421.** Nodwn fod y Bil hwn yn anarferol iawn gan ei fod yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i ariannu gweithgaredd penodol iawn. Nid ydym wedi gallu nodi unrhyw enghreifftiau tebyg mewn deddfwriaeth, sy'n ymwneud â meysydd gwariant penodol o'r fath. Byddem yn croesawu eglurder gan yr Aelod sy'n Gyfrifol ynghylch enghreifftiau eraill ble y mabwysiadwyd dull o'r fath.

**Argymhelliad 8.** Cyn dadl Cyfnod 1, dylai'r Aelod sy'n Gyfrifol ddarparu enghreifftiau lle mae deddfwriaeth wedi gosod gofyniad ar Weinidogion i ariannu math penodol iawn o weithgaredd.

**422.** Clywsom amrywiaeth o bryderon ynghylch goblygiadau ariannol y Bil. Rydym yn falch na fu i'r Aelod sy'n Gyfrifol osgoi'r heriau hyn, a'i fod yn ymddangos fel pe bai'n agored i ymchwilio i fodelau ariannu amgen posibl, a allai wneud y Bil yn fwy hyfyw yn ariannol, yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

---

[497] Tystiolaeth ysgrifenedig, ROE 24, Llywodraeth Cymru, paragraff 7.9
[498] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 84
[499] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 94
[500] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 94
[501] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 1 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 136

**423.** Rydym yn cytuno â'r Aelod sy'n Gyfrifol nad oes dim i atal Llywodraeth Cymru rhag dod o hyd i'r cyllid ar gyfer y Bil o rywle arall o fewn ei chyllideb. Nid oes dim i'w ddweud bod yn rhaid i'r cyllid ddod o'r gyllideb Addysg a'r Gymraeg. Os caiff y Bil ei basio, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y gofyniad ariannu newydd hwn o fewn y gyllideb gyfan a pheidio â thybio y dylai ddod o linell gyllideb Addysg a'r Gymraeg. Gellir trosglwyddo cyllidebau i'r gyllideb hon o feysydd gwariant eraill er mwyn ariannu'r ddarpariaeth.

**424.** Ni fyddem am weld y cyllid ar gyfer y Bil yn dod o'r cyllidebau addysg presennol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth gyflwyno hanfodion addysg. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i gyllid ychwanegol i gefnogi gweithrediad y Bil hwn.

**425.** Mewn perthynas â'r costau ychwanegol a allai ddod i ran ysgolion, rydym yn deall yr heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu o ran cael gafael ar athrawon cyflenwi, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai fod costau ychwanegol pellach os bydd angen mwy o weithwyr cymorth megis ar gyfer y plant hynny a chanddynt anghenion ychwanegol, neu'r rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion a'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (os caiff cymhwystra'r ddarpariaeth ei ehangu fel yr ydym yn galw amdano yn argymhelliad 2.)

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **6 Rhagfyr 2023** | **Sam Rowlands AS,**<br>Yr Aelod sy'n Gyfrifol<br>**Dr Dave Harvey,**<br>Aelod o Staff Cymorth y Senedd<br>**Michael Dauncey, Ymchwilydd**<br>Y Senedd<br>**Jen Cottle, Y Gwasanaethau Cyfreithiol,**<br>Y Senedd<br>**Ceren Roberts, Cyfarwyddwr Canolfan Breswyl Caerdydd,**<br>Urdd Gobaith Cymru<br>**Geraint Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Breswyl Caerdydd,**<br>Urdd Gobaith Cymru<br>**Graham French, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, Cadeirydd rhanbarth Gogledd Cymru Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored a Chadeirydd pwyllgor rhanbarth Gogledd Cymru y Sefydliad Dysgu Awyr Agored**<br>**Clare Adams, Cynghorydd Addysg Awyr Agored ar gyfer Cyngor Sir Fynwy,**<br>Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr<br>**Mike Rosser, Cynghorydd Ymweliadau Addysgol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, ac Arweinydd Prosiect adolygiad Llywodraeth Cymru o Hyfforddiant Arweinwyr Ymweliadau mewn Colegau AB,**<br>Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored Cymru a Lloegr |
| **14 Rhagfyr 2023** | **Mark Campion, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro**<br>Estyn |
| **11 Ionawr 2024** | **Chris Parry, Llywydd,**<br>Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru |

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| | **Laura Doel, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymru,** Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru<br>**Catherine Falcus, Swyddog Polisi Addysg ac Arweinyddiaeth,** Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru<br>**Mary van den Heuvel, Uwch Swyddog Polisi Cymru,** Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU)<br>**Urtha Felda, Swyddog Polisi a Gwaith Achos,** Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>**Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,** Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| **24 Ionawr 2024** | **Y Cynghorydd Ian Roberts, Llefarydd Addysg** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Claire Homard, Cadeirydd,** Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>**Frank Young, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil,** Parentkind<br>**Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg,** Llywodraeth Cymru<br>**Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm,** Llywodraeth Cymru<br>**Ceri Planchant, Cyfreithiwr,** Llywodraeth Cymru |
| **1 Chwefror 2024** | **Sam Rowlands AS,** Yr Aelod sy’n Gyfrifol<br>**Dr Dave Harvey,** Aelod o Staff Cymorth y Senedd<br>**Micheal Dauncey, Ymchwilydd,** Y Senedd<br>**Manon Huws, Y Gwasanaethau Cyfreithiol,** Y Senedd |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **ROE 01** | Y Sefydliad Dysgu Awyr Agored |
| **ROE 02** | Urdd Gobaith Cymru |
| **ROE 03** | Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) |
| **ROE 04** | Mudiad Meithrin |
| **ROE 05** | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| **ROE 06** | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru (NAHT) |
| **ROE 07** | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |
| **ROE 08** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **ROE 09** | Parentkind |
| **ROE 10** | Cynghrair Cefn Gwlad Cymru |
| **ROE 11** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **ROE 12** | Y Bartneriaeth Awyr Agored |
| **ROE 13** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **ROE 14** | PLG Travel Ltd |
| **ROE 15** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **ROE 16** | Anabledd Dysgu Cymru |
| **ROE 17** | Bendrigg |
| **ROE 18** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **ROE 19** | Chwaraeon Cymru |
| **ROE 20** | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru) |
| **ROE 21** | Eryri-Bywiol |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **ROE 22** | Y Cerddwyr |
| **ROE 23** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **ROE 24** | Llywodraeth Cymru |
| **ROE 25** | Calvert Exmoor |
| **ROE 26** | Cyngor Cymru ar Gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored |
| **ROE 27** | Conffederasiwn GIG Cymru |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Parentkind | 1 Chwefror 2024 |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | 15 Chwefror 2024 |
| Sam Rowlands AS, Yr Aelod sy'n Gyfrifol | 19 Chwefror 2024 |